*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 16 Mawrth 2026** am **14:00 o'r gloch**
yn rhithwir **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Fuddiannau**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2025**

5. **Arolygiad y Prif Gynghorydd Tân ac Achub o Ystafell Reoli Tân ar y Cyd De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac Ystafell Reoli Tân Gogledd Cymru mewn ymateb i Argymhelliad 31 Ymchwiliad Tŵr Grenfell Cam 2, er gwybodaeth**

6. **Adroddiad Monitro Perfformiad Ch3 2025/26, er sicrwydd**

7. **Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27, i'w argymell**

8. **Datganiad Polisi Cyflog 2026/27, i'w argymell**

9. **Materion Brys**
   Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

### RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

10. **Rôl y Trysorydd (Adran 151), i'w cymeradwyo**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Rhagfyr 2025, yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Gareth A Roberts | Cyngor Sir Gwynedd |
| Y Cyng. Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Paul Rogers | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Gareth Williams | Cyngor Sir Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Mike Plant | Pennaeth Perfformiad, Cynllunio a Thrawsnewid |
| Paul Kay | Pennaeth Atal a Diogelu |
| Llinos Evans | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Matthew Powell | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| Heledd Davies | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Paul Cunningham | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Antony Wren | Cyngor Sir y Fflint |

**YN ABSENNOL**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 MEDI 2025

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2025 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

4.2 Cafwyd cadarnhad bod cyfarfod ar-lein wedi'i gael ag Ysgrifennydd y Cabinet ar fore 15 Rhagfyr, ac y byddai'n gwneud datganiad yn y Senedd yr wythnos hon mewn perthynas â'r newidiadau a fydd yn cael eu gwneud o amgylch llywodraethiant awdurdodau tân ac achub (ATA).

4.3 O ran tynnu'r grant lleihau tanau bwriadol yn ôl, byddai hyn yn cael ei wneud yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol gan fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod yn absennol o'r un diwethaf.

4.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5.0 MONITRO PERFFORMIAD, EBRILL 2025 – MEDI 2025

5.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Mike Plant adroddiad Monitro Perfformiad, Ebrill 2025 – Medi 2025, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar berfformiad dros gyfnod 1 Ebrill 2025 – 30 Medi 2025 (chwarter un a dau o flwyddyn ariannol 2025/26). Nodwyd bod y mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac yn cynnwys sylwebaeth ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu i'r dyfodol.

5.2 Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ffigurau ynghylch ymweliadau â CEM Berwyn dros y chwarter diwethaf. Dywedodd y Rheolwr Ardal Paul Kay bod cynnydd wedi bod yn nifer y digwyddiadau rhwng Mai a Gorffennaf 2025. Fodd bynnag, roedd gwaith cydweithredol gyda'r carchar wedi arwain yn ddiweddar at gyflwyno dyfeisiau fêpio nad oes modd ymyrryd â nhw i'r carcharorion, gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau. Roedd efelychiad bwrdd gwaith mewn ardal nad oedd yn gelloedd yn ogystal ag ymarfer byw wedi'u cynllunio dros y misoedd nesaf, ac roedd croeso i'r Aelodau arsylwi ar y rheini os y dymunant.

5.3 Gofynnodd Aelod a oedd ail injan dân Wrecsam yn dal i gael ei symud i Gorwen bob dydd er mwyn gwella argaeledd, ac a oedd hyn wedi effeithio ar y gallu i anfon dwy injan at CEM Berwyn pan geir galwad, yn unol â'r weithdrefn presenoldeb sydd wedi'i phenu eisoes. Cadarnhawyd fod argaeledd cyffredinol trwy gydol y dydd wedi gwella oherwydd y cynllun peilot Criwio Cnewyllyn, ac nad oedd ail injan Wrecsam yn cael ei symud i Gorwen mor aml ag yr oedd cyn gweithredu'r peilot ym mis Medi. Byddai ffigurau wedi'u cadarnhau ar gael ynghylch hyn yn dilyn yr adolygiad chwarterol cyntaf o'r cynllun peilot yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

5.4 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr ystadegau ar gyfer archwiliadau diogel ac iach â blaenoriaeth uchel yn gwella, ac a oedd modd eu hail-gategoreiddio i uchel iawn, ac uchel. Ymatebodd y Rheolwr Ardal Kay fod y gwaith o gategoreiddio archwiliadau diogel ac iach yn cyd-fynd yn briodol â Strategaeth Atal Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, a bod cyfran o'r atgyfeiriadau risg uchel yn cael eu cynnal gan griwiau'r ochr weithredol.

5.5 Gofynnodd Aelod a oedd y Gwasanaeth yn meddu ar y capasiti a'r adnoddau i ymdopi â'r cynnydd mewn digwyddiadau tanau gwyllt a thywydd garw. Atebodd y Rheolwr Ardal Plant trwy ddweud bod adolygiadau risg yn cael eu cynnal ar hyn, a bod y Gofrestr Risg Strategol yn cael ei diwygio yn ôl yr angen; fodd bynnag, roedd rhai heriau'n parhau ynglŷn â chapasiti ers i'r Grant Lleihau Tanau Bwriadol gael ei dynnu'n ôl.

5.6 Dywedodd PST Docx y byddai tanau gwyllt a gofynion tywydd garw yn parhau i greu pwysau cost i'r Gwasanaeth, a bod sesiwn hyfforddi tanau gwyllt wedi'i chynllunio cyn cyfarfod llawn yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) ym mis Ionawr 2026.

5.7 Nodwyd y cynnydd mewn achosion o danau yng nghyffiniau rheilffyrdd cul, a chafwyd trafodaeth am hyn.

5.8 Gofynnwyd sawl galwad fu am gymorth cyntaf oherwydd diffyg ambiwlansys, ac atebodd PST Docx trwy ddweud bod criwiau wedi'u hyfforddi i roi gofal meddygol uniongyrchol, ond nad oedden nhw'n gwneud gwaith criwiau ambiwlans.

5.9 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad.**

## 6.0 RHEOLI RISG STRATEGOL

6.1 Cyflwynwyd y papur Rheoli Risg Strategol i'r Aelodau gan PSTC Anthony Jones, ac roedd yn rhoi diweddariad mewn perthynas â'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg a throsolwg o Gofrestr Risg Strategol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

6.2 Gofynnwyd a allai'r swyddogion roi sicrwydd i'r Aelodau bod y buddsoddiadau a'r diogelwch perthnasol ar waith i amddiffyn y Gwasanaeth rhag risgiau seiber. Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod parodrwydd y Gwasanaeth i dderbyn risg yn isel iawn mewn perthynas â bygythiadau seiber, a bod trefniadau cadarn ar waith i liniaru'r maes hwn. Roedd safonau cydnabyddedig ar waith a darparwyd sicrwydd allanol gan archwilwyr mewnol.

6.3 Nododd y Trysorydd fod 'minimal' yn golygu bod y Gwasanaeth yn mabwysiadu'r dull mwyaf gofalus mewn perthynas â risgiau seiber.

6.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r Gofrestr Risg Strategol; ac**
**ii) adolygu a chymeradwyo'r parodrwydd i dderbyn risg ym mharagraffau 14–21 o'r papur**

**7.0 PENNU CYLLIDEB 2026/27**

7.1 Rhoddodd Elgan Roberts, y Pennaeth Cyllid, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr asesiad cynllunio ariannol i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27 a cheisio cymeradwyaeth i ddangos yr ardoll ddangosol i'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

7.2 Nodwyd bod Aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi craffu ar y broses o osod cyllideb yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, a'u bod wedi cymeradwyo'r holl argymhellion.

7.3 Diolchwyd i aelodau'r gweithgor Craffu ar y Gyllideb, yr Adran Gyllid a deiliaid y gyllideb am eu sylw a'u gwaith caled wrth osod y gyllideb.

7.4 Cadarnhaodd y Trysorydd mai dim ond ar gyfer eitemau untro o wariant y defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn, a bod swyddogion cyllid awdurdodau lleol wedi cael eu hysbysu drwy gydol y broses o osod cyllideb. Dywedodd ei fod o'r farn bod y cynnydd yn yr ardoll yn rhesymol ac yn briodol.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27;**
**ii) Nodi'r asesiad cynllunio ariannol cyfredol sy'n dangos gofyniad cyllideb refeniw o £54.375m a chyllideb gyfalaf o £6.661m ar gyfer 2026/27;**
**iii) Nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.271m o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2026/27; a**
**iv) chymeradwyo rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddrafft o £54.104m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.**

## 8.0 YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y FFRAMWAITH CENEDLAETHOL DRAFFT AR GYFER GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

8.1 Cyflwynodd PSTC Evans yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, a gofynnodd am gymeradwyaeth o'r ymateb arfaethedig gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

8.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cyhoeddiad y Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru;**
**ii) Cymeradwyo ymateb arfaethedig y Gwasanaeth i'r ymgynghoriad, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1; ac**
**iii) Awdurdodi cyflwyno'r ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn dyddiad cau yr ymgynghoriad ar 17 Rhagfyr 2025.**

## 9.0 MATERION BRYS

9.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben: 15:00 o'r gloch

*This document is available in English*

**Eitem Agenda 05**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Ros Thomas, Pennaeth yr Ystafell Reoli** |
| Pwnc | **Arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru o Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru mewn ymateb i Argymhelliad 31 Ymchwiliad Tŵr Grenfell Cam 2** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad yn dilyn cyhoeddi adroddiad arolygu Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru (CFRAIW) o'r enw "Arolygiad o Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru mewn ymateb i Argymhelliad 31 Ymchwiliad Tŵr Grenfell Cam 2".

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ar 19 Rhagfyr 2025 cyhoeddodd CFRAIW yr adroddiad atodedig. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r arolygiadau o Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym mis Medi a Hydref 2025.

3 Pwrpas yr arolygiadau oedd bodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'n llawn Argymhelliad 31 o Gam 2 Ymchwiliad Tŵr Grenfell. Ceisiodd y gwaith maes arolygu ganfod i ba raddau y cafodd yr Ystafelloedd Rheoli Tân priodol eu hintegreiddio yn eu Gwasanaeth Tân ac Achub o safbwynt staff ac o safbwynt polisi gweithredol a sicrwydd. Roedd hefyd yn ystyried effeithiolrwydd y rhaglen hyfforddi caffael a chynnal sgiliau.

## ARGYMHELLION

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

- **i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
- **ii) Nodi bod cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith i ystyried argymhellion arolygiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd.**

## CEFNDIR

5 Cyfeiriwyd argymhelliad 31 o Gam 2 Ymchwiliad Tŵr Grenfell at Frigâd Dân Llundain. Fodd bynnag, cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r holl argymhellion yn llawn a chomisiynodd Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru i werthuso:

a) Integreiddio'r ystafelloedd rheoli o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub;
b) Effeithiolrwydd hyfforddiant ar gyfer staff ystafelloedd rheoli;
c) Ei effeithiolrwydd gweithredol;
d) Ei allu i reoli nifer o geisiadau am gymorth ar yr un pryd yn ystod argyfyngau; ac
e) Ansawdd y cyfathrebu rhwng yr ystafelloedd rheoli a'r penaethiaid safle digwyddiad.

## GWYBODAETH

6 Yn dilyn gwaith maes a wnaed yn y ddwy ystafell reoli yn ystod mis Medi a Hydref 2025, cyhoeddwyd yr adroddiad atodedig gan Lywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2025. Mae tudalennau 28 i 39 yn ymwneud ag Ystafell Reoli Tân a Heddlu Gogledd Cymru, Crud y Dderwen. Tynnwyd yr adroddiad at sylw Aelodau o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar adeg ei gyhoeddi. Mae Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru, Dan Stephens, wedi cytuno i fynd i'r Panel Gweithredol i gyflwyno ei ganfyddiadau.

7 Mewn perthynas ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'r Prif Gynghorydd ac Arolygydd yn gwneud tri argymhelliad:

- Argymhelliad 1: Dylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) sicrhau nad yw shifftiau'n para mwy na 12 awr;
- Argymhelliad 2: dylai'r Gwasanaeth gynyddu sefydliad gwylfa'r Ystafell Rheoli Tân i 28 FTE; ac
- Argymhelliad 3: dylai'r Gwasanaeth gynnal dadansoddiad manwl o'r galw gweithredol ac anghenion hyfforddi a datblygu staff yr Ystafell Rheoli Tân gyda'r bwriad o gynyddu lefelau staffio ar shifftiau dydd i ddarparu mwy o allu gweithredol i ateb y galw ac i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a gweithgareddau datblygu o safon.

8 Yn rhan o'i hamcanion adrannol ar gyfer 2026/27, mae Pennaeth yr Ystafell Reoli wedi ymrwymo i ystyried yr argymhellion ac i barhau i recriwtio i'r pedair swydd ychwanegol i ddarparu gwydnwch, hyblygrwydd a gallu ar gyfer hyfforddiant.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynaliadwyedd a chynnal sgiliau proffesiynol gweithredwyr yr ystafell reoli yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru |
| Cyllideb | Cost pedwar gweithredwr ystafell reoli ychwanegol yw £221,348. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei ariannu gan danwariant dros dro o fewn cyllidebau staffio eraill |
| Cyfreithiol | Dim |
| Staffio | Argymhellir bod sefydliad gweithredwyr yr ystafell reoli yn cael ei gynyddu o 24 i 28 cyfwerth ag amser llawn (FTE) |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae holl weithredwyr yr ystafell reoli yn hyfedr yn y Gymraeg hyd at lefel 4 neu uwch gan alluogi'r cyhoedd i gyrchu'r gwasanaethau tân ac achub yn eu dewis iaith |
| Risgiau | Fel y nodir yn yr adroddiad llawn atodedig |



# Archwiliad o ystafell Rheoli Tân ar y Cyd De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru mewn ymateb i Argymhelliad 31 Ymchwiliad Tŵr Grenfell Cam 2

Rhagfyr 2025

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53802, ISBN digidol 978-1-80633-897-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Archwiliad o ystafell Rheoli Tân ar y Cyd De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru mewn ymateb i Argymhelliad 31 Ymchwiliad Tŵr Grenfell Cam 2

Dan Stephens, Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub, Llywodraeth Cymru

Contents


Crynodeb gweithredol .... 2
Cyflwyniad .... 5
Adran 1 .... 7
Ystafell Rheoli Tân .... 7
Heriau penodol i Dimau Rheoli'r Ystafell Rheoli .... 8
Staffio .... 8
Hyfforddiant a gweithgareddau datblygu eraill .... 9
Blinder a risg .... 10
Adran 2 .... 12
Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru .... 12
Hyfforddiant cychwynnol i feithrin sgiliau ac i'w cynnal .... 14
Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Integreiddio .... 15
Statws cyflogaeth, contractau a materion integreiddio mewnol eraill .... 16
Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd wedi'i lleoli yn un o gyfleusterau'r Heddlu .... 17
Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Hyfforddiant .... 20
Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Polisi a sicrwydd .... 23
Crynodeb o'r materion a godwyd a'r canfyddiadau .... 26
Argymhellion .... 29
Adran 3 .... 31
Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru .... 31
Hyfforddiant cychwynnol i feithrin sgiliau ac i'w cynnal .... 33
Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Integreiddio .... 33
Ystafell Rheoli Tân wedi'i lleoli yn un o gyfleusterau'r Heddlu .... 33
Integreiddio o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru .... 35
Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Hyfforddiant .... 38
Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Polisi a sicrwydd .... 39
Crynodeb o'r materion a godwyd a'r canfyddiadau .... 41
Argymhellion .... 43
Cydnabyddiaeth .... 44

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau archwiliadau o Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref 2025.

Pwrpas yr archwiliadau oedd diwallu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Argymhelliad 31 o Gam 2 Ymchwiliad Tŵr Grenfell yn llawn. Nod gwaith maes yr arolygiad oedd ceisio sefydlu i ba raddau yr oedd yr Ystafelloedd Rheoli Tân perthnasol wedi'u hintegreiddio o fewn eu Gwasanaethau Tân ac Achub o safbwynt staff a pholisi gweithredol a sicrwydd. Roedd hefyd yn ystyried effeithiolrwydd y rhaglen hyfforddiant ar gyfer meithrin a chynnal sgiliau.

Mae'r Ystafell Rheoli Tân yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaethau tân ac achub. Mae staff yr Ystafell Rheoli Tân yn derbyn galwadau brys, yn anfon adnoddau i ddigwyddiadau, yn cysylltu ag ymatebwyr eraill ac yn darparu arweiniad goroesi. Heb yr Ystafell Rheoli Tân, ni fyddai'n bosibl ymateb i argyfyngau'n effeithiol nac o gwbl.

Daeth Ystafell Rheoli Tân Brigâd Dân Llundain yn destun craffu am ei rôl yn yr ymateb i dân Tŵr Grenfell. Yn y ddau adroddiad, gwnaeth Ymchwiliad Cyhoeddus Tŵr Grenfell argymhellion i wella sut mae'r Ystafell Rheoli Tân yn gweithio a sut mae'n rhyngweithio â'r cyhoedd, diffoddwyr tân yn y fan a'r lle a chydag ymatebwyr eraill. Cafodd yr argymhellion hynny eu cyfeirio'n bennaf at Frigâd Dân Llundain ond roeddent hefyd yn berthnasol ar raddfa ehangach. Fel gyda chanfyddiadau'r Ymchwiliad yn fwy cyffredinol, byddai'n naïf meddwl mai dim ond yn Llundain y gallai'r diffygion a nodwyd fodoli.

Mae'r adroddiad hwn felly'n gweithredu ar yr argymhellion yn ail adroddiad yr Ymchwiliad a oedd yn galw am arolygiad o Ystafell Rheoli Tân Brigâd Dân Llundain. Mae'n ymdrin â'r ddwy Ystafell Reoli Tân yng Nghymru. Mae'r ddwy Ystafell Rheoli Tân wedi'u lleoli o fewn cyfleusterau'r Heddlu. Mae'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gyfathrebu ar y Cyd Heddlu Gogledd Cymru yn Llanelwy.

Roedd staff yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn teimlo lefel uchel o ddatgysylltiad oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys yr amgylchedd gwaith ac absenoldeb telerau ac amodau wedi'u cysoni. Nid oedd yr un pryderon ynghylch yr amgylchedd gwaith yn cael eu hadlewyrchu yn Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru er ei bod hefyd wedi'i lleoli yn un o gyfleusterau'r Heddlu.

Mae lleoli'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd o fewn adran anfon y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno heriau a allai amharu ar effeithiolrwydd ei hymateb gweithredol, yn enwedig yn ystod camau deinamig digwyddiad neu os yw galwadau byw am gyfarwyddyd goroesi tân yn parhau. Mae hyn yn llai o broblem yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd lle mae'r Ystafell Rheoli Tân wedi'i leoli yng nghornel bellaf yr adeilad.

Mae'r ddwy Ystafell Rheoli Tân yn gweithio shifftiau nos hir sy'n fwy na 12 awr, ac mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi y dylid osgoi hyn. Mae'r blinder a'r goblygiadau risg yn cael eu gwaethygu gan y ffaith bod y cyfnod o orffwys a roddir i staff yr Ystafell Rheoli Tân yn ystod y nos, yn yr achos gorau, yn hanner y cyfnod o orffwys a roddir i Ddiffoddwyr Tân sy'n gweithio'r system shifft, gan dybio nad yw'r cyfnod yn cael ei darfu arno. Nid yw cyfleusterau gorffwyso'r Ystafell Rheoli Tân o'r un safon â'r rhai a ddarperir mewn gorsafoedd tân a gallant effeithio ar y tebygolrwydd y bydd Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn cyflawni gorffwys ystyrlon gan gynyddu'r risg o flinder. Mae cyfnodau gorffwys estynedig hefyd yn effeithio ar faint o amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant ar shifft.

Mae heriau i'r Ystafell Rheoli Tân o ran ymgymryd â hyfforddiant cynnal sgiliau pan fyddant ar shifft. Yn wahanol i wylfeydd Ystafell Rheoli Tân gorsafoedd tân, ni all pob un ohonynt hyfforddi gyda'i gilydd gan fod angen nifer sylfaenol o Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) i staffio'r systemau ffôn, radio a gweithredu. Mae lefelau staffio yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd yr hyfforddiant y gellir ymgymryd ag ef ar shifft. Nodwyd bod hyn yn broblem i'r ddwy Ystafell Rheoli Tân.

Mae'n realiti y bydd llawer o hyfforddiant cynnal sgiliau ar gyfer Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn cael ei gynnal yn unigol rhwng delio â galwadau brys a gweinyddol. Felly dylai ansawdd y deunyddiau hyfforddi sydd ar gael i Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) fod o safon uchel. Mae angen rhoi sylw i hyn yn y ddwy Ystafell Reoli Tân.

Dywedwyd bod y broses Datblygu i fod yn Gymwys ar gyfer Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) sydd mewn datblygiad yn feichus, yn rhy fiwrocrataidd ac mewn rhai achosion yn rhwystr i gadw staff. Er gwaethaf hyn, clywais am enghreifftiau rhagorol o Reolwyr Criw a Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) yn hyfforddi a mentora Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn ystod eu datblygiad.

Nodwyd bod rhai polisïau a chyfarwyddiadau cyffredinol wedi dyddio neu ddim yn berthnasol mwyach. Cwynodd Rheolwyr Criw a Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) am ddiffyg cyfeiriad polisi sefydliadol clir ar gyfer ymateb i fathau penodol o ddigwyddiadau.

Mae Timau Rheoli'r Ystafell Rheoli yn cydnabod bod bylchau mewn polisi a chanllawiau eraill ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân. Cyfeiriwyd at brinder staff a llwyth

gwaith fel rhesymau pam nad yw'r materion hyn yn cael sylw mor gyflym ag y dylent fod.

Fodd bynnag, mae enghreifftiau o arferion da yn dod i'r amlwg o ran prosesau sicrwydd gweithredol. Mae gan Dimau Rheoli'r Ystafell Rheoli yn y ddwy Ystafell Rheoli Tân syniad clir o gyfeiriad o ran mynd i'r afael â materion polisi gweithredol, hyfforddiant a sicrwydd. Gyda'r lefelau gofynnol o gefnogaeth a buddsoddiad gan y sefydliad, rwy'n hyderus y byddant yn llwyddo.

Roedd lefelau ymgysylltu gan yr holl staff yn ystod ymweliadau'r arolygiad yn rhagorol. Dangosodd staff y ddwy Ystafell Rheoli Tân ymrwymiad clodwiw i ddyletswydd ac awydd gwirioneddol i gyfrannu at wella eu Gwasanaethau Tân ac Achub.

Mae'r Ystafell Rheoli Tân yn ased strategol sy'n hanfodol i ymateb gweithredol effeithiol. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, dyma'r pwynt cyswllt cyntaf ac yn aml y pwynt cyswllt parhaus ar gyfer y cyhoedd. Tynnodd digwyddiadau Grenfell ac Arena Manceinion sylw at bwysigrwydd yr Ystafell Rheoli Tân a'r angen gwirioneddol iddo fod yn effeithiol.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu gwneud gan gydnabod natur unigryw'r Ystafell Rheoli Tân a chyda'r bwriad o sicrhau bod staff yr Ystafell Rheoli Tân ledled Cymru mor ddiogel, mor hyfforddedig ac mor effeithiol ag y gallant fod.

## Cyflwyniad

Ar 7 Gorffennaf 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i adroddiad cam dau Ymchwiliad Tŵr Grenfell.[1] Yn yr ymateb, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i fabwysiadu Argymhelliad 31 yn llawn, gan nodi'r camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r argymhelliad (sydd wedi'i gopïo isod):

**Argymhelliad 31**
*Bod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ("yr Arolygiaeth") yn arolygu Brigâd Dân Llundain cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl er mwyn asesu ac adrodd ar y canlynol:*

- *i ba raddau y mae'r ystafell reoli bellach wedi'i hintegreiddio yn y sefydliad*
- *effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer nodi anghenion hyfforddi staff yr ystafell reoli, darparu hyfforddiant effeithiol a chofnodi'r canlyniadau*
- *effeithiolrwydd yr ystafell reoli yn gyffredinol*
- *gallu'r ystafell reoli i ddelio â nifer mawr o geisiadau ar yr un pryd am gyngor a chymorth gan bobl y mae tanau neu argyfyngau eraill yn effeithio'n uniongyrchol arnynt*
- *ansawdd ac effeithiolrwydd y trefniadau cyfathrebu rhwng yr ystafell reoli a phennaeth y digwyddiad. (113.55)*

***Beth rydym wedi ymrwymo i'w wneud***
*Bydd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub (Cymru) (CFRAI (W)) yn cynnal arolygiad wedi'i dargedu o 3 Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru i ganfod pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer asesu hyfforddiant personél rheoli tân ac i ystyried pa mor effeithiol yw'r trefniadau hynny. Bydd canfyddiadau ac argymhellion yn cael eu nodi mewn adroddiad gan y CFRAI(W).*

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ac argymhellion arolygiadau Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Llanelwy a'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref 2025.

Cyn ymgymryd â gwaith maes yr arolygiad, adolygais strwythurau sefydliadol, arferion gwaith, ac amserlenni dyletswyddau wythnosol a misol gan gynnwys rhaglenni cynnal sgiliau ar gyfer y ddwy Ystafell Rheoli Tân. Gofynnais hefyd i gael data am nifer y galwadau gan gynnwys galwadau gweinyddol. Roedd cael gafael ar yr wybodaeth hon yn her i Dimau Rheoli'r Ystafell Rheoli gan fod y ddwy Ystafell Rheoli Tân yng Nghymru wedi'u lleoli o fewn cyfleusterau'r Heddlu ac felly'n defnyddio seilwaith Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu yr Heddlu.

[1] Adroddiad Cam 2 Ymchwiliad Tŵr Grenfell: Ymateb Llywodraeth Cymru [HTML] LLYW.CYMRU

Roedd gwaith maes yr arolygiad yn cynnwys ymweliadau â'r gwylfeydd yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn yr Ystafell Rheoli Tân eilaidd yn y Rhyl yn ystod sesiynau hyfforddi ar gyfarwyddyd goroesi tân. Fe wnes i hefyd gynnal sawl cyfarfod gyda Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli.

Ffocws yr ymweliadau â'r gwylfeydd oedd pennu i ba raddau yr oedd Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn teimlo eu bod wedi'u hintegreiddio o fewn y sefydliad a pha mor effeithiol oedd y drefn hyfforddiant cynnal sgiliau yn eu barn nhw.

Ffocws y cyfarfodydd gyda Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli oedd pennu i ba raddau yr oedd yr Ystafell Rheoli Tân wedi'i hintegreiddio i mewn i'r sefydliad o safbwynt sicrwydd a pholisi gweithredol a pha effaith a gafodd hyn ar effeithiolrwydd cyffredinol.

Mae gallu Ystafelloedd Rheoli Tân Cymru i ddelio â nifer fawr o geisiadau cydamserol am gyngor a chymorth gan bobl y mae tanau neu argyfyngau eraill yn effeithio'n uniongyrchol arnynt ac ansawdd ac effeithiolrwydd y trefniadau cyfathrebu rhwng yr ystafell reoli a phennaeth y digwyddiad wedi cael eu hystyried yn flaenorol yn Adolygiad Thematig 2021 Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru: Dysgu o Grenfell[2].

Ers arolwg 2021, mae ymgyrch Willow Beck wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân a British Telecom (BT) i sefydlu ffordd fwy cadarn o atal Ystafelloedd Rheoli Tân rhag cael eu llethu gan alwadau brys sy'n deillio o ddigwyddiadau mawr neu ddigwyddiad sy'n cymryd amser hir i ddelio ag ef.

Erbyn hyn, mae gan BT gynllun ailddosbarthu wedi'i bennu ymlaen llaw i ailgyfeirio galwadau gorlif yn effeithlon rhwng Gwasanaethau Tân ac Achub yn ystod cyfnodau pan fydd un Ystafell Rheoli Tân wedi cael ei llethu gan alwadau 999 oherwydd digwyddiad mawr sy'n cymryd amser hir i ddelio ag ef neu pan fo lu o ddigwyddiadau.

Cafodd y system ei defnyddio i ddechrau yn ystod tanau gwyllt Gorffennaf/Awst 2022 gyda chanlyniadau llwyddiannus, ac mae wedi cael ei defnyddio ar sawl achlysur ers hynny. Nid yw felly'n brif ffocws yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn dair adran. Mae'r adran gyntaf yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r Ystafell Rheoli Tân. Mae'r ail a'r drydedd adran yn nodi canfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad ar gyfer Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Rheolaeth Tân ar y Cyd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

[2] Adolygiad thematig y Prif Gynghorydd Tân ac Achub: dysgu o argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell | LLYW.CYMRU

# Adran 1

## Ystafell Rheoli Tân

Mae Adrannau 7.2(c), 8.2(c) a 9.3(c) o'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub yn rhoi dyletswydd ar y Gwasanaethau Tân ac Achub i '*wneud trefniadau ar gyfer delio â galwadau am gymorth ac ar gyfer galw ar staff*'. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy ddarparu Ystafell Rheoli Tân.

Gelwir y staff sy'n gweithio yn yr Ystafell Rheoli Tân yn Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli). Mae strwythur rôl yr Ystafell Rheoli Tân yn union yr un fath â strwythur gorsaf dân shifft amser llawn. Fel arfer, bydd yr Ystafell Rheoli Tân yn gweithredu system pedair gwylfa er y gellir ategu hyn gan staff sydd wedi'u cyflyru i system dyletswydd dydd i gynyddu staffio yn ystod y dydd gan mai dyma pryd mae nifer y galwadau ar eu huchaf. Bydd gwylfa yn cynnwys o leiaf dwy rôl rheolwr goruchwylio (Rheolwr Gwylfa A a/neu B (Ystafell Rheoli) a/neu Reolwr Criw (Ystafell Rheoli) a sawl Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) yn dibynnu ar y lefelau staffio sylfaenol. Drwy gydol yr adroddiad hwn, defnyddir y term Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) wrth gyfeirio at staff yr Ystafell Rheoli Tân oni bai ei fod yn cyfeirio'n benodol at rôl y Rheolwr Criw neu'r Rheolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli). Pan ddefnyddir y term Ystafell Rheoli Tân, mae hyn yn cyfeirio at holl staff yr Ystafell Rheoli Tân, gan gynnwys gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli.

Yn aml, yr Ystafell Rheoli Tân fydd y pwynt cyswllt cyntaf â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer aelod o'r cyhoedd sydd mewn argyfwng. Mae Cod Ymarfer y Gwasanaeth Galwadau Brys Cyhoeddus (PECS) yn nodi'r dulliau a ddefnyddir i drosglwyddo galwadau brys rhwng yr asiant sy'n delio â galwadau (BT yn y DU) a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd yr alwad gychwynnol sy'n cael ei chyfeirio o'r asiant trin galwadau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael ei derbyn gan Ddiffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) drwy System Rheoli Cyfathrebu Integredig (ICCS) sy'n rhan o'r system gweithredu cyffredinol.

Bydd y Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) sy'n delio â'r alwad gychwynnol yn mewnbynnu manylion yr argyfwng i'r system gweithredu a fydd yn nodi'r holl leoliadau posibl ar gyfer triongli'r cyfeiriad gyda'r lleoliad y mae'r alwad wedi tarddu ohono ynghyd â phresenoldeb a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer y math o ddigwyddiad gan ddewis yr offer agosaf a swyddogion tactegol neu arbenigol i'w defnyddio. Bydd Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) wedyn yn defnyddio'r offer a ddewiswyd ar gyfer y digwyddiad ac yn gweithredu unrhyw swyddogion Tactegol[3] neu arbenigol yn ôl yr angen. Gelwir hyn yn anfon drwy gymorth cyfrifiadur (CAD).

---

[3] Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term Swyddog Tactegol i ddisgrifio Rheolwyr Gorsaf neu Reolwyr Grŵp sydd wedi eu cyflyru i'r system ddyletswydd hyblyg

Drwy gydol y digwyddiad, bydd y Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn cofnodi pob neges o'r digwyddiad ar log digwyddiadau ac yn ymateb i unrhyw geisiadau o'r digwyddiad ac yn gweithredu arnynt. Byddant hefyd yn cysylltu â'r gwasanaethau brys eraill ac asiantaethau partner a all fod yn niferus yn dibynnu ar natur y digwyddiad.

Ar ddiwedd y digwyddiad, bydd y Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn gwirio data'r alwad a naill ai'n cwblhau adroddiad y System Cofnodi Digwyddiadau (IRS - fel y'i gelwid adeg yr arolygiad ond ers hynny mae wedi trosglwyddo i'r Platfform Data Tân ac Achub) neu'n trosglwyddo unrhyw fanylion perthnasol i Bennaeth y Digwyddiad er mwyn iddo gwblhau'r adroddiad IRS.

Mae hwn yn esboniad syml iawn nad yw'n cyfleu cymhlethdod llawer o ddigwyddiadau mewn unrhyw ffordd. Gall un digwyddiad arwain at nifer o alwadau'n ailadrodd yr un peth, ac mae angen ateb a recordio pob un ohonynt. Gall digwyddiadau cymhleth neu hir arwain at geisiadau lluosog am wybodaeth, cymorth neu adnoddau arbenigol gan amrywiaeth o asiantaethau.

Mae'r Ystafell Rheoli Tân hefyd yn gweithredu fel y storfa ganolog ar gyfer nifer o swyddogaethau sefydliadol sy'n cynhyrchu llawer iawn o alwadau gweinyddol. Mae enghreifftiau o alwadau gweinyddol yn cynnwys atgyfeiriadau diogelu, cofnodi namau ar offer a chyfarpar, ceisiadau am absenoldeb brys a rhoi gwybod am absenoldeb salwch. Mae nifer y galwadau gweinyddol yn llawer mwy na nifer y galwadau brys.

## Heriau penodol i Dimau Rheoli'r Ystafell Rheoli

Mae'r Ystafell Rheoli Tân yn unigryw ym mhob Gwasanaeth Tân ac Achub. Nid oes Gwasanaeth Tân ac Achub yn y DU sydd â mwy nag un Ystafell Rheoli Tân ac mae nifer o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn rhannu Ystafell Rheoli Tân gan gynnwys Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r amgylchedd unigryw hwn yn cyflwyno heriau o ran staffio, hyfforddi a rheoli blinder.

## Staffio

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae staff yr Ystafell Rheoli Tân fel arfer yn adlewyrchu'r hynny sydd ar gael ar gyfer gorsaf dân shifft amser llawn gyda phedair gwylfa (coch, gwyn, glas a gwyrdd fel arfer) yn gweithio dau ddiwrnod, ac yna dwy noson wedi'u dilyn gan bedwar diwrnod rota.

Ym mron pob Gwasanaeth Tân ac Achub ledled y DU, mae mwy nag un orsaf â chriw shifftiau amser llawn. Os oes prinder staff gan Wylfa Goch ar shifft yng ngorsaf dân A sydd naill ai'n Diffoddwr Tân, Gyrrwr neu Reolwr Criw/Gwylfa ac mae gan Wylfa Goch yng ngorsaf dân B gormodedd, yna yn dibynnu ar y diffyg, byddai Diffoddwr Tân, Gyrrwr neu Reolwr Criw/Gwylfa yn cael ei adleoli am y shifft o orsaf B i orsaf A i ddelio â'r sefyllfa. Nid yw'r gwydnwch hwn ar gael i'r Ystafell Rheoli Tân gan mai dim ond un Ystafell Rheoli Tân sydd, felly, mae'n gorfod bod yn hunangynhaliol at ddibenion staffio. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob alldyniad (gwyliau blynyddol, hyfforddiant oddi ar shifft, salwch a phob absenoldeb arall) gael ei ddelio gydag o fewn yr Ystafell Rheoli Tân.

Prin yw'r opsiynau sydd ar gael i Dimau Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân (CMT) i reoli alldyniadau ac yn enwedig y rhai o natur tymor hirach megis salwch difrifol neu absenoldeb mamolaeth. Mae yna gyfyngiad ar ba oramser y gellir ei ddefnyddio gan ei fod yn gwbl ddibynnol ar argaeledd a pharodrwydd Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) i wirfoddoli am oramser. Gall cydbwyso gwylfeydd (cydraddoli niferoedd ar draws gwylfeydd) amharu'n fawr ar yr unigolion yr effeithir arnynt a gall effeithio'n negyddol ar forâl staff. Mae contractau tymor penodol yn opsiwn ond mae gofyniad recriwtio a hyfforddi pen blaen sylweddol gan dybio bod digon o ymgeiswyr am swyddi tymor penodol yn y lle cyntaf. Mae ymddeol ac ailgyflogi ar gontractau rhan-amser neu oriau banc yn opsiynau ond maent yn dibynnu ar bolisïau sydd ar waith mewn Gwasanaethau Tân ac Achub unigol.

## Hyfforddiant a gweithgareddau datblygu eraill

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant cynnal sgiliau ar gyfer Diffoddwyr Tân a Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn digwydd ar shifft. Mae rhai eithriadau, er enghraifft yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae hyfforddiant gorfodol ar gyfarwyddyd goroesi tân yn cael ei drefnu ar ddiwrnodau rota. Mae hyfforddiant diwrnod rota wedi cael ei drefnu yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd ond mae ei lwyddiant wedi amrywio gan fod presenoldeb yn wirfoddol ac yn aml mae newidiadau munud olaf i'r niferoedd sy'n gallu bod yn bresennol.

Gall Diffoddwyr Tân mewn gorsaf dân hyfforddi gyda'i gilydd fel criw gan y gellir eu rhoi ar waith drwy system troi allan yr orsaf sydd â larwm clywadwy i dynnu sylw'r criw at ddigwyddiad. Ni all Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) i gyd symud gyda'i gilydd i'r ystafell hyfforddi gan fod angen nifer sylfaenol ar gyfer staffio'r systemau ffôn, radio a gweithredu. Yn ymarferol, rhaid rhannu'r wylfa yn ei hanner i hyfforddi gydag un hanner yn yr ystafell hyfforddi a'r hanner arall yn aros o fewn yr Ystafell Rheoli Tân.

Gall diffoddwyr tân gynnal hyfforddiant i ffwrdd o'r orsaf neu ymweliadau casglu gwybodaeth am risgiau sy'n benodol i'r safle hwnnw tra'n parhau i fod ar gael drwy radio a/neu derfynell data symudol ar yr injan dân. Gall Diffoddwyr Tân gosod y teclyn

fel ei bod yn oedi cyn galw allan neu sicrhau nad yw'r teclyn ar gael dros dro er mwyn hwyluso hyfforddiant neu weithgarwch datblygu arall. Ni all yr Ystafell Rheoli Tân wneud unrhyw un o'r pethau hyn.

Mae'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant oddi ar shifft yn dibynnu'n llwyr ar y model staffio sydd ar waith yn y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Ystafell Rheoli Tân ac i ba raddau y mae darpariaeth ar gyfer hyfforddiant oddi ar shifft yn cael ei hystyried neu ddefnyddio goramser (pan fyddai presenoldeb yn fwyaf tebygol o fod yn wirfoddol). Gall alldyniadau sydd heb eu cynllunio neu heb eu rhagweld cael effaith niweidiol ar faint o hyfforddiant oddi ar shifft y gall Diffoddwyr Tân (Rheolaeth) ymgymryd ag ef.

## Blinder a risg

Pan fydd shifftiau nos yn fwy na 12 awr, fel sy'n digwydd yn nwy Ystafell Rheoli Tân Cymru lle mae shifftiau nos 13.5/14 awr ar waith, mae'r ffactorau blinder a risg ar gyfer Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn uwch gan nad yw'r amser rhwng y shifft noson gyntaf a'r ail noson yn ddigon ar gyfer seibian cydadferol. Mae hyn hefyd yn disgyn y tu allan i ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn HSG 256, sef i osgoi shifftiau dros 12 awr o hyd.

Mae diffoddwyr tân ar y system shifftiau amser llawn yn cael cyfnod o orffwys rhwng 0000 a 0700. Darperir gwelyau mewn gorsafoedd tân a gall yr holl wylfa gymryd y cyfnod gorffwys cyfan gyda'i gilydd gan y gall system troi allan yr orsaf cael eu sylw, nid yn unig gyda'r larwm clywadwy, ond hefyd gan ei fod yn troi'r holl oleuadau ymlaen drwy'r cyfleusterau gorffwys.

Rwyf wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau blinder pan fydd Diffoddwyr Tân yn cael eu galw yn ystod y cyfnod gorffwys mewn adroddiadau arolygu blaenorol. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol ar yr ail shifft nos os yw cyfnod gorffwys Ddiffoddwyr Tân wedi ei aflonyddu arno ar y shifft nos gyntaf. Rwyf hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch y cyfyngiadau mae cyfnodau gorffwys estynedig yn eu cael ar yr amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant a gweithgareddau eraill yn ymwneud â lleihau risg. Mae'r pryderon hyn yr un mor berthnasol i'r Ystafell Rheoli Tân.

Mewn gwirionedd, dim ond hanner neu draean o'r cyfnod gorffwys o 0000 i 0700 y mae Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn ei gael o'i gymharu â'u cymheiriaid yn y Gwasanaeth Tân oherwydd y gofyniad i ddelio'n barhaol â'r systemau ffôn, radio a gweithredu. Os oes digwyddiad neu ddigwyddiadau cydamserol sy'n cynhyrchu gweithgarwch sylweddol ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân yn ystod y cyfnod gorffwys, bydd y Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn cael eu galw yn ôl a fydd hyn yn amharu ar y cyfnod gorffwys.

Yn yr achos gorau, bydd Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn cael 3.5 awr o gyfnod gorffwys yn ystod shifft nos 13.5 /14 awr. Os torrir ar draws y cyfnod gorffwys, yna mae'r risg o flinder yn cynyddu'n sylweddol.

# Adran 2

## Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn rhannu Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd (JFC) sydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mhencadlys Heddlu De Cymru (SWP) ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae 4 wylfa, Coch, Gwyn, Glas a Gwyrdd yn gweithio'r system shifftiau amser llawn fel y nodir yn y Cynllun Amodau Gwasanaeth Cenedlaethol, 7 Ebrill 2025 (Llyfr Llwyd). Mae gwylfeydd yn gweithio dwy shifft dydd 10.5 awr (0730 i 1800) ac yna dwy shifft nos 13.5 awr (1800 i 0730) ac yna pedwar diwrnod rota.

Y lefel staffio sylfaenol a gymeradwywyd o fewn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yw 8 i bob shifft gan gynnwys 2 Reolwr Criw/Gwylfa a 6 Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli). Mae'r lefel staffio sylfaenol yr un fath ar gyfer shifftiau dydd a nos. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y lefel staffio sylfaenol dros dro yw 7 oherwydd nifer y swyddi gwag yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd.

Mae gan bob gwylfa lefel staffio sefydledig o 12, sy'n cynnwys Rheolwr Gwylfa A (Ystafell Rheoli), 2 Reolwr Criw (Ystafell Rheoli) a 9 Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli).

Mae cytundeb ar waith i recriwtio 4 Rheolwr Gorsaf A sy'n rolau nad ydynt yn hyblyg. Y bwriad yw y bydd y rolau hyn, ar ôl iddynt gael eu llenwi, wedi'u lleoli yn yr wylfa ac yn gyfrifol am berfformiad gweithredol a sicrwydd.


Mae Pennaeth Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yn Rheolwr Grŵp B (Ystafell Rheoli). Mae Dirprwy Bennaeth Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yn Rheolwr Gorsaf B (Ystafell Rheoli) sy'n gweithio ochr yn ochr â Rheolwr Gorsaf A (Ystafell Rheoli) sy'n gyfrifol am Hyfforddiant a Rheolwr Gorsaf A (Ystafell Rheoli) sy'n gyfrifol am Systemau. Mae'r pedwar Swyddog wedi'u cyflyru i system ddyletswydd hyblyg y Llyfr Llwyd sy'n golygu eu bod yn gweithio oriau swyddfa craidd ond yn darparu gwasanaeth ymateb brys y tu allan i oriau.

Lefel staffio sefydledig Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yw 15, sy'n cynnwys y 4 rôl dyletswydd hyblyg a amlinellir uchod, Rheolwr Gwylfa A (Ystafell Rheoli), 3 Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli), Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) a gweinyddwr Gradd 6 mewn Hyfforddiant a Rheolwr Gwylfa A (Ystafell Rheoli), Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli), 2 Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) a gweinyddwr Gradd 6 mewn Systemau.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y lefel staffio go iawn o ran Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yw 10, gyda rolau 2 Reolwr Criw (Ystafell Rheoli), Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) a gweinyddwr yn wag mewn Hyfforddiant a rolau Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) a gweinyddwyr yn wag mewn Systemau. Ni ellir llenwi'r swyddi gwag nes bod y gwylfeydd yn cyrraedd y cryfder sefydledig.

Mae'r alldyniadau presennol yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn uchel. Mae cyfanswm o 62 o staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd wedi gadael y sefydliad ers 2017, a dim ond 22 ohonynt oedd oherwydd ymddeoliad. Adroddir bod cadw staff yn her sylweddol i Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli. Mae'r rhesymau a roddwyd dros ymddiswyddiadau yn ystod cyfweliadau ymadael yn cynnwys telerau ac amodau, diffyg hyblygrwydd yn y system shifftiau, diffyg buddsoddiad mewn hyfforddiant a datblygiad personol a'r broses Datblygu i fod yn Gymwys sy'n cael ei hegluro'n fanylach isod.

**Ffigur 1: Siart Trefniadaethol yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd**




Cafodd yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd 59,300 o alwadau brys yn 2024/25, ac roedd 14,957 ohonynt yn alwadau yn ailadrodd yr un peth. Derbyniwyd 17,755 o alwadau eraill i ddigwyddiadau nad oeddent yn rhai brys megis galwadau yn ein hysbysu am losgi dan reolaeth. Rhwng mis Hydref 2024 a mis Medi 2025, derbyniodd yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd 91,022 o alwadau gweinyddol, ac ni atebwyd 9,085 ohonynt. Mae nifer y galwadau brys a gweinyddol yn sylweddol uwch yn ystod y dydd na dros nos.

**Tabl 1: Niferoedd y galwadau i'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd**

| Blwyddyn ariannol | MWWWFRS Digwyddiadau | MWWWFRS Argyfwng Arall | MWWWFRS Galwadau'n ailadrodd yr un peth | Cyfanswm Galwadau Brys MWWWFRS | MWWWFRS - Gweinyddol Arall (heb fod mewn argyfwng) | Cyfanswm Terfynol MWWWFRS | SWFRS - Digwyddiadau | SWFRS - Argyfwng Arall | SWFRS - Galwadau'n ailadrodd yr un peth | Cyfanswm Galwadau Brys SWFRS | SWFRS - Gweinyddol Arall (heb fod mewn argyfwng) | Cyfanswm Terfynol SWFRS | Cyfanswm Terfynol ar y Cyd MWWFRS & SWFRS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2012/2013 | 12,746 | 2,948 | 4,180 | **19,874** | 8,448 | 28,322 | 16,842 | 3,952 | 8,057 | **28,851** | 3,402 | 32,253 | 60,575 |
| 2013/2014 | 13,844 | 3,407 | 5,157 | **22,408** | 10,672 | 33,080 | 18,553 | 3,976 | 10,894 | **33,423** | 3,752 | 37,175 | 70,255 |
| 2014/2015 | 12,925 | 2,912 | 3,656 | **19,493** | 10,179 | 29,672 | 17,514 | 4,231 | 7,751 | **29,496** | 4,598 | 34,094 | 6,3766 |
| 2015/2016 | 13,559 | 3,449 | 4,784 | **21,792** | 12,370 | 34,162 | 18,416 | 4,197 | 12,757 | **35,370** | 7,048 | 42,418 | 76,580 |
| 2016/2017 | 14,562 | 3,817 | 4,219 | **22,598** | 11,023 | 33,621 | 17,434 | 5,241 | 8,951 | **31,626** | 8,191 | 39,817 | 73,438 |
| 2017/2018 | 13,919 | 3,640 | 4,992 | **22,551** | 9,758 | 32,309 | 17,338 | 5,534 | 9,553 | **32,425** | 8,230 | 40,655 | 72,964 |
| 2018/2019 | 13,710 | 3,753 | 6,790 | **24,253** | 7,696 | 31,949 | 17,950 | 5,188 | 15,430 | **38,568** | 8,613 | 47,181 | 79,130 |
| 2019/2020 | 13,481 | 4,122 | 6,289 | **23,892** | 8,949 | 32,841 | 16,950 | 5,620 | 10,474 | **33,044** | 9,925 | 42,969 | 75,810 |
| 2020/2021 | 11,006 | 3,505 | 4,934 | **19,445** | 7,986 | 27,431 | 16,767 | 4,820 | 10,472 | **32,059** | 9,493 | 41,552 | 68,983 |
| 2021/2022 | 12,133 | 3,676 | 5,379 | **21,188** | 8,096 | 29,284 | 17,532 | 4,933 | 9,986 | **32,451** | 9,828 | 42,279 | 71,563 |
| 2022/2023 | 13,113 | 3,906 | 5,097 | **22,116** | 7,317 | 29,433 | 18,743 | 5,522 | 10,413 | **34,978** | 10,052 | 44,730 | 74,163 |
| 2023/2024 | 13399 | 4297 | 4573 | **22269** | 7400 | 29669 | 19112 | 5757 | 12044 | **36913** | 10329 | 47242 | 76911 |
| 2024/2025 | 12,758 | 5,592 | 4,916 | **23,266** | 7,472 | 30,738 | 19,411 | 6,582 | 10,041 | **36,034** | 10,283 | 46,317 | 77,055 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **171,155** | **49,024** | **64,966** | **285,145** | **117,366** | **402,511** | **232,562** | **65,553** | **136,823** | **434,938** | **103,744** | **538,682** | **941,193** |

Pan sefydlwyd yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd am y tro cyntaf, roedd Tîm Amddiffyn ac Atal (Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) a oedd yn gweithio oriau swyddfa arferol) yn delio â galwadau gweinyddol ochr yn ochr â rheoli rota, cynnal a chadw cyfarwyddiadau cyffredinol a datblygu ac yn darparu gwasanaeth cadarn gan gynyddu cryfder yr wylfa ar ddyletswydd i 10 yn ystod oriau brig y galw. Yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd yn 2021, cafodd y Tîm Amddiffyn ac Atal ei chwalu a chafodd aelodau'r tîm eu hadleoli ar draws y pedair gwylfa.

## Hyfforddiant cychwynnol i feithrin sgiliau ac i'w cynnal

Mae hyfforddiant cychwynnol ar gyfer Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn cael ei ddarparu gan y Tîm Hyfforddi. Mae hyn yn digwydd rhwng yr ystafell hyfforddi yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd a'r ystafell rheoli wrth gefn pan fydd ar gael at ddefnydd y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'r cwrs cychwynnol yn rhedeg am naill ai 6 neu 7 wythnos yn dibynnu ar gynnydd y rhai sy'n cael eu hyfforddi. Yna, cynhelir 7 wythnos arall o hyfforddiant gyda'r hyfforddeion yn cael eu neilltuo i wylfa, ar ffurf swyddog ychwanegol (nad yw'n cyfrif tuag at y lefel staffio sylfaenol). Cynhelir asesiad cymhwysedd ar ôl tua 14 wythnos ac ar ôl hynny, yn dibynnu ar y cynnydd, bydd yr hyfforddai'n cael ei neilltuo i wylfa. Ar ôl chwe mis ar yr wylfa, mae'r hyfforddai'n dechrau'r hyn a elwir yn broses Datblygu i Fod yn Gymwys (D2C).

Daw'r broses D2C i ben drwy ddyfarnu CGC Lefel 3 mewn Rheoli Galwadau Brys a Gweithredu drwy Sgiliau er Cyfiawnder (SFJ). Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ganolfan achrededig ar gyfer cymwysterau Sgiliau er Cyfiawnder. Fodd bynnag, nid yw'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Rheoli Galwadau Brys a Gweithredu wedi'i gynnwys yn y rhestr o gymwysterau y gall Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru eu dyfarnu. Fodd bynnag, mae'r broses wedi'i hachredu gan Sgiliau er Cyfiawnder.

Mae'r maes llafur Rheoli Galwadau Brys a Gweithredu yn cyd-fynd â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac mae'n cynnwys pum Uned gyda bob un yn cynnwys un neu fwy o Elfennau:

| | |
|---|---|
| Uned CO1<br><br>Elfennau | Cynnal gwybodaeth am adnoddau gweithredol EFS<br>CO1.1 Monitro argaeledd adnoddau gweithredol |
| Uned CO2<br><br>Elfennau | Cymryd cyfrifoldeb am berfformiad effeithiol<br><br>CO2.1 Cymryd cyfrifoldeb am berfformiad personol |
| Uned CO3 | Cydlynu ymateb i helpu i ddelio â digwyddiad |
| Elfennau | CO3.1 Casglu gwybodaeth i helpu i gael ymateb effeithiol<br>CO3.2 Gweithredu adnoddau mewn ymateb i anghenion digwyddiad<br>CO3.3 Cefnogi galwyr brys<br>CO3.4 Cefnogi anghenion parhaus digwyddiad |
| Uned CO5 | Rheoli gwybodaeth i gefnogi anghenion eich cymuned |
| Elfennau | CO5.1 Casglu gwybodaeth ofynnol<br>CO5.2 Rhoi gwybod i eraill a'u cynghori |

Caiff y broses D2C ei ddisgrifio'n fwy manwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Integreiddio

Roedd y materion a godwyd ynghylch integreiddio yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn ymwneud â dau faes penodol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r trefniadau cyflogaeth presennol lle mae 60% o staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn cael eu cyflogi gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a 40% yn cael eu cyflogi gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r rhaniad hwn i adlewyrchu maint cymharol y ddau sefydliad ond mae'n arwain at ddwy set wahanol o delerau ac amodau. Roedd

yr ail yn ymwneud â'r ffaith bod yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd wedi'i leoli yn un o gyfleusterau'r Heddlu. Rwyf yn ystyried y ddau ar wahân isod.

## Statws cyflogaeth, contractau a materion integreiddio mewnol eraill

Roedd y gwahaniaeth mewn telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn ffynhonnell amlwg o densiwn ond, er clod i'r holl staff, ni chefais unrhyw ymdeimlad bod hyn wedi achosi unrhyw ddrwgdeimlad personol. I'r gwrthwyneb, roedd gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd ymdeimlad cryf a chanmoladwy o gyfeillgarwch. Yn hytrach, roedd y tensiwn amlwg wedi'i anelu at y Gwasanaethau Tân ac Achub perthnasol.

Y pwynt tensiwn mwyaf cyffredin oedd y ddarpariaeth o ran absenoldeb mamolaeth. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi'i gynyddu'n ddiweddar i 12 mis, ac felly mae o bellach ddwywaith yr hyn a roddir i weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd y bydd darpariaeth gofal iechyd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn well ar ôl iddi gael ei mabwysiadu. Mae taliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus hefyd yn wahanol, sy'n arwain at amrywiad mewn cyflog cyffredinol. Pryder a fynegwyd gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd oedd pe bai'r telerau a'r amodau'n cael eu cysoni yna byddai hyn i'r safon is yn hytrach na'r safon uwch.

Gwelwyd bod staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn gwisgo gwisg y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n eu cyflogi. Mae gan wisgoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru arfbais y Gwasanaeth ar y crys, ond nid oes gan wisgoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru hyn. Er bod hyn yn symbolaidd i raddau helaeth, ni ddylid diystyru ei arwyddocâd diwylliannol. Dywedwyd wrthyf fod staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn derbyn galwadau ac yn gweithredu ar gyfer y ddau Wasanaeth Tân ac Achub, ond eto maent yn gwisgo gwisgoedd gwahanol ac yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol.

Dywedodd staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd fod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi dechrau yn ddiweddar ar yr arfer o leoli'r Rheolwr Grŵp sydd ar ddyletswydd yn yr Ystafell Rheoli Tân yn ystod yr wythnos. Ystyriwyd bod hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, ond nodwyd ei bod yn aml yn anymarferol i Reolwr Grŵp ymuno â chyfarfodydd Teams arferol neu ddelio â negeseuon e-bost sy'n ymwneud â'u rôl o ddydd i ddydd oherwydd y lefelau sŵn cyffredinol yn yr ystafell ac anawsterau gyda chysylltedd Wi-Fi. Roedd hyn yn golygu y byddai'r Rheolwr Grŵp yn symud i swyddfeydd mewn mannau eraill yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd yn golygu nad oedd gwerth iddynt fod yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Cydnabuwyd bod pellteroedd teithio yn ei gwneud yn anymarferol i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru efelychu'r trefniant hwn ond bod hyn yn cynyddu'r ymdeimlad o unigrwydd i staff Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin

Cymru. Mynegwyd pryder bod presenoldeb y Rheolwr Grŵp ar ddyletswydd yn tanseilio rôl y Swyddog Rheoli Tân Cyfrifol a'r Swyddog Gweithredu. Dychwelaf at y pwynt hwn yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Nodwyd ar sawl achlysur pan ddisodlwyd mewnrwyd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru @Work gan Insight, nid oedd yr Ystafell Rheoli Tân yn cael ei chydnabod ar Insight fel adran ochr yn ochr â Diogelwch Cymunedol, Diogelwch Tân Busnes ac ati. Nodwyd hefyd bod cyfathrebiadau â'r cyfryngau yn aml yn methu â chydnabod cyfraniad yr Ystafell Rheoli Tân at ddelio â digwyddiadau sylweddol nac yn ystod sefyllfaoedd lle mae yna lu o alwadau.

Roedd teimlad ymysg y Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) nad oeddent yn cael eu hystyried ar gyfer cymorth llesiant yn dilyn digwyddiad critigol yn yr un ffordd â'r Diffoddwyr Tân a oedd yn bresennol yn y digwyddiad. Mae'r Ystafell Rheoli Tân yn rhoi tag llesiant i ddigwyddiadau critigol sy'n rhoi gwybod i'r Tîm Rheoli Risg Trawma. Mae hyn yn cynhyrchu negeseuon e-bost at y Diffoddwyr Tân dan sylw yn nodi'r cymorth sydd ar gael iddynt. Dywedodd staff yr Ystafell Rheoli Tân fod rhai digwyddiadau sydd ddim yn cael eu datgan fel rhai critigol gan y Diffoddwyr Tân sydd yno, ond y byddai Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn elwa o'r tag llesiant yn cael ei defnyddio.

Gwnaed y sylw bod adroddiad Fenella Morris CB a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024 wedi arwain at gynnydd yn ymgysylltiad y Gwasanaethau Tân ac Achub perthnasol ond nad oedd wedi lleihau'n sylweddol yr ymdeimlad o arwahanrwydd ar gyfer y ddwy set o weithwyr.

## Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd wedi'i lleoli yn un o gyfleusterau'r Heddlu

Codwyd nifer o faterion cyffredin o ganlyniad i'r ffaith bod yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd wedi'i lleoli yn un o gyfleusterau'r Heddlu.

Roedd y pryder mwyaf cyffredin yn ymwneud â lleoli'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yng Nghanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru. Mae'r Ystafell Rheoli Tân wedi'i leoli yng nghanol ardal dosbarthu yr Heddlu sy'n creu heriau gweithredol.

Nodwyd ar sawl achlysur bod cydweithwyr yn yr Heddlu yn gweiddi dros eu cymheiriaid yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac mae hyn yn tarfu'n fawr, yn enwedig pan fydd Diffoddwyr Tân (Rheolaeth) yn derbyn galwadau brys. Disgrifiwyd y sefyllfa i mi fel a ganlyn:

*"...fel ceisio rhedeg yr Ystafell Rheoli Tân o Weatherspoon's ar ddiwrnod gêm"*

Mae gan hyn y potensial i achosi problemau sylweddol, yn enwedig yn ystod camau deinamig digwyddiad os oes galwadau byw am gyfarwyddyd goroesi tân ar y gweill. I'r gwrthwyneb, pan fydd yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn derbyn galwadau brys, mae larwm clywadwy yn canu sy'n gallu tarfu ar gydweithwyr yn yr Heddlu, yn enwedig pan fo lu o ddigwyddiadau ac mae nifer o alwadau cydamserol dros gyfnodau estynedig o amser.

Nid yw'n ymarferol i'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd gael uchelseinydd i fonitro sianeli radio tonnau awyr y prif gynllun gan y byddai hyn yn tarfu ar gydweithwyr yn yr Heddlu. Mae hyn yn atal staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd rhag cael ymwybyddiaeth sefyllfaol sydd wedi'i rhannu o ddigwyddiadau sy'n datblygu gan mai dim ond y Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) sy'n monitro sianeli radio drwy glustffonau sy'n gallu gwrando ar negeseuon sy'n ymwneud â digwyddiadau.

Mae staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn gallu gweld teledu cylch cyfyng o bob rhan o ardal Heddlu De Cymru, sy'n gallu bod o fudd gweithredol. Fodd bynnag, cefais wybod am achosion lle'r oedd Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) wedi gweld digwyddiadau trallodus iawn a oedd wedi achosi trawma iddynt.

Un o fanteision lleoli'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yw ymwybyddiaeth sefyllfaol sydd wedi'i rhannu. Cefais wybod am adegau pan nad yw'r budd hwn bob amser wedi cael ei wireddu. Yn ystod terfysgoedd Trelái, adroddwyd mai dim ond ar ôl i Reolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) sylwi ar gerbydau ar dân ar y teledu cylch cyfyng tua 2300 a holi cydweithwyr yn yr Heddlu beth oedd yn digwydd, y cawsant eu briffio ynghylch hyd a lled yr aflonyddwch sifil a oedd wedi bod yn mynd ymlaen am sawl awr erbyn hynny. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyswllt yn effeithiol ar gyfer digwyddiadau mwy arferol.

Nid oes gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd fynediad uniongyrchol at fewnrwyd y Gwasanaeth Tân ac Achub, sy'n borth i'r holl raglenni sy'n cael eu cadw'n fewnol. Y rheswm am hyn yw bod gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd gyfeiriadau e-bost Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru drwy drwyddedau Microsoft ond eu bod yn cael eu cynnal ar system TGCh yr Heddlu. Mae'r porth allanol i systemau Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru drwy rwydwaith yr Heddlu sy'n gofyn am nifer o fanylion mewngofnodi. Nodwyd bod hyn yn achosi llawer o rwystredigaeth gan fod staff i bob pwrpas â mynediad o bell at systemau'r Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n cyflwyno mwy o gamau ac sy'n arafach. Un enghraifft gyffredin a godwyd oedd gydag anfon e-byst, dylai hyn fod yn dasg syml ond mae'n cael ei wneud yn llawer mwy cymhleth os oedd y cyfeiriad e-bost ar gyfer derbynnydd a oedd yn rhan o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nad oedd yn bosibl cael mynediad uniongyrchol at Lyfr Cyfeiriadau Byd-eang Outlook ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Nodwyd enghreifftiau tebyg ynghylch methu â chael mynediad at sianeli Teams a arweiniodd at staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd

a gyflogir gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu heithrio o sgyrsiau grŵp Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
Adroddwyd am yr un heriau wrth ddefnyddio system cofnodi cymhwysedd pdrPro a system rheoli dysgu LearnPro.

Nodwyd bod y cyfleusterau a ddyrannwyd i staff yr Ystafell Rheoli Tân yn achos pryder, fel yr oedd mynediad at y trefniadau rheoli cyfleusterau a ddarperir drwy'r Heddlu. Arweiniodd hyn at y farn nad yw namau ystadau a adroddir gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yn flaenoriaeth a'u bod yn dal heb eu datrys am gyfnodau estynedig. Dywedodd y Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli wrthyf fod namau ar y cyfan yn araf yn cael eu trwsio ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu.

Un mater a godwyd sawl gwaith oedd lleoliad yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn union o dan y fentiau aerdymheru. Dywedwyd bod Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn y gaeaf wedi gorfod gwisgo hwdis, cotiau neu'r ddau a lapio eu hunain mewn blancedi gyda photeli dŵr poeth. Nodwyd materion tebyg ynghylch goleuadau a oedd yn effeithio ar Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) wrth edrych ar eu sgriniau arddangos a'u bysellfyrddau. Nodwyd bod cyflwr y toiledau hefyd yn bryder.

Mae ystafell hyfforddi yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd gryn bellter o'r Ystafell Rheoli Tân ac fe'i defnyddir hefyd fel ystafell seibiant gan yr Heddlu ac fel Ystafell Cymorth Gweithredol os oes digwyddiad o bwys. Soniodd staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd am sawl achlysur pan oedd hyfforddiant wedi cael ei ohirio neu ei darfu arno oherwydd nad oedd ganddynt fynediad i'r ystafell.

Yn wahanol i orsaf dân sy'n gweithredu'r system shifftiau amser llawn, nid oes ystafelloedd gorffwys pwrpasol na rhai sydd wedi'u cynllunio at y diben hwnnw ar gyfer staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Mae'r ystafelloedd sydd ar gael i staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd hefyd yn cael eu defnyddio gan gydweithwyr yn yr Heddlu ac maent wrth ymyl ystafelloedd egwyl a chegin. Maen nhw'n cynnwys un gwely soffa/cadair gorwedd ond nid oes modd eu cymharu â'r gwelyau a ddarperir ar gyfer diffoddwyr tân mewn gorsafoedd tân. Rwyf wedi cyfeirio at achosion pryder ynghylch blinder a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol yn adran Cyflwyniad yr adroddiad hwn. Dywedwyd wrthyf y byddai Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn cysgu yn eu ceir yn hytrach na defnyddio'r ystafelloedd a ddarperir ar eu cyfer. Dywedwyd hefyd, ar adegau pan oedd staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd wedi cael eu galw'n ôl yn ystod cyfnod gorffwys a'u bod wedi dychwelyd i'r ystafell orffwys, eu bod wedi canfod bod yr ystafell wedi'i gymryd ac wedi rhoi eu heiddo personol allan ar y coridor.

Mae hyn yn destun pryder difrifol o safbwynt blinder. Mae HSG 256, sy'n gyhoeddiad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn cynghori cyflogwyr i osgoi shifftiau hirach na deuddeg awr. Mae shifft nos yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn dair awr ar ddeg a hanner, sydd ond yn caniatáu egwyl o ddeg awr a hanner rhwng y shifft nos gyntaf a'r ail shifft nos. Rwy'n ymwybodol bod gan rai o staff yr Ystafell Rheoli Tân

ar y Cyd deithiau hir i'r gwaith a fydd hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i orffwys rhwng shifft y noson gyntaf a shifft yr ail noson yn ogystal â'r risg a achosir drwy yrru tra'u bod wedi blino.

Dywedodd nifer o staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd eu bod yn teimlo bod yr hawl i gael cwsg ar shifft nos yn achosi drwgdeimlad gyda'r Heddlu. Mae hwn yn arfer sy'n unigryw i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac mae'n profi'n ddadleuol gyda Gwasanaethau Brys eraill.

Roedd agweddau cadarnhaol ar weithio yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd y cyfeiriwyd atynt, gan gynnwys codi arian i elusennau, arlwyo a digwyddiadau cymdeithasol ar y cyd, yn enwedig gyda'r Timau Hyfforddiant a'r Timau Systemau a chydweithwyr yn yr Heddlu. Nodwyd bod cydweithwyr yn yr Heddlu yn helpu gyda lluniaeth yn ystod cyfnodau pan fo lu o ddigwyddiadau a digwyddiadau mawr ac yn ystod cyfnodau o dywydd poeth pan fydd yr amgylchedd gwaith yn gynnes.

Cefais wybod am wahanol fentrau ar y cyd ar draws timau'r Heddlu a thimau Tân i ddatblygu ymdeimlad o un tîm.

Fodd bynnag, y farn fwyafrifol a fynegwyd gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd oedd bod yr amgylchedd gwaith yn annigonol ac yn niweidiol i forâl ac effeithiolrwydd gweithredol.

Cafwyd dau ddyfyniad sy'n crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas â sut mae staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn teimlo ynghylch eu hintegreiddio o fewn eu Gwasanaeth Tân ac Achub priodol a chyfleuster yr Heddlu.

*"Rydyn ni'n anghysbell, ac nid ydyn ni'n rhan o'r Gwasanaeth Tân ac Achub"*

*"Rwy'n teimlo ein bod ni'n westeion, yn aros yn ystafell fyw yr Heddlu"*

## Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Hyfforddiant

Mae'r hyfforddiant cychwynnol yn cael ei ddarparu gan y Tîm Hyfforddi a oedd, ar adeg yr arolygiad, yn brin o staff ac wedi bod am y rhan fwyaf o'r amser ers sefydlu'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd.

Mae uchafswm nifer yr hyfforddeion ar unrhyw gwrs cychwynnol yn cael ei reoli gan dri ffactor; nifer y gorsafoedd hyfforddi sydd ar gael (mae gan y rhain ffurfweddiad system gweithredu llawn ar wahân i'r gallu i weithredu), y gymhareb uchaf o

hyfforddeion i hyfforddwyr a gallu'r gwylfeydd i dderbyn hyfforddeion newydd a'u hintegreiddio'n effeithiol wrth gefnogi'r broses D2C.

Mae 6 gorsaf hyfforddi yn ystafell hyfforddi yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Mae cyrsiau hyfforddi fel arfer yn cael eu cynnal gyda 4 hyfforddai. Ceisiwyd cynnal y cwrs hyfforddi diweddaraf adeg yr arolygiad gyda 6. Fodd bynnag, roedd hyn yn anymarferol oherwydd ymarferoldeb o gael 6 hyfforddai newydd ar draws y gwylfeydd am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol.

Mae nifer y swyddi gwag yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd a'r gyfradd gadael uchel barhaus yn golygu bod y galw cychwynnol am hyfforddiant yn gyson uchel. Mae hyn wedi cyflwyno heriau i'r Tîm Hyfforddi ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'r heriau hyn yn cael eu gwaethygu gan y gofyniad i ddarparu hyfforddiant cychwynnol a gloywi i staff yr Ystafell Rheoli Tân Ategol. Staff yw'r rhain a ddefnyddir os bydd staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn gweithredu'n ddiwydiannol. Er nad yw eu hyfforddiant i'r un lefel â staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd, mae'n dal i ddefnyddio llawer o adnoddau.

Dywedodd y Tîm Hyfforddi eu bod, wrth baratoi i gyflwyno cwrs, yn wynebu heriau o ran sefydlu Hyfforddeion ar systemau'r Heddlu nad oes ganddynt reolaeth uniongyrchol drostynt. Adroddwyd hefyd am faterion yn ymwneud â'r broses archwilio a oedd yn achos cyffredin o oedi cyn dechrau cyrsiau.

Mae'r Tîm Hyfforddi hefyd yn gyfrifol am becynnau hyfforddiant cynnal sgiliau ar gyfer staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd, gan gynnwys Canllawiau Goroesi Tân. Dywedasant ei bod yn her wirioneddol iddynt ddatblygu a diweddaru pecynnau hyfforddi oherwydd y llwyth gwaith. Yn ymarferol, gall hyn arwain i hen ddeunydd hyfforddi sydd wedi dyddio bod ar gael i'r Ystafell Rheoli Tân ar y llwyfannau mwyaf sylfaenol, fel arfer cynlluniau gweithredu neu gyfarwyddiadau cyffredinol ar ffurf rhestr ar ddogfen Word. Roedd y Tîm Hyfforddi yn cydnabod nad oes deunydd hyfforddi o safon ar gael ar gyfer hyfforddiant ar shifft am y rheswm hwn.

Nid oes amheuaeth ynghylch ymrwymiad na phroffesiynoldeb y Tîm Hyfforddi, ond roeddent yn dweud eu bod yn cael anhawster gwirioneddol i gyflawni eu hamcanion oherwydd eu llwyth gwaith ac roeddent yn gallu cyfeirio at dystiolaeth sylweddol i gefnogi'r farn hon.

Cododd staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd pryderon ynghylch pa mor gyfredol yw deunyddiau hyfforddi, eu hansawdd, a'r ffaith eu bod yn cael eu lledaenu ar draws nifer o lwyfannau. Mae hefyd angen cwblhau hyfforddiant gorfodol ddwywaith i fodloni gofynion y Gwasanaeth Tân ac Achub ee delio â thrais domestig, diogelu a hyfforddiant diwylliannol. Mae cynnal sgiliau gan amlaf yn golygu Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn darllen yn annibynnol y dogfennau Word y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol rhwng delio â galwadau brys a gweinyddol. Mae hyn ymhell o fod yn ddelfrydol mewn unrhyw amgylchiadau gan fod y cynnwys yn amodol ar ddehongliad

y Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) unigol pan nad yw'n cael ei gyflwyno fel rhan o sesiwn dan arweiniad hyfforddwr. Mae'r sefyllfa'n cael ei dwysáu ymhellach pan fydd y cynnwys wedi dyddio.

Y senario hyfforddi gorau fyddai i'r Tîm Hyfforddi neu Reolwr Criw neu Reolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) symud i'r ystafell hyfforddi gyda chynifer o Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) ag y gellir eu tynnu o ddyletswyddau ymateb i ddarparu'r hyn a ddylai fod yn hyfforddiant cyson a safonol yn erbyn cynllun gwers gyda chanlyniadau dysgu penodol wedi'u datblygu gan y Tîm Hyfforddi. Fodd bynnag, byddai'n rhaid ailadrodd hyn nes bod bob aelod o'r wylfa wedi cael yr hyfforddiant oherwydd, fel yr eglurwyd yn flaenorol, pan fyddant ar shifft, ni all gwylfa gyfan symud i'r ystafell hyfforddi.

Dywedwyd bod y broses D2C yn feichus ac yn rhy fiwrocrataidd i hyfforddeion a Rheolwyr Criw a Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) fel ei gilydd. Cefais wybod am sawl achos pan mai'r broses D2C oedd y rheswm dros hyfforddai yn gadael y sefydliad.

Disgrifiodd Rheolwyr Criw a Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) rai enghreifftiau rhagorol o sut yr oeddent yn hyfforddi ac yn mentora hyfforddeion wrth ddelio â galwadau brys, ond gwnaethant fynegi rwystredigaeth ddealladwy ynghylch yr anawsterau wrth groesgyfeirio hyn ag elfennau o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a ddisgrifiwyd ganddynt fel dim mwy nag ymarfer ticio blychau.
Mae'r heriau hyn hefyd yn ymestyn i'r Rheolwyr Criw a'r Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) sydd hefyd yn gorfod cwblhau proses D2C yn llwyddiannus wrth gael dyrchafiad.

Dywedwyd wrthyf fod shifftiau wedi bod pan oedd bob aelod o'r wylfa a oedd ar ddyletswydd yn cymryd rhan mewn datblygiad. Er nad oes modd osgoi hyn, nid yw'n ddelfrydol o bell ffordd.

Cafodd effaith lefelau staffio is ar gynnal hyfforddiant D2C a hyfforddiant cynnal sgiliau ei godi ym mhob cyfarfod o'r wylfa.

Mae ymarferoldeb hyfforddiant tra bod yr wylfa ar ddyletswydd yn her i'r Ystafell Rheoli Tân am y rhesymau a nodir yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn. Gwaethygir yr her hon pan fydd lefelau staffio islaw'r nifer sylfaenol am resymau a fydd yn amlwg. Mae gan Staffio'r Ystafell Rheoli Tân cysylltiad uniongyrchol â'r gallu i ymgymryd â hyfforddiant ar shifft.

Mae cadw staff yn amlwg yn her. Cefais wybod am Ddiffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) a adawodd yr Ystafell Rheoli Tan ar y Cyd gan nad oedd yn gallu lleihau ei oriau. Mae'n sefyll i reswm o safbwynt sefydliadol ei bod yn well cadw gweithiwr am nifer llai o oriau yn hytrach na'u colli'n llwyr, wrth ystyried y buddsoddiad helaeth sydd wedi ei wneud yno.

Cadarnhaodd y Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli y gall staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd amrywio eu horiau, ac mae patrymau shifftiau gwahanol wedi cael eu treialu yn y gorffennol, ond daeth hyn i ben ar ôl adolygiad yn 2021. Mae staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd bellach wedi'u cyfyngu i waith shifft dydd a nos rhan amser (un diwrndo, un noson) yn unig gan na ellir cyflenwi shifftiau nos ar gyfer gweithio dydd yn unig.

Rhwng 0800 a 1900 mae'r galw gweithredol a gweinyddol mwyaf yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Mae gan rai Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU lefelau staffio amrywiol yn yr Ystafell Rheoli Tân sy'n cyd-fynd â'r galw. Os yw staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn dymuno gweithio llai o oriau, yna byddai amserlennu'r oriau hynny yn ystod y dydd yn fuddiol yn sefydliadol yn ogystal ag yn weithredol a gallai fod yn addas i'r unigolyn.

## Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Polisi a sicrwydd

Un maes a oedd yn peri rhwystredigaeth i holl staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd oedd diffyg safoni o ran polisi ar draws y ddau Wasanaeth Tân ac Achub a chydag asiantaethau allanol, yn fwyaf cyffredin wrth ddelio â cheisiadau am gymorth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST).

Cafodd y gwahaniaethau mewn ymatebion i Arwyddion Tân Diangen rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin a De Cymru eu codi'n aml. Un enghraifft a roddwyd oedd yr anawsterau i hyfforddai newydd ddeall y dulliau gweithredu gwahanol sy'n aml yn gwrthdaro a ddefnyddir gan y ddau Wasanaeth Tân ac Achub yn ogystal â phopeth arall yr oedd disgwyl iddo ei ddysgu.

Cyfeiriwyd hefyd at y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub i Gynorthwyo galwadau Ambiwlans. Ar gyfer digwyddiad bariatrig yn Ne Cymru, rhaid i Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) gadarnhau a yw Tîm Ymateb i Faes Peryglus (HART) Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn bresennol, ac os nad ydynt yn bresennol, pam ddim, os ydynt wedi ymrwymo i ddigwyddiad arall, beth yw rhif y digwyddiad ac a yw'r claf yn un sy'n dyngedfennol o ran amser ai peidio. Gwnaeth Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) y pwynt, hyd yn oed gyda'r wybodaeth hon maen nhw'n dal i fethu â gweithredu a rhaid iddynt drosglwyddo'r wybodaeth i'r Rheolwr Grŵp ar Ddyletswydd i gael penderfyniad a fydd yn aml yn amrywio o un Rheolwr Grŵp i'r llall. Mae hyn yn arwain at ddull anghyson gan fod gan wahanol Reolwyr Grŵp safbwyntiau amrywiol ar fynychu digwyddiad.

Thema arall a oedd yn digwydd dro ar ôl tro ar draws y gwylfeydd oedd pan ofynnwyd iddynt sicrhau mynediad er mwyn i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gael at glaf, gan benderfynu pwy oedd yn gyfrifol am wneud y safle'n ddiogel ar ôl hynny. Mae'n ymddangos bod y mater hwn wedi'i waethygu gan newidiadau i bolisi'r

Heddlu. Yn flaenorol, byddai'r Heddlu wedi cael rhan yn y trefniadau ar gyfer diogelwch eiddo ond maent wedi camu'n ôl o'r math hwn o ddigwyddiad o dan y dull 'Gofal Cywir – Person Cywir'.

Mae'r ffaith bod y materion hyn yn cael eu hadrodd fel rhai sy'n digwydd dro ar ôl tro yn adlewyrchu absenoldeb proses sicrwydd gweithredol annibynnol ffurfiol o fewn yr Ystafell Rheoli Tân sy'n darparu mecanwaith i uwchgyfeirio materion i'r lefel briodol yn y Gwasanaeth Tân ac Achub perthnasol lle gall penderfyniad polisi pendant cael ei wneud.

Un enghraifft a roddwyd oedd y duedd sy'n dod i'r amlwg o bobl ifanc yn ffilmio eu hunain ar siglen plentyn er mwyn uwchlwytho'r fideo i'w ffrydiau cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y galwadau i'r Gwasanaethau Tân ac Achub os nad oeddent wedyn yn gallu cael y rhydd neu os mai'r bwriad oedd creu'r argraff honno ar gyfer y cyfle i ffilmio'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eu rhyddhau. Gan ddefnyddio eu menter eu hunain a ddatblygwyd drwy flynyddoedd o brofiad o ddelio â galwadau ffug heriodd Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) y galwyr i ryddhau eu hunain neu gael eu ffrindiau i'w helpu er mwyn atal offer tân rhag cael eu rhoi ar waith yn ddiangen. Dywedwyd bod hyn yn cael ei uwchgyfeirio o fewn y ddau Wasanaeth Tân ac Achub, ond ni wnaed penderfyniad polisi pendant ynghylch y dull i'w fabwysiadu.

Barn a fynegwyd oedd bod "mwy o siarad na dim byd arall" yn cael ei wneud o ran sicrwydd gweithredol, ôl-drafodaethau ac archwiliadau o alwadau brys ac nad ydynt yn ddim mwy nag ymarfer ticio blychau.

*Ydyn, rydyn ni'n eu gwneud nhw; ydyn nhw'n golygu unrhyw beth? Na, dydyn nhw ddim.*

*Mae bron yn amhosibl cynnal ôl-drafodaethau.*

*Mae archwiliadau o alwadau'n ddiystyr – nid oes adborth na dysgu a'r duedd (os oes gennym amser i wneud unrhyw beth) yw dewis a dethol galwadau hawdd; mewn gwirionedd rydym yn marcio ein gwaith cartref ein hunain. Nid yw ôl-drafodaethau'n benodol i'r Ystafell Reoli ac maent yn tueddu i fod yn ymarfer llenwi ffurflenni yn dilyn ôl-drafodaeth Gweithrediadau nad ydym yn aml yn ei mynychu ac nad ydym yn dysgu dim oddi wrtho. O ganlyniad, rydym yn ailadrodd yr un camgymeriadau dro ar ôl tro ar bob lefel, o Ddiffoddwr Tân i Reolwr Gwylfa"*
.
Yn hanesyddol, cynhaliwyd archwiliadau o alwadau gan y Tîm Amddiffyn ac Atal. Mae Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yn cynnal archwiliadau annibynnol o alwadau, pan fo'n bosibl, ond cydnabyddir bod hyn yn ysbeidiol oherwydd llwyth gwaith. Pan gynhelir archwiliadau o alwadau, rhoddir adborth i'r Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) a'r Rheolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) os oes pwyntiau dysgu. Mae Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli hefyd

wedi ystyried cael Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) i archwilio galwadau o wylfeydd eraill ond nid oedd awydd i wneud hyn pan gynigiwyd y syniad.

Nid oes ôl-drafodaethau wedi cael eu cynnal ers o leiaf ddwy flynedd oherwydd lefelau staffio a niferoedd isel o Reolwyr Criw a Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli).

Ystyrir bod gorfod cyfeirio at y Rheolwr Grŵp ar ddyletswydd am benderfyniad i weithredu yn tanseilio rôl y Swyddog Cyfrifol neu'r Swyddog Gweithredu a ddylai gael y grym i wneud penderfyniadau o ran gweithredu.

Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi hysbysebu am ddatganiadau o ddiddordeb gan Swyddogion Tactegol i fod yn Rheolwyr Digwyddiadau'r Heddlu o ran Tân yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Mae'r Rheolwr Grŵp ar Ddyletswydd y Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru bellach yn gweithio o'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn ystod yr wythnos. Y farn a fynegwyd gan sawl Rheolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) oedd bod angen buddsoddiad mewn hyfforddiant arnyn nhw (Rheoli Tân) yn hytrach na gwanhau eu rôl drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau i Swyddogion Tactegol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod methiannau o ran gwneud penderfyniadau yn yr Ystafell Rheoli Tân yn ffactorau yn y digwyddiad yn Arena Manceinion. Y teimlad oedd, oherwydd yr hyn a oedd yn cael ei ystyried i fod yn 'gwanhau' y rôl, ochr yn ochr â diffyg profiad sy'n dod i'r amlwg ar lefel rheolwyr canol a goruchwylio, bod ansawdd y broses o wneud penderfyniadau gweithredol yn yr Ystafell Rheoli Tân yn dirywio gan arwain at effaith niweidiol ar effeithiolrwydd gweithredol yn gyffredinol.

Nodwyd ar sawl achlysur bod cyfarwyddiadau cyffredinol a ffynonellau eraill o wybodaeth weithredol wedi dyddio neu nad oeddent ar gael mewn yn yr Ystafell Rheoli. Esboniwyd i mi, yn ystod symud i Ben-y-bont ar Ogwr, fod cyfarwyddiadau cyffredinol o'r hen Ystafelloedd Rheoli Tân wedi cael eu colli a bu'n rhaid eu hail-greu â llaw o archifau. Dywedwyd bod y Tîm Amddiffyn ac Atal yn gyfrifol am gynnal a datblygu cyfarwyddiadau cyffredinol ond eu bod yn treulio llawer o'u hamser yn delio â phrinder staff ar y gwylfeydd. Erbyn hyn, nid oes Tîm penodol i gynnal y cyfarwyddiadau cyffredinol. O ganlyniad, dywedir bod y cyfarwyddiadau cyffredinol yn cynnwys gwallau, gwrthddywediadau, anghysondebau a chyfeiriadau at bolisïau, dogfennau, offer a chyfarpar nad ydynt yn bodoli mwyach.

Pryder a fynegwyd i mi oedd bod Gwybodaeth sy'n Benodol am Safle (SSI) a fflagiau eraill sy'n gysylltiedig ag eiddo neu leoliadau wedi dyddio ac yn annilys gan nad oes digon o staff yn y Tîm Systemau ac nad yw'n gallu cadw i fyny â'r llwyth gwaith sy'n deillio o ddiweddariadau parhaus wrth ddelio ar yr un pryd â heriau sy'n deillio o fod ar system TGCh yr Heddlu.

Mae Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yn wynebu heriau o ran cael gafael ar hyd yn oed y data mwyaf sylfaenol am nifer y galwadau. Nid yw'n ddelfrydol o bell ffordd bod y Tîm

Rheoli'r Ystafell Rheoli yn dibynnu ar drydydd parti i gael gafael ar ddata galwadau ac mae'n gwneud rheoli perfformiad yn llawer anoddach iddynt nag y dylai fod.

## Crynodeb o'r materion a godwyd a'r canfyddiadau

Ffocws yr arolygiad oedd canfod i ba raddau yr oedd staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn teimlo eu bod wedi'u hintegreiddio o fewn eu Gwasanaethau Tân ac Achub perthnasol, ac ystyried i ba raddau yr oedd y drefn hyfforddiant a sicrwydd gweithredol yn cyfrannu at effeithiolrwydd gweithredol yr Ystafell Rheoli Tân.

Canfyddiad cryf staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yw nad ydynt yn teimlo eu bod wedi'u hintegreiddio yn eu Gwasanaeth Tân ac Achub perthnasol. Mae sawl rheswm dros y datgysylltiad hwn y gallwn ei sefydlu'n bendant ar sail yr hyn a ddywedwyd wrthyf yn ystod ymweliadau â'r gwylfeydd.

Yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd mae dau grŵp gwahanol o weithwyr, a gyflogir gan ddau Wasanaeth Tân ac Achub ar wahân, yn gwisgo gwisgoedd gwahanol, yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol, ond yn cyflawni'r un swyddogaethau yn bennaf, ond nid yn union, yn dibynnu o ba ardal Gwasanaethau Tân ac Achub y mae'r alwad yn deillio. Nid yw'n syndod bod hyn yn achosi tensiwn er, i ailddatgan, er clod i holl staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd, ni welais unrhyw dystiolaeth o gwbl i awgrymu bod hyn yn amlygu ei hun drwy ddrwgdeimlad rhwng staff. I'r gwrthwyneb, roedd yr ymdeimlad cryf o gyfeillgarwch yn glodwiw.

Efallai fod y materion hyn wedi cael eu lleddfu pan luniwyd yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd pe bai endid cyflogwr annibynnol wedi cael ei greu nad oedd yn rhan o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru nac yn rhan o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac a oedd yn cysoni telerau ac amodau ar gyfer ei weithwyr. Mae trefniant o'r fath yn bodoli yn Ystafell Rheoli Tân y Gogledd Orllewin[4]. Fel arall, gallai un Gwasanaeth Tân ac Achub neu'r llall fod wedi ymgymryd â rôl Awdurdod Arweiniol i gyflogi holl staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd i gyflawni'r swyddogaeth Rheoli Tân ar ran y ddau Wasanaeth Tân ac Achub.

Byddai'r ddau opsiwn, ochr yn ochr ag ystyried a ddylid dychwelyd at bob Gwasanaeth Tân ac Achub cael ei Ystafell Rheoli Tân ei hun yn y Gwasanaeth, yn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd.

Mae lleoliad yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yng Nghanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru yn amlwg yn achosi tensiwn, ac efallai'n fwy felly na'r diffyg cysoni ar delerau ac amodau.

---

[4] Hafan - Ystafell Rheoli Tân y Gogledd Orllewin

Gwelais yr heriau penodol i leoliad a wynebir gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd, sydd wedi'u dogfennu'n dda yn yr adroddiad hwn, yn uniongyrchol yn ystod yr ymweliadau â'r wylfa yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Efallai y gellir mynd i'r afael â'r rhain o fewn pa bynnag opsiynau o ran llety sydd ar gael i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus neu ar safle Pencadlys Heddlu De Cymru ond os nad ydynt, mae angen i'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub ystyried o ddifrif pa mor addas yw'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnal yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Rhan fawr o'r rheswm fy mod yn dweud hyn yw am fod yna tystiolaeth i awgrymu ei fod yn cael effaith niweidiol ar gadw staff sy'n cael nifer o sgil-effeithiau negyddol drwy'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd.

Fodd bynnag, efallai nad yw tynnu'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd o'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ynddo'i hun yn ateb i bob problem, yn enwedig os oedd mewn lleoliad nad oedd wedi'i ddylunio gydag anghenion penodol yr Ystafell Rheoli Tân mewn golwg. Wedi dweud hynny, credaf y byddai'n cyfrannu rhywfaint at fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Os yw'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ystyried adleoli'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd, yna mae angen ymgynghori'n fanwl â staff yr Ystafell Rheoli Tân i sicrhau bod unrhyw leoliad newydd yn bodloni eu hanghenion gan ystyried amgylchiadau unigryw'r rôl.

Mae blinder sy'n deillio o'r shifft nos hir yn destun pryder. Mae'r cyfleusterau yn yr Ystafell Rheoli Tân yn amlwg yn annigonol ac nid ydynt yn galluogi gorffwys ystyrlon.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cyfnodau o orffwys yn ystod shifft nos yn arfer sy'n unigryw i'r Gwasanaeth Tân ac Achub a dim ond yn angenrheidiol, er na ellir eu gwarantu, oherwydd hyd y shifft nos. Nid oes asesiad risg addas a digonol ar waith i fynd i'r afael â'r risg o flinder gormodol gan nad oes mesur rheoli ymarferol y gellir ei ddefnyddio'n rhesymol i liniaru yn ei erbyn. Yr unig fesur rheoli ymarferol, er un sy'n adweithiol, fyddai rhoi gorffwys cydadferol ar yr ail shifft nos i unrhyw staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd y cafodd eu cyfnod gorffwys ei darfu arno yn ystod y shifft nos gyntaf. O ystyried yr heriau staffio sy'n wynebu'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd, byddai caniatáu i staff ddechrau eu hail shifft nos yn hwyrach na'r amser newid shifft a drefnwyd yn lleihau lefelau staffio ymhellach ar adeg brysuraf y dydd ac felly mae'n anymarferol.

Mae cysoni hyd y shifft dydd a nos yn cynyddu'r seibiant rhwng shifftiau nos ac yn dileu'r angen am gyfnod o orffwys. Gellir ei gyflawni o fewn paramedrau'r system shifftiau fel y nodir yn y Llyfr Llwyd. Byddai hefyd yn rhyddhau mwy o amser ar gyfer hyfforddiant shifft ar shifft nos yn ystod cyfnodau lle mae'r galw gweithredol ar ei isaf ac yn gwneud cyfnewid dyletswyddau rhwng shifftiau dydd a nos yn fwy ymarferol.

Mae lefelau staffio yn amlwg yn fater sylweddol sydd â goblygiadau pellgyrhaeddol, yn enwedig o ran gallu staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd i ymgymryd â hyfforddiant

cynnal sgiliau ystyrlon ac i'r Timau Hyfforddiant a Systemau gyflawni eu hamcanion. Mae'r holl faterion hyn yn achosi heriau sylweddol i Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli o ran cynnal effeithiolrwydd gweithredol yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd ac yn cadw cylch o negyddiaeth i fynd.

Rwy'n cydnabod yr heriau y mae Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yn eu hwynebu wrth recriwtio, hyfforddi a chadw staff. Mae staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn adnodd cyfyngedig sy'n llawer llai o ran nifer na'u cymheiriaid sy'n Ddiffoddwyr Tân. Mae staff Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli, hyd at ac yn cynnwys y Pennaeth Rheoli Tân, yn delio â diffygion staffio fel mater o drefn. Mae hyn yn ganmoladwy ac yn cael ei barchu'n briodol gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Fodd bynnag, mae'n amharu ar eu rolau craidd a'u gallu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd drwy gydol yr adroddiad hwn.

Felly, mae angen buddsoddi ymdrech sefydliadol sylweddol i lenwi'r holl rolau gwag yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd reit gyflym, gan edrych ar yr holl opsiynau posibl.

Dylid ystyried amrywio lefelau staffio ar shifftiau dydd a nos er mwyn cynyddu'r niferoedd ar shifftiau dydd. Mae'r rhesymau'n ddeublyg, yn gyntaf, i gyd-fynd â'r galw brig ac yn ail i hwyluso rhaglen strwythuredig i ddatblygu a chynnal sgiliau sy'n cyfrif am yr heriau unigryw y mae'r Ystafell Rheoli Tân yn eu hwynebu wrth ddarparu hyfforddiant a gweithgareddau datblygu eraill ar shifft.

Efallai fod angen staff ychwanegol at y diben hwn ac os felly, byddwn yn ystyried hynny'n fuddsoddiad dilys. Byddai angen pennu unrhyw niferoedd staff ychwanegol drwy archwiliad manwl o weithgarwch a oedd y tu hwnt i gwmpas yr arolygiad hwn ond y gwelais ddigon o dystiolaeth ohono i awgrymu bod cyfiawnhad dros hynny.

Byddai staffio'r Timau Hyfforddiant a Systemau i lefelau sefydledig hefyd yn creu'r gallu i fynd i'r afael â'r diffygion presennol mewn deunyddiau hyfforddi a chyfarwyddiadau cyffredinol a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac yn galluogi darparu'r cyrsiau hyfforddi cychwynnol y bydd angen bod yn gefn wrth gefn nes bod pob swydd wag yn cael ei llenwi.

Byddai penodi Rheolwr Gorsaf A (Ystafell Rheoli) sydd wedi'i leoli yn yr wylfa yn helpu Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli i wella'r diffygion mewn prosesau sicrwydd gweithredol y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, gyda swyddi gwag presennol o ran Rheolwyr Criw a Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli), cydnabyddir y bydd yn cymryd amser i symud staff cymwys yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd sydd â chymwysterau addas ymlaen i swydd lle gallant wneud cais am y swyddi hyn a chael eu penodi iddynt.

Yn y cyfamser, dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried hyfforddi'r Rheolwr Grŵp ar ddyletswydd y Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sy'n cael eu hanfon yn rheolaidd i'r Ystafell Rheoli Tân yn ystod yr wythnos i ymgymryd ag elfennau sicrwydd

gweithredol y rôl (gan gydnabod y bydd hyn yn creu baich ychwanegol i'r Tîm Hyfforddi).

I grynhoi, nid oes gennyf reswm i amau nad yw'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn cyflawni ei swyddogaethau craidd yn effeithiol. Nid oes gennyf reswm ychwaith i amau proffesiynoldeb a chymhwysedd y staff. I'r gwrthwyneb, roedd agwedd ac ymrwymiad holl staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd y cwrddais â nhw yn rhagorol. Mae gennyf bryderon y gallai safle presennol yr Ystafell Rheoli Tân yn ardal ddosbarthu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus lesteirio ei heffeithiolrwydd, yn enwedig yn ystod camau deinamig digwyddiad pan allai gweithgarwch sy'n digwydd o'u cwmpas dynnu sylw'r Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli).

Rwyf o'r farn nad yw potensial llawn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd i gyfrannu at berfformiad gweithredol gwell yn cael ei wireddu. Mae'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn effeithiol er gwaethaf yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Byddai mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn yn cyfrannu'n helaeth at alluogi'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd wireddu ei photensial yn llawn.

## Argymhellion

Mae diffyg cysoni telerau ac amodau o fewn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn achos amlwg o densiwn a dylai'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub roi sylw i hyn fel blaenoriaeth.

**Argymhelliad 1: Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar fecanwaith ar gyfer cysoni telerau ac amodau staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd.**

Codwyd pryderon sylweddol ac amlwg hirsefydlog gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd ynghylch cael eu lleoli yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylai'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub roi sylw i'r pryderon hyn fel mater o flaenoriaeth.

**Argymhelliad 2: Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i ganfod a oes opsiynau o ran llety ar gael yng Nghanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus De Cymru neu ar safle'r pencadlys i fynd i'r afael â'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn. Os nad oes opsiynau ymarferol o ran llety, dylai'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub nodi lleoliad(au) eraill ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân ac ymgysylltu â staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd i sicrhau bod unrhyw leoliad(au) newydd yn bodloni eu hanghenion unigol a gweithredol.**

Mae hyd shifftiau nos yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yn fwy na'r hyn a nodir yng nghanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac nid ydynt yn galluogi digon o orffwys rhwng shifftiau nos. Mae gallu staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd i gael gorffwys ystyrlon wedi'i gyfyngu gan y ddarpariaeth bresennol o ran llety a'r tebygolrwydd o gael eu galw'n ôl yn ystod y cyfnod gorffwys. Nid oes asesiad risg addas a digonol ar waith i fynd i'r afael â'r risg o flinder gormodol gan nad oes mesur rheoli ymarferol y gellir ei ddefnyddio'n rhesymol i liniaru yn ei erbyn. Mae cyfnodau gorffwys estynedig yn effeithio ar faint o amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant ar shifft.

**Argymhelliad 3: Dylai Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru sicrhau nad yw shifftiau'n para mwy na 12 awr.**

Nid oes digon o staff gan yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd ac mae hyn ag oblygiadau pellgyrhaeddol sydd wedi'u nodi'n fanwl yn yr adroddiad hwn ac sy'n sicr yn cael effaith niweidiol ar effeithiolrwydd gweithredol. Dylai'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub roi sylw i hyn fel blaenoriaeth.

**Argymhelliad 4: Dylai Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru gymryd yr holl gamau angenrheidiol i recriwtio hyd at nifer sefydledig yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd.**

Mae nifer y galwadau yn uwch yn ystod y dydd na dros nos. Mae'r Tîm Hyfforddi wedi'u cyflyru i system dyletswydd dydd ac felly maent ar gael i ddarparu hyfforddiant strwythuredig i ategu hyfforddiant cynnal sgiliau unigol yn ystod shifftiau dydd. Mae lefelau staffio amrywiol gyda mwy o Ddiffoddwyr Tân (Rheolaeth) ar ddyletswydd yn ystod y dydd ar waith mewn Ystafelloedd Rheoli Tân ledled y DU. Efallai y bydd modd cynyddu nifer y staff ar shifftiau dydd drwy leihau'r nifer sylfaenol o staff ar shifftiau nos, ond efallai y bydd angen rolau ychwanegol y tu hwnt i'r sefydliad presennol. Byddai angen sefydlu hyn drwy ddadansoddiad manwl o'r galw a'r anghenion o ran hyfforddi a datblygu. Yn y naill achos neu'r llall, gellid cyflawni hyn drwy fabwysiadu opsiynau staffio mwy hyblyg gan gynnwys contractau llai o oriau a chontractau dyddiau yn unig.

**Argymhelliad 5: Dylai Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru gynnal dadansoddiad manwl o'r galw gweithredol ac anghenion hyfforddi a datblygu staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd gyda'r bwriad o gynyddu lefelau staffio ar shifftiau dydd er mwyn darparu mwy o gapasiti gweithredol i ateb y galw a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hyfforddi a datblygu o ansawdd.**

# Adran 3

## Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru

Ers 2008, mae Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gyfathrebu ar y Cyd Gogledd Cymru, sy'n gyfleuster a rennir â Heddlu Gogledd Cymru sydd ar bwys Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy.

Mae 4 wylfa, Coch, Gwyn, Glas a Gwyrdd yn gweithio'r system shifftiau amser llawn fel y nodir yn y Cynllun Amodau Gwasanaeth Cenedlaethol, 7 Ebrill 2025 (Llyfr Llwyd). Mae gwylfeydd yn gweithio dwy shifft dydd 10 awr (0800 i 1800) ac yna dwy shifft nos 14 awr (1800 i 0800) ac yna pedwar diwrnod rota.

Y lefel staffio sylfaenol a gymeradwywyd o fewn yr Ystafell Rheoli Tân yw 4 i bob shifft gan gynnwys Rheolwr Gwylfa a 3 Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli). Mae'r lefel staffio sylfaenol yr un fath ar gyfer shifftiau dydd a nos.

Mae gan bob gwylfa lefel staffio sefydledig o 5.5 rôl gyfwerth â llawn amser, sy'n cynnwys Rheolwr Gwylfa B (Ystafell Rheoli), a Rheolwr Gwylfa A (Ystafell Rheoli) a 3.5 Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) (cyfwerth ag amser llawn). Mae'r 0.5 Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) cyfwerth ag amser llawn yn cael ei gyflawni drwy 4 Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) sy'n gweithio contract 21 awr o un shifft dydd ac un shifft nos.


Yn ogystal â'r pedair gwylfa ceir tîm hyblyg sy'n cynnwys 2 swydd gyfwerth ag amser llawn sy'n cynnwys cymysgedd o staff llawn amser a rhan amser, gan ddod â chyfanswm y staff Rheoli i 24 (swyddi llawn amser). Mae'r gweithwyr oriau hyblyg wedi'u cyflyru i batrwm shifft 12 awr sy'n gyfuniad o shifftiau cynnar (0800 - 2000) a hwyr (1100 - 2300) i gyflenwi ar yr adegau pan fo'r galw mwyaf yn ogystal â chyflenwi yn ystod egwyliau bwyd a sesiynau hyfforddi. Defnyddir y tîm hyblyg i ôl-lenwi prinder staff yn yr wylfa oherwydd salwch, mamolaeth, adleoli dros dro ac ati i sicrhau bod y pump a hanner cyfwerth ag amser llawn ar draws y gwylfeydd yn cael eu cynnal.

Ategir hyn gan drefniant dros dro lle mae 4 Diffoddwr Tân amser llawn (Ystafell Rheoli) wedi cael eu recriwtio i gyflenwi ar adegau o salwch tymor hir, absenoldeb mamolaeth, adleoli dros dro a dyrchafiad dros dro. Mae unrhyw staff nad ydynt yn cael eu defnyddio at y diben hwn yn cael eu defnyddio i ymestyn y tîm hyblyg i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant oddi ar yr wylfa. Mae hyn er mwyn delio ag alldyniadau sydd y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'u cynnwys yn y model staffio craidd ac wrth ragweld ymddeoliadau.

Mae Pennaeth Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yn Rheolwr Grŵp B (Ystafell Rheoli). Mae 4 Rheolwr Gorsaf B (Ystafell Rheoli) ar gyfer Gweithrediadau, Hyfforddiant, Systemau

ac Argaeledd yn y drefn honno (mae Rheolwr Gorsaf gweithredol yn llenwi'r swydd Argaeledd dros dro). Mae'r 5 Swyddog wedi'u cyflyru i system ddyletswydd hyblyg y Llyfr Llwyd sy'n golygu eu bod yn gweithio oriau swyddfa craidd ond yn darparu gwasanaeth ymateb brys y tu allan i oriau.  Mae Swyddog Technegol/Prosiectau Ystafell Rheoli Tân (Llyfr Gwyrdd) yn gweithio ochr yn ochr â Swyddogion y Llyfr Llwyd.

**Ffigur 2: Siart Trefniadaeth Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**




Cafodd Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 6,479 o alwadau brys yn 2024/25 a 3,091 o alwadau yn ailadrodd yr un peth. Yn ystod yr un cyfnod, derbyniodd Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 49,439 o alwadau gweinyddol. Mae nifer y galwadau brys a gweinyddol yn sylweddol uwch yn ystod y dydd na dros nos.

**Tabl 2: Niferoedd y galwadau i'r Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

| Blwyddyn ariannol | Digwyddiadau a fynychwyd | Galwadau'n ailadrodd yr un peth |
|---|---|---|
| 2012/13 | 6,792 | 3,125 |
| 2013/14 | 6,364 | 3,445 |
| 2014/15 | 6,098 | 2,981 |
| 2015/16 | 4,879 | 2,587 |
| 2016/17 | 5,344 | 2,415 |
| 2017/18 | 5,726 | 2,486 |
| 2018/19 | 5,305 | 3,991 |
| 2019/20 | 4,866 | 2,629 |
| 2020/21 | 4,697 | 2,043 |
| 2021/22 | 5,356 | 2,660 |

| | | |
|---|---|---|
| 2022/23 | 5,884 | 3,067 |
| 2023/24 | 5,940 | 2,492 |
| 2024/25 | 6,479 | 3,091 |

## Hyfforddiant cychwynnol i feithrin sgiliau ac i'w cynnal

Mae'r hyfforddiant cychwynnol ar gyfer Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei ddarparu gan y Rheolwr Hyfforddi gyda chefnogaeth aelodau eraill o Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli a, drwy adleoli dros dro oddi wrth wylfeydd, gan Reolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) a Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) fel cyfle datblygu. Mae elfen ystafell ddosbarth yr hyfforddiant yn digwydd yn bennaf yn yr Ystafell Rheoli Tân wrth gefn yn y Rhyl. Bydd y cwrs cychwynnol yn para am 8 wythnos. Yna, cynhelir 8 wythnos arall o hyfforddiant gyda'r hyfforddeion yn cael eu neilltuo i wylfa, ar ffurf swyddog ychwanegol (nad yw'n cyfrif tuag at y lefel staffio sylfaenol).

Mae asesiad cymhwysedd i'w gyfrif ar y lefel criwio sylfaenol yn cael ei gynnal ar ôl 16 wythnos gan y Rheolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) ac ar ôl hynny mae'r hyfforddai'n cael ei ddyrannu'n barhaol i'r wylfa. Mae Cam 1 y broses D2C yn cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod prawf o 12 mis ac mae'n cynnwys cwblhau un llyfr gwaith sy'n cynnwys 4 Uned. Dros y 12 i 18 mis canlynol, disgwylir i'r hyfforddai gwblhau'r broses D2C gan arwain at ddyfarnu Diploma Rheoli Galwadau Brys a Gweithredu gan Sgiliau er Cyfiawnder. Mae maes llafur y Diploma Rheoli Galwadau Brys a Gweithredu yn cyd-fynd â'r Safon Alwedigaethol Genedlaethol a restrwyd yn flaenorol yn adran yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yr adroddiad hwn.

## Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Integreiddio

Roedd y materion a godwyd ynghylch integreiddio yn Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ymwneud â dau faes penodol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'i leoliad yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru. Roedd yr ail yn ymwneud â chanfyddiadau staff ynghylch pa mor dda yr oedd Ystafelloedd Rheoli Tân wedi'u hintegreiddio yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Ystafell Rheoli Tân wedi'i lleoli yn un o gyfleusterau'r Heddlu

Ar y cyfan, roedd staff yr Ystafell Rheoli Tân yn gadarnhaol am leoliad eu gweithle yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd.

Mae'r Ystafell Rheoli Tân wedi'i lleoli yng nghornel y man dosbarthu wrth ymyl desg Rheolwr Digwyddiadau'r Heddlu. Mae hyn yn galluogi rhywfaint o wahanu ac yn osgoi'r lefelau o darfu a nodwyd yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Nid yw'r podiau Rheoli Tân wedi'u ffurfweddu mewn hanner cylch ar hyn o bryd sy'n gallu helpu ymwybyddiaeth sefyllfaol gan fod Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn gallu cynnal cyswllt gweledol, ond ni nodwyd bod hyn yn broblem. Yn dilyn materion a godwyd mewn sesiynau adrodd yn ôl ar ddigwyddiadau ac adborth staff, mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r ail pod i gynyddu ymwybyddiaeth o'r sefyllfa yn ystod camau deinamig digwyddiadau.

Mae'r Ystafell Rheoli Tân ar y llawr gwaelod tra bo'r ystafell hyfforddi, y cyfleusterau gorffwys a swyddfeydd Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli ar y llawr cyntaf. Ni nodwyd bod hyn hefyd yn achosi problemau mawr, er y cydnabuwyd nad oedd lleoliad yr ystafell hyfforddi yn ddelfrydol oherwydd ei phellter oddi wrth yr Ystafell Rheoli Tân.

Mae'r ystafelloedd gorffwys wedi'u lleoli i ffwrdd o ardaloedd lle byddai mwy o ymwelwyr a gweithgarwch dros nos fel arfer ac o ganlyniad nid oedd yna gymaint o adroddiadau o staff yr Heddlu yn tarfu ar Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) ar eu hegwyl gorffwys ag yr oedd ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd. Wedi dweud hynny, nid yw'r darpariaethau gorffwys yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn cyrraedd yr un safon â'r hyn sydd ar gael i ddiffoddwyr tân mewn gorsafoedd tân. Mae'r pryderon a godwyd yn adran yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yr adroddiad hwn ynghylch blinder a risg yr un fath ar gyfer Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Dywedodd staff yr Ystafell Rheoli Tân fod ganddynt berthynas waith dda gyda'u cydweithwyr yn yr Heddlu. Mae shifftiau'r Gwasanaeth Tân a'r Heddlu yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn cyd-fynd, felly fel arfer bydd yr un rheolwyr goruchwylio yn gweithio gyda'i gilydd ac felly'n datblygu perthnasoedd proffesiynol agos. Un enghraifft o sut roedd staff yr Heddlu'n 'edrych ar ôl' eu cydweithwyr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub oedd gyda'r hyn a ddisgrifiwyd fel brecwast bore Sul pan fyddai'r Heddlu'n cymryd, yn casglu ac yn danfon archebion ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân gan fod staffio bob amser yn golygu na allent adael y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd. Mae'r cyfeillgarwch hwn yn cryfhau cydweithio yn yr amgylchedd gweithredol.

Yn weithredol, cefais wybod am ddigwyddiad yn Llandudno a arweiniodd at dderbyn nifer o alwadau. Dywedodd un o'r galwyr fod bom petrol wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn yr eiddo. Trosglwyddodd y Rheolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) ar ddyletswydd yr wybodaeth hon ar unwaith i Reolwr Digwyddiad yr Heddlu ar lafar a anfonodd adnoddau'r Heddlu a oedd yn gallu arestio'r troseddwyr yn y fan a'r lle. Pe na bai'r Rheolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) a Rheolwr Digwyddiadau'r Heddlu wedi cael eu cydleoli'n gorfforol, mae'n annhebygol y gallai'r wybodaeth hon fod wedi cael ei throsglwyddo'n ddigon cyflym i alluogi'r arestio.

## Integreiddio o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cafodd ymdrechion Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli a'r Prif Swyddog Tân i integreiddio'r Ystafell Rheoli Tân i'r Gwasanaeth eu cydnabod gan staff yr Ystafell Rheoli Tân. Roedd ymdeimlad cryf bod gwelliant pendant wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf hyd yn oed os oedd pobl yn credu bod gwaith i'w wneud o hyd.

Barn a fynegwyd yn ystod yr holl ymweliadau â'r gwylfeydd oedd mai'r rhwystr mwyaf sylweddol i fwy o integreiddio oedd lefelau staffio a oedd yn llesteirio'r gallu i ymgymryd â dyletswyddau ar wahân.

Disgrifiodd staff yr Ystafell Rheoli Tân y budd roeddent yn ei gael o ymweld â gorsafoedd tân i gael mewnbwn ar alluoedd ymateb neu i fynychu digwyddiadau neu ymarferion. Cwyn a glywyd yn aml oedd pa mor anaml y rhoddwyd y cyfle hwn i staff yr Ystafell Rheoli Tân oherwydd bod â'r nifer sylfaenol o staff.

Wrth ystyried hyn, mae Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli yn ceisio dod ag adnoddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub i'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd i roi cyflwyniadau neu fewnbwn ar alluoedd arbenigol i'r Ystafell Rheoli Tân ac i gydweithwyr yn yr Heddlu. Pan fydd lefelau staff yn caniatáu hynny, mae Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli wedi mynd ati i roi cyfle i staff yr Ystafell Rheoli Tân ymweld â gorsafoedd. Yr enghreifftiau a roddwyd oedd cyfleoedd i Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) fynd, ar y ffordd i shifft nos, i noson ymarfer gorsaf System ar Ddyletswydd yn ôl y Galw neu i fynd gydag aelodau Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli i nosweithiau ymarfer lle mai'r Swyddog Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli oedd Swyddog Cymorth yr Orsaf ar gyfer yr orsaf honno. Dywedodd Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli mai ychydig iawn o bobl a fanteisiodd ar y cyfleoedd hyn.

Soniwyd hefyd ar sawl achlysur am y diffyg cyfle i fynychu a gallu cyfrannu at ôl-drafodaethau. Cadarnhaodd Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli, os bydd lefelau staffio yn caniatáu, eu bod bob amser yn cynnig cyfle i aelod o'r wylfa fynychu sesiynau adborth.

Un mater a godwyd ar sawl achlysur oedd diffyg cerbyd pwrpasol ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân a oedd yn golygu pe bai digon o staff ar shifft i ganiatáu neilltuo, byddai'n rhaid i'r Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) ddefnyddio ei gerbyd ei hun i yrru i'r orsaf dân, lleoliad y digwyddiad neu'r ymarfer yn dibynnu ar bwrpas yr adleoli dros dro neu'n gorfod gofyn i Swyddog Tactegol neu aelod o Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli fynd â nhw.

Cefais gadarnhad gan Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli nad oes gan yr Ystafell Rheoli Tân gerbyd pwrpasol mwyach ond bod cerbyd yn y Pencadlys sydd wrth ymyl y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd a ddylai fod ar gael ar shifftiau nos neu ar benwythnosau. Yn ystod shifft dydd, y dewis arall yn lle Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) defnyddio ei gerbyd ei hun fyddai cael ei gludo i leoliad yr adleoli dros dro ac oddi yno gan aelod o

Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli neu Swyddog Tactegol, fel arfer byddai nifer ohonynt yn y Pencadlys. Gallaf weld y rhesymeg dros hyn, ond gallaf hefyd weld pam mae hyn yn cael ei ystyried yn broblem i staff yr Ystafell Rheoli Tân. Efallai y byddai'n werth iddynt ddyrannu cerbyd pwrpasol i'r Ystafell Rheoli Tân hyd yn oed os dim ond at y dibenion o adael yr adeilad heb rybudd a symud i'r Ystafell Reoli eilaidd, gan dderbyn y gallai'r defnydd o'r cerbyd fod yn gymharol isel.

Nid oes gan yr Ystafell Rheoli Tân gyfrifoldeb i staffio'r Ystafell Rheoli Digwyddiadau. Cydnabuwyd bod lefelau staffio yn atal hyn rhag digwydd ar y cyfan, ond teimlwyd yn gryf y gallai Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) ychwanegu gwerth gweithredol sylweddol pe baent yn gallu cyflawni'r rôl hon. Cydnabuwyd hyn gan Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli a allai weld y gwerth yn llwyr ac a fyddai'n cefnogi hyn pe bai lefelau staffio'n caniatáu.

Gwnaed sylw bod yr Ystafell Rheoli Digwyddiadau wedi gweld dyddiau gwell a'i bod angen adfywiad. Tynnwyd sylw at y ffaith, pe bai gan yr Ystafell Rheoli Digwyddiadau ryngrwyd Starlink fel sydd gan yr Uned Ymateb i Ddeunyddiau Peryglus, y byddai'n darparu sianel gyfathrebu gadarn ychwanegol i'r Ystafell Rheoli Tân ar gyfer fideo-gynadledda a chyfarfodydd Teams, ynghyd â throsglwyddo gwybodaeth sy'n hanfodol o ran risg ar unwaith. Ar ben hynny, pe bai gan yr Uned Rheoli Digwyddiadau fyrddau clyfar a allai gasglu gwybodaeth megis galwadau byw am gyfarwyddyd goroesi tân, byddai hyn yn helpu Pennaeth y Sector Gwagio'r Safle a fyddai fel arall yn derbyn neu'n trosglwyddo gwybodaeth am y bobl sydd wedi eu dal neu'n aros yn eu lle ar lafar dros y radio. Cynrychiolir Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli ar weithgor Sector Gwagio'r Adeilad lle mae'r materion hyn yn cael eu hystyried yn weithredol.

Mynegodd staff yr Ystafell Rheoli Tân gysylltiad cryf iawn â'r swyddogaeth Ymateb. Clywais yr ymadrodd *"rydyn ni'n rhan o Ymateb"* sawl gwaith. Mae'r awydd i gyfrannu at wella'r Gwasanaeth i'w ganmol ond mynegwyd ymdeimlad o rwystredigaeth nad oedd barn yr Ystafell Rheoli Tân bob amser yn cael ei cheisio na'i hystyried yn llawn.

Roedd yr enghreifftiau a ddyfynnwyd fel a ganlyn:

*"Ni ofynnwyd am fewnbwn gan yr Ystafell Rheoli Tân hyd yma wrth ddylunio'r Ganolfan Hyfforddi newydd".*

Ystyriwyd bod hwn yn "*gyfle a gollwyd*"

"*Nid yw awgrymiadau a wneir gan yr Ystafell Rheoli Tân yn cael eu defnyddio na'u hystyried*"

Un enghraifft a roddwyd oedd gwneud i fyny am ddarnau ychwanegol o bibell. Gyda storle ar bremiwm, mae nifer y pibellau wedi cael eu lleihau. O ganlyniad, mae Penaethiaid y Digwyddiadau yn gwneud i fyny am bibellau ychwanegol. Mae argaeledd offer yn her barhaus felly mae gwneud i fyny ychwanegol yn rhoi straen ar

adnoddau sy'n cael ei deimlo fwyaf yn yr Ystafell Rheoli Tân gan mai nhw sy'n gorfod cynnal darpariaeth ymateb brys drwy symudiadau cyflenwi strategol. Enghraifft arall oedd y nifer cynyddol o achlysuron y mae angen cit tân newydd oherwydd halogiad mewn tanau strwythurol sy'n golygu nad yw offer ar gael a bod yr Ystafell Rheoli Tân yn gorfod gofyn i Swyddogion Tactegol fynd i'r storfeydd offer brys.

Un awgrym gan yr Ystafell Rheoli Tân oedd:

*"...i'r Gwasanaeth gyflwyno cerbydau pwrpas cyffredinol, sy'n cynnwys darnau o bibelli, efallai offer tân o feintiau ar hap ac ati, gan leddfu'r pwysau ar y gwasanaeth mewn unrhyw ddigwyddiadau mawr/a allai godi. Gallai hefyd gadw gorsaf yn ôl y galw sydd fel arall yn dawel yn awyddus ac yn rhan o'r broses gan y gallent gyflenwi criw i'r cerbydau hynny.*

Mae gan yr awgrym hwn lawer o rinweddau a byddai'n sicr o fod yn effeithiol o ran cynnal argaeledd offer drwy ddefnyddio'r adnodd mwyaf priodol i ddarparu gallu penodol i'r digwyddiad ei hun. Gallai cerbyd pwrpas cyffredinol gael ei griwio gan griw System Ddyletswydd yn ôl y Galw (RDS) neu gallai gael ei griwio gan Ddiffoddwyr Tân ar 'ddyletswyddau eraill' a oedd yn dymuno aros ar y system shifftiau.

Mae'r Rheolwr Hyfforddi ar weithgor y Ganolfan Hyfforddi, fodd bynnag, cydnabu Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli mai ychydig iawn o wybodaeth ddiweddar sydd wedi bod yng nghyfarfodydd chwarterol y Rheolwr Gwylfa. Mewn ymateb, ymrwymodd Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli i ddarparu diweddariadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Yn dilyn digwyddiad diweddar mewn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub arall (gwaith maes ar ôl yr arolygiad), cyflwynodd staff yr Ystafell Rheoli Tân nifer o arsylwadau ac argymhellion i Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli. Mewn ymateb, trefnodd y Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli gyfarfod gyda swyddogion perthnasol yn y Gwasanaeth a chytunwyd ar newidiadau i gyfarwyddiadau cyffredinol a chawsant eu rhoi ar waith. Mae hyn yn arfer da ac yn tynnu sylw at y cyfraniad gwerthfawr y gall yr Ystafell Rheoli Tân ei wneud i ymateb gweithredol.

Mae'r Gwasanaeth wedi nodi'n briodol bod llai o gyfarpar System Ddyletswydd Wrth Gefn ar gael a'r effaith ar ddarpariaeth frys yn her sylweddol. Rhaid i'r Ystafell Rheoli Tân, gyda'u trosolwg cyffredinol o argaeledd, reoli effeithiau argaeledd is yn ddeinamig fesul shifft. Felly, mae'r Ystafell Rheoli Tân mewn sefyllfa dda i wneud cynigion ar sail gwybodaeth, ac mae'n siŵr y gall gyfrannu'n gadarnhaol at wella perfformiad ymateb pan fydd yn cymryd rhan lawn yn y broses sicrwydd gweithredol. Dychwelaf at y pwynt hwn yn yr adran Crynodeb islaw.

## Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli'r Ystafell Rheoli – Hyfforddiant

Mae uchafswm nifer yr hyfforddeion ar gyrsiau cychwynnol yn cael ei reoli gan nifer y gorsafoedd hyfforddi sydd ar gael yn yr ystafell rheoli wrth gefn yn y Rhyl (4) a gallu'r gwylfeydd i gefnogi anghenion hyfforddi cychwynnol yr hyfforddai.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud ymdrech ar y cyd i gynyddu nifer y staff yn yr Ystafell Rheoli Tân drwy reoli swyddi gwag yn rhagweithiol a thrwy recriwtio 4 Diffoddwr Tân dros dro, felly mae'r galw cychwynnol am hyfforddiant wedi bod yn uchel.

Yn ogystal â hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant cynnal sgiliau, mae'r Rheolwr Hyfforddi hefyd yn darparu hyfforddiant Canllawiau Goroesi Tân sy'n cael ei gynnal oddi ar shifft.

Cynhelir y rhan fwyaf o hyfforddiant cynnal sgiliau ar shifft. Mae gan Reolwr Gwylfa A ar bob gwylfa y cyfeiriad o ran hyfforddi felly yn yr achos gorau byddan nhw ac un neu fwy o'r Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn symud i'r Ystafell Hyfforddi ynghyd â'r Rheolwr Hyfforddi i ymgymryd â hyfforddiant cynnal a chadw sgiliau ar shifft. Fodd bynnag, nodwyd nad yw ymgymryd â hyfforddiant fel hyn yn bosibl yn aml oherwydd staffio neu fod y galw gweithredol yn tarfu arno. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant cynnal sgiliau yn cael ei wneud gan Ddiffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) yn unigol rhwng dyletswyddau gweithredol ac yn bennaf yn golygu darllen Dynodiadau Daearyddol. Mae hyn ymhell o fod yn ddelfrydol am y rhesymau a nodir yn adran Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yr adroddiad hwn.

Cydnabu'r Rheolwr Hyfforddi mai ychydig iawn o becynnau hyfforddi penodol ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân oedd ar gael ar y System Rheoli Dysgu (LearnPro). Mae hyn hefyd yn wir i raddau am becynnau cynnal sgiliau Diffoddwyr Tân ac mae'n rhywbeth y mae'r Gwasanaeth wrthi'n rhoi sylw iddo.

Fel gyda'r Ystafell Rheoli Tan ar y Cyd, dywedwyd bod y broses D2C yn feichus ac yn rhy fiwrocrataidd i hyfforddeion a Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) fel ei gilydd.

Mater arall a godwyd oedd absenoldeb rôl Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli). Mynegwyd y farn ei fod yn "*naid fawr* (o fod yn Ddiffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) i Reolwr Gwylfa A (Ystafell Rheoli)), *o ystyried y gallai ddigwydd mewn cyn lleied â 3 blynedd*". Ystyriwyd bod rôl Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli) yn rhoi cyfle i Ddiffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) symud yn fwy graddol i swydd rheoli goruchwyliol mewn ffordd ddilyniannol a threfnus.

Disgrifiwyd rôl Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli) hefyd fel "*swydd arwain wych a allai ddarparu gwydnwch ychwanegol i wylfeydd*".

Mae’r rhain yn bwyntiau dilys i’w codi. Safbwynt y Gwasanaeth yw eu bod wedi symud yn ddiofyn at y rôl uwch gyda Rheolwr Gwylfa A (Ystafell Rheoli) a Rheolwr Gwylfa B (Ystafell Rheoli), sy’n wahanol i’r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd lle mae bob gwylfa â Rheolwr Gwylfa A (Rheoli) a 2 Reolwr Criw (Rheoli). Mae hon yn sefyllfa yr un mor ddilys i’w mabwysiadu.

Pe bai’r Gwasanaeth yn ailgyflwyno rôl Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli) yn ogystal â’r rolau Rheolwr Gwylfa A a B (Ystafell Rheoli) presennol, byddai cost ychwanegol, er ei fod yn gost ymylol. Gyda lefel staffio sylfaenol o 4 byddai adegau hefyd pan fyddai’r wylfa ar ddyletswydd yn cynnwys Rheolwr Gwylfa B (Ystafell Rheoli), Rheolwr Gwylfa A (Ystafell Rheoli), Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli) a dim ond un Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli), sy’n golygu cydbwysedd gwael o ran statws. Fel y mae ar hyn o bryd, os mai dim ond un Rheolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) sydd ar ddyletswydd, bydd Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) yn gweithredu fel Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli) ar gyfer y shifft lawn ac mae yna gost am hyn, felly gallai fod yn syniad da i’r Gwasanaeth ystyried ailgyflwyno rôl Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli) o safbwynt hyfforddi a datblygu. Fodd bynnag, rhoddwyd cynnig ar hyn o’r blaen ond ychydig iawn o lwyddiant a gafwyd. Mae Tîm Rheoli’r Ystafell Rheoli wedi gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan y Diffoddwyr Tân (Ystafell Rheoli) i gymryd rhan mewn llwybr datblygu Rheolwyr Gwylfa gyda diwrnodau hyfforddi pwrpasol a strwythuredig. Mae gwerth i hyn hefyd ac mae’n bosibl iawn y bydd yn mynd i’r afael â’r pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymweliadau â’r gwylfeydd.

## Materion a amlygwyd yn ystod cyfarfodydd gyda gwylfeydd a Thimau Rheoli’r Ystafell Rheoli – Polisi a sicrwydd

Mynegodd staff yr Ystafell Rheoli Tân ar draws y gwylfeydd rwystredigaethau ynghylch delio â cheisiadau am gymorth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn aml at ddibenion cael mynediad. Yn y trafodaethau a ddilynodd, cydnabuwyd bod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ymgysylltu â 3 Gwasanaeth Tân ac Achub ledled Cymru, pob un â dulliau polisi gwahanol ar gyfer mathau penodol o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, y pryder a godwyd oedd diffyg canfyddedig o ganllawiau polisi safonol ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân a’r teimlad bod Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) yn cael eu gadael i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Nid oedd hyn yn gyfyngedig i alwadau gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Dywedwyd bod Rheolwyr Gwylfa (Ystafell Rheoli) yn aml yn rheoli galwadau’n ddeinamig, ac ar unrhyw achlysur defnyddir disgresiwn gweithredol, fe’i cofnodir fel diweddariad o benderfyniad ar y log digwyddiadau. Fodd bynnag, y farn oedd nad yw hyn yn cael ei weithredu fel mater o drefn nac yn arwain at unrhyw newid i bolisi sy’n

golygu y gall yr un sefyllfa godi eto ond y gallai Rheolwr Gwylfa (Ystafell Rheoli) arall ddelio â'r sefyllfa'n wahanol.

Bu ymdrech ar y cyd i integreiddio'r Ystafell Rheoli Tân ym mhrosesau sicrwydd gweithredol y Gwasanaeth, ac rwyf wedi sylwi ar hyn o'r blaen yn fy arolygiad blaenorol diweddaraf o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2025.

Mae'r Rheolwr Gorsaf (Ystafell Rheoli) o ran Hyfforddiant yn mynd i'r cyfarfod Sicrwydd Gweithredol misol sy'n cael ei gadeirio gan Ymateb Rheolwr Grŵp, sy'n gyfle i godi materion penodol sy'n ymwneud â'r Ystafell Rheoli Tân ac olrhain camau gweithredu sy'n benodol i'r Ystafell Rheoli Tan sy'n cael eu codi drwy ôl-drafodaethau ac adolygiadau ar ôl digwyddiadau ar lefel sefydliadol.

Mae hwn yn gam cadarnhaol ac er y byddwn yn ystyried bod y broses ar y cam 'datblygu' yn hytrach na'r cam 'wedi mewnblannu', mae'r bwriad yn cynrychioli arfer da.

Mewn trafodaethau gyda Thîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân, cydnabuwyd bod arferion gwaith newydd wedi'u datblygu drwy brofion ond nad ydynt wedi cael eu ffurfioli mewn polisi hyd yn hyn. Mae angen ffurfioli'r rhain mewn polisi nawr a'u hymgorffori drwy hyfforddiant.

Cadarnhaodd Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân y cynhelir adolygiad o'r 24 awr flaenorol am 1000 yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn arfer da ac yn caniatáu ar gyfer nodi materion o bwys mewn amser cyflym. Yr hyn sydd ei angen hefyd yw'r mecanwaith i gymryd camau mewn ymateb i faterion a nodwyd mewn amser cyflym. Ni ddylai fod angen i Dîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân aros am y cyfarfod Sicrwydd Gweithredol misol i uwchgyfeirio materion sy'n ymwneud â newid polisi neu i sefydlu sefyllfa polisi bendant fel sy'n ymddangos yn ofynnol, er enghraifft gydag ymatebion i gynorthwyo Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.  Gall Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân newid cyfarwyddiadau cyffredinol a chynlluniau gweithredu yn ddeinamig. Yn ymarferol, gwneir hyn ar y cyd ag Ymateb Rheolwr Grŵp, fel arfer drwy law'r Grŵp Dysgu Sefydliadol. Dylid diwygio'r polisi Sicrwydd Gweithredol i gyfeirio'n benodol at y broses hon i sicrhau bod yr arfer da hwn yn cael ei ffurfioli, ei wreiddio a'i ddiogelu at y dyfodol.

Mae adegau wedi bod, am resymau sefydliadol, nad yw'r materion a godwyd gan yr Ystafell Rheoli Tân wedi cael eu datblygu neu dim ond wedi cael sylw rhannol. Byddai'n werth cynnwys elfen adborth yn y broses er mwyn gallu rhannu diweddariadau ar y sefyllfa o ran cynnydd, ynghyd â'r rhesymeg yn ôl i'r Ystafell Rheoli Tân.

Rhwystredigaeth a fynegwyd yn ystod cyfarfodydd gwylfeydd oedd y gofyniad i roi gwybod i nifer o Swyddogion Tactegol am yr un neges neu drosglwyddo'r un

wybodaeth am ddigwyddiadau. Cadarnhaodd staff yr ystafell Rheoli Tân wrthyf eu bod yn cofnodi'r holl wybodaeth bwysig yn ymwneud â'r digwyddiad ar y log digwyddiadau. Rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun ansawdd a dyfnder yr wybodaeth a gofnodwyd gan yr Ystafell Rheoli Tân pan adolygais gofnodion digwyddiadau ar gyfer arolygiad Ionawr 2025 gan ystyried effeithiolrwydd yr ymateb i danau mewn anheddau domestig.

Barn yr Ystafell Rheoli Tân oedd, ar ôl yr hysbysiad cyntaf, y dylai Swyddogion Tactegol fonitro grŵp trafod y digwyddiad ac adolygu'r log digwyddiadau ar Cadview (porth mynediad o bell system Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) er mwyn osgoi dyblygu gwaith a rhoi baich diangen ar staff yr Ystafell Rheoli Tân sy'n trosglwyddo'r wybodaeth hon.

Pe bai hyn yn cael ei fabwysiadu fel polisi, byddai'n lleihau'r galw ar yr Ystafell Rheoli Tân yn enwedig yn ystod cyfnod mewn digwyddiad sy'n aml yn ddeinamig ac yn gofyn am lawer o adnoddau.

## Crynodeb o'r materion a godwyd a'r canfyddiadau

Ffocws yr arolygiad oedd canfod i ba raddau yr oedd staff yr Ystafell Rheoli Tân yn teimlo eu bod wedi'u hintegreiddio o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac ystyried i ba raddau yr oedd y drefn hyfforddiant a sicrwydd gweithredol yn cyfrannu at effeithiolrwydd gweithredol yr Ystafell Rheoli Tân.

Ar sail y sylwadau a wnaed i mi yn ystod y cyfarfodydd gwylfeydd, rwy'n credu bod staff yr Ystafell Rheoli Tân yn teimlo eu bod wedi'u hintegreiddio o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn cydnabod ymdrechion Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân a'r Prif Swyddog Tân yn hyn o beth, ond eu bod yn teimlo bod mwy o waith i'w wneud.

Ni chafodd y pryderon a godwyd gan staff yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd ynghylch cael eu lleoli yn un o gyfleusterau'r Heddlu eu hailadrodd yn Ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru.

Mae blinder sy'n deillio o'r shifft nos hir yn destun pryder. Nid yw'r cyfleusterau gorffwys yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn cyrraedd yr un safon â'r hyn sydd ar gael mewn gorsafoedd tân.  Mae'r sylwadau a wnes yng nghrynodeb yr adran Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd yr adroddiad hwn yr un mor berthnasol i ystafell Rheoli Tân Gogledd Cymru o ran rheoli blinder a risg.

Mae lefelau staffio yn broblem er bod recriwtio 4 aelod o staff dros dro i ddod â'r lefel staffio ar draws y 4 gwylfa i 28 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn wedi cael effaith gadarnhaol. Rwyf yn gryf o'r farn y dylai'r rolau hyn fod yn sefydledig ac rwyf yn gwneud argymhelliad i'r perwyl hwnnw. Credaf fod achos hefyd dros gynnal

dadansoddiad manwl i weld a ddylid cynyddu nifer cyffredinol y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn yr Ystafell Rheoli Tân ymhellach er mwyn mynd ati i gynyddu'r niferoedd ar shifftiau dydd. Mae'r rhesymau'n ddeublyg, yn gyntaf, i gyd-fynd â'r galw brig ac yn ail i hwyluso rhaglen strwythuredig i ddatblygu a chynnal sgiliau sy'n cyfrif am yr heriau unigryw y mae'r Ystafell Rheoli Tân yn eu hwynebu wrth ddarparu hyfforddiant a gweithgareddau datblygu eraill ar shifft. Rwy'n cydnabod mai dyma un o'r ffactorau sy'n sbarduno recriwtio'r 2 cyfwerth ag amser llawn i'r wylfa hyblyg, ond o'r hyn roeddwn i'n ei ddeall maen nhw'n aml yn camu i mewn ar gyfer alldyniadau sydd heb eu cynllunio er mwyn cynnal y lefelau staffio sylfaenol yn hytrach na chynyddu'r lefelau staffio sylfaenol. Byddai ychwanegu 2 cyfwerth ag amser llawn arall (er enghraifft) i'r wylfa hyblyg yn sicr yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau staffio shifft dydd.

Byddai'n werth i'r Gwasanaeth ystyried ailgyflwyno rôl Rheolwr Criw (Ystafell Rheoli). Nid wyf yn gwneud argymhelliad sylweddol i'r perwyl hwnnw, ond rwyf o'r farn ei bod yn werth ei ystyried er mwyn hwyluso cynllunio olyniaeth a hwyluso'r broses o symud o fod yn Ddiffoddwr Tân (Rheolaeth) i fod yn Rheolwr Gwylfa (Rheoli). Fodd bynnag, mae gan lwybr dilyniant y Rheolwr Gwylfa botensial gwirioneddol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yr un mor effeithiol felly mae'n werth buddsoddi mewn amser ac ymdrech.

Mae'n amlwg bod Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân wedi buddsoddi amser ac ymdrech i wella'r broses sicrwydd gweithredol ar gyfer yr Ystafell Rheoli Tân, ond mae rhai bylchau polisi yn dal i fodoli. Dylai Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân weithio gydag Ymateb Rheolwr Grŵp i ganfod bylchau mewn polisi drwy droi at y broses sicrwydd gweithredol a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl. Dylai'r broses hon gael ei chynnwys yn ffurfiol yn y polisi Sicrwydd Gweithredol i sicrhau ei bod wedi'i gwreiddio a'i diogelu at y dyfodol.

Dylai staff yr Ystafell Rheoli Tân fod â hyder yn y dulliau y gallant eu defnyddio i wneud awgrymiadau ar gyfer gwella. Mae'n amlwg bod Tîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân wedi ymrwymo i fwrw ymlaen ag awgrymiadau, ond nid yw gweithredu bob amser o fewn eu rheolaeth. Ni ddylai hyn fod yn rhwystr i ymgysylltiad gan yr Ystafell Rheoli Tân, ond dylid ystyried rheoli disgwyliadau drwy roi diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa o ran cynnydd.

I grynhoi, fel gyda'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd, nid oes gennyf unrhyw reswm i amau bod Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau craidd yn effeithiol. Nid oes gennyf reswm ychwaith i amau proffesiynoldeb a chymhwysedd y staff. I'r gwrthwyneb, roedd agwedd ac ymrwymiad holl staff Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru y cwrddais â nhw yn rhagorol.

Dylai'r Gwasanaeth barhau i ymgysylltu'n llawn â staff yr Ystafell Rheoli Tân i fanteisio ar eu profiad a'u brwdfrydedd sylweddol i wella perfformiad y sefydliad a chaniatáu i'r Ystafell Reoli Tân gyflawni ei llawn botensial.

## Argymhellion

Mae hyd shifftiau nos y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn fwy na'r hyn a nodir yng nghanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac nid ydynt yn galluogi digon o orffwys rhwng shifftiau nos. Mae gallu staff Ystafell Rheoli Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i gael gorffwys ystyrlon wedi'i gyfyngu gan y ddarpariaeth bresennol o ran llety a'r tebygolrwydd o gael eu galw'n ôl yn ystod y cyfnod gorffwys. Nid oes asesiad risg addas a digonol ar waith i fynd i'r afael â'r risg o flinder gormodol gan nad oes mesur rheoli rhagweithiol ymarfero y gellir ei ddefnyddio'n rhesymol. Mae cyfnodau gorffwys estynedig yn effeithio ar faint o amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant ar shifft.

**Argymhelliad 1: Dylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sicrhau nad yw shifftiau'n para mwy na 12 awr.**

Mae recriwtio 4 swydd Diffoddwr Tân (Ystafell Rheoli) ychwanegol wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau staffio. Dylai'r rolau hyn fod yn rhai parhaol.

**Argymhelliad 2: Dylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gynyddu sefydliad gwylfa'r Ystafell Rheoli Tân i 28 cyfwerth ag amser llawn**

Mae nifer y galwadau yn uwch yn ystod y dydd na dros nos. Mae'r Rheolwr Hyfforddi wedi'u cyflyru i system dyletswydd dydd ac felly mae ar gael i ddarparu hyfforddiant strwythuredig i ategu hyfforddiant cynnal sgiliau unigol yn ystod shifftiau dydd. Er mwyn sicrhau bod rôl y Rheolwr Hyfforddi mor effeithiol â phosibl, dylid defnyddio'r tîm hyblyg ar shifftiau dydd. Mae lefelau staffio amrywiol gyda mwy o Ddiffoddwyr Tân (Rheolaeth) ar ddyletswydd yn ystod y dydd ar waith mewn Ystafelloedd Rheoli Tân ledled y DU. Efallai y bydd modd cynyddu nifer y staff ar shifftiau dydd drwy leihau'r nifer sylfaenol o staff ar shifftiau nos, ond efallai y bydd angen rolau ychwanegol y tu hwnt i'r sefydliad presennol a'r hyn a argymhellwyd yn yr argymhelliad blaenorol. Byddai angen sefydlu hyn drwy ddadansoddiad manwl o'r galw a'r anghenion o ran hyfforddi a datblygu. Yn y naill achos neu'r llall, gellid cyflawni hyn drwy gynyddu nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn y tîm hyblyg.

**Argymhelliad 3: Dylai Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal dadansoddiad manwl o'r galw gweithredol ac anghenion hyfforddi a datblygu staff yr Ystafell Rheoli Tân gyda'r bwriad o gynyddu lefelau staffio ar shifftiau dydd er mwyn darparu mwy o gapasiti gweithredol i ateb y galw a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hyfforddi a datblygu o ansawdd.**

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn nodi'n swyddogol fy niolch i'r bobl ganlynol:

Matt Jones, Rheolwr Ardal ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Geraint Thomas, Rheolwr Ardal ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am eu cefnogaeth drwy gydol y broses arolygu.

Natalie Pearce, Rheolwr Grŵp (Ystafell Rheoli), a Thîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd am drefnu a chynnal gwaith maes yr arolygiad yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd.

Ros Thomas, Rheolwr Grŵp (Ystafell Rheoli), a Thîm Rheoli'r Ystafell Rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am drefnu a chynnal gwaith maes yr arolygiad yn ystafell rheoli eilaidd y Rhyl a chyfarfodydd dilynol yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd.

Robert Scott QFSM, Prif Arolygydd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban, am yr adolygiad gan gymheiriaid o'r adroddiad.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2025 - Rhagfyr 2025** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i aelodau'r Panel Gweithredol (y Panel) ar berfformiad yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2025 - 31 Rhagfyr 2025 (chwarter 1 - 3 o flwyddyn ariannol 2025/2026). Mae'r mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CGRhRC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac maent yn cynnwys sylwebaeth ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu ar gyfer y dyfodol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 O'u cymharu â'r un cyfnod yn 2024/25, mae nifer y digwyddiadau tân wedi cynyddu i **1,686** (**1,253** yn 2024/25). Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd cyffredinol o **34.6%**, mae'r cynnydd ar gyfer tanau eilaidd yn **72.3%.** Mae'r cynnydd mewn tanau eilaidd yn adlewyrchu'r tywydd sych a gafwyd, gyda thanau yn yr awyr agored yn bennaf gyfrifol am y cynnydd.

3 Mae tanau damweiniol mewn anheddau wedi cynyddu 6.5% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, gyda **246** o ddigwyddiadau wedi'u mynychu.

4 Mae presenoldeb mewn galwadau gwasanaeth arbennig wedi gostwng ers y llynedd, ond mae nifer y gwrthdrawiadau ar y ffordd wedi codi **29.2%.**

5 Mae gwaith yn parhau i gefnogi ein cymunedau gyda chyfanswm o 14,935 o archwiliadau diogel ac iach wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod. Er bod hyn yn ostyngiad cyffredinol o **0.8%** o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25, mae'r pwyslais yn parhau i fod ar ymweliadau blaenoriaeth ganolig ac uchel. Yn ogystal, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn parhau i fod wedi ymrwymo i addysgu drwy ymweliad ag ysgolion, cynnal cyrsiau Ffenics ac ymyriadau unigol i ymdrin â chynnau tanau.

## ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad.**

## CEFNDIR

7 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod weithio i leihau risg a mynd i'r afael â diogelwch ei gymunedau ac i wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn amlinellu'r egwyddorion y mae'r Awdurdod yn mesur ei berfformiad yn eu herbyn. Gan ganolbwyntio ar bum egwyddor allweddol, adroddir ar y perfformiad bob chwarter, gyda phwyslais ar risgiau allweddol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

## GWYBODAETH

8 Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cwmpasu’r cyfnod 1 Ebrill 2025 – 31 Medi 2025. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar dri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon, a gwneir cymariaethau â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2024/25).

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Yn dangos perfformiad yr Awdurdod yn erbyn yr amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CGRhRC) 2025-26. |
| Cyllideb | Yn caniatáu i weithgareddau a risgiau allweddol gael eu hystyried fel rhan o'r broses pennu cyllideb. |
| Cyfreithiol | Yn cynorthwyo’r Awdurdod, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos y modd y mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| Staffio | Mae’r adrodd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 25/26 ac yn cynnwys diweddariad ar faterion staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau wedi'u nodi. |
| Risgiau | Yn dangos sut mae'r Awdurdod yn rheoli ei ddarpariaeth yng nghyd-destun risgiau cymunedol. |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro: Ebrill 2025 – Medi 2025

Our five principles for keeping communities safe

PEOPLE PREVENTION PROTECTION RESPONSE ENVIRONMENT

## Cynnwys

**Ein Hegwyddor Pobl ........................................................................................ 2**
1 Absenoldeb Salwch ........................................................................................ 2
1.1 Pob Absenoldeb Salwch ................................................................................ 2
1.2 Salwch Tymor Byr ......................................................................................... 3
1.3 Salwch Hirdymor ........................................................................................... 5
**Ein Hegwyddor Atal ........................................................................................ 7**
2 Pob Digwyddiad ............................................................................................... 7
3 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ..................................................................... 8
4 Prif Achosion Tanau Damweiniol Mewn Cartrefi ............................................... 10
5 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol Mewn Cartrefi ... 13
6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ............................... 14
7 Galwadau Gwasanaeth Arbennig .................................................................... 18
Diogelwch ar y Ffordd ....................................................................................... 20
Gweithgaredd Diogelwch Dŵr Ch3 .................................................................... 21
8 Archwiliadau Diogel ac Iach ............................................................................ 22
**Ein Hegwyddor Diogelu ................................................................................. 26**
9 Galwadau Diangen .......................................................................................... 26
10 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol .......................................... 28
11 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai ............................................... 29
12 CEF Berwyn ................................................................................................... 31
**Ein Hegwyddor Ymateb .................................................................................. 33**
13 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad .................................. 33
14 Argaeledd 18 Pwmp a Gynlluniwyd ............................................................... 34
16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg ................................................................... 35
**Ein Hegwyddor Amgylchedd .......................................................................... 36**
15 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau .............................................................. 36
16 Tanau gwyllt .................................................................................................. 37
17 Llifogydd ........................................................................................................ 38
**Geirfa ............................................................................................................... 39**

# Ein Hegwyddor Pobl

## 1 Absenoldeb Salwch


Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i fod yn bresennol yn y gwaith i'r graddau uchaf posibl, ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Mae cyfanswm yr amser a gollwyd i GTAGC o ganlyniad i bob absenoldeb salwch wedi cynyddu o 4.60% yn ystod Chwarter 2 i 5.16% yn ystod Chwarter 3, er bod hyn yn parhau i fod yn is o ran dyddiau a gollwyd ac achosion nag yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd 971 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC ar 31/12/2025, sy'n gynnydd o 31 o bobl o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma (BHY) yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau mewn data gweithwyr.

### 1.1 Pob Absenoldeb Salwch





Cynyddodd nifer y diwrnodau a gollwyd ac achosion o absenoldeb yn chwarter 3 2025/26 o'i gymharu â chwarter 2 ond arhosodd yn is na chwarter 3 y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd niferoedd staff hefyd, gan nodi gwelliant parhaus mewn lefelau absenoldeb salwch cyffredinol.

Annwyd a ffliw gynhyrchodd y nifer uchaf o achosion o absenoldeb ond roedd hyn yn cyfrif am ddim ond 4.82% o gyfanswm yr absenoldebau salwch. Roedd absenoldebau am resymau'n ymwneud â phroblemau cyhyrysgerbydol yn cyfrif am 29.9% o'r holl absenoldebau yn chwarter 3, i lawr ychydig o 30.4% yn chwarter 2 ac ar yr un lefel yn fras a'r canran yn Adroddiad Absenoldeb Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ar gyfer Ebrill 2024 i Fawrth 2025, a nododd gyfartaledd o 29%. Roedd absenoldeb am resymau'n ymwneud ag iechyd meddwl yn cyfrif am 26.4%, gostyngiad o 3% ers chwarter 2, er yn dal yn uwch na'r 19% a gofnodwyd yn ystod 2024/25.


Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

## 1.2 Salwch Tymor Byr

Ar gyfartaledd, dros flwyddyn lawn 2024/25, roedd absenoldeb tymor byr yn cyfrif am 1.12% o'r holl amser a gollwyd.
Roedd Salwch Tymor Byr yn ystod 3ydd chwarter y flwyddyn gyfredol yn cyfateb i 1.09% o'r amser a gollwyd, sydd yn uwch (1.0%) na'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod chwarter 3 y flwyddyn flaenorol.




(*Amser cyflawn - yn cynnwys yr holl staff gweithredol amser cyflawn, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion mewn gorsafoedd gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg) (Mae'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth wedi'i rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm wedi'u cynnwys yn y ffigurau amser cyflawn, a Phenaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys yn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol.)




Cynyddodd achosion o salwch tymor byr a diwrnodau a gollwyd yn chwarter 3 o'i gymharu â chwarter 2 ar draws systemau dyletswydd amser cyflawn a rheoli fel ei gilydd. Roedd staff amser cyflawn yn cyfrif am 38% o'r diwrnodau a gollwyd yn chwarter 3, i fyny o 20% yn chwarter 2, gydag absenoldeb cyfartalog yn cynyddu o 6.4 i 7.5 diwrnod calendr fesul gweithiwr.

Roedd staff ar alwad, sy'n ffurfio 51.3% o'r gweithlu, yn cyfrif am 45% o'r achosion o absenoldeb tymor byr, i lawr o 59.7% yn chwarter 2. Er bod nifer yr achosion wedi aros yn debyg, gostyngodd hyd cyfartalog absenoldeb o 7.92 i 6.5 diwrnod calendr.

Cynyddodd achosion o absenoldeb tymor byr staff corfforaethol i 26.7% yn chwarter 3, ond gostyngodd cyfanswm y diwrnodau a gollwyd, gan nodi absenoldebau byrrach. Gostyngodd absenoldeb cyfartalog o 8.35 i 3.96 diwrnod calendr fesul gweithiwr, gydag annwyd a ffliw yn cael ei nodi fel yr achos mwyaf cyffredin.

**Y 3 Phrif Reswm am Absenoldeb Salwch Tymor Byr (yn ôl yr achosion)**

| | **Rheswm am Absenoldeb** | **Achosion** | **% Amser a gollwyd** |
|---|---|---|---|
| 1 | Annwyd, Ffliw | 48 | 22.1% |
| 2 | Cyhyrysgerbydol - coes (clun/pen-glin/ffêr/troed ac ati) | 7 | 7.11% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - braich (ysgwydd/penelin/arddwrn/ llaw ac ati) | 4 | 6.70% |


*Mae '% Amser a gollwyd' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion*

Annwyd / ffliw oedd yr achos mwyaf cyffredin o absenoldeb tymor byr yn chwarter 3, gan gyfrif am 22.1% o'r amser a gollwyd, gyda hyd cyfartalog o 4.48 diwrnod. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o 8.4% yn chwarter 2.


Roedd pob cyflyrau cyhyrysgerbydol yn cyfrif am 19.1% o absenoldeb tymor byr, gyda hyd cyfartalog o 8.8 diwrnod, gydag achosion ar yr aelodau isaf a adroddwyd fwyaf o'r categori hwn (7.11%) ac yna'r aelodau uchaf (6.70%). Roedd y rhan fwyaf o achosion ymhlith staff ar alwad (66%), ac yna staff amser cyflawn (23%) a staff corfforaethol (9.5%). Mae ffisiotherapi yn parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth, yn enwedig ar gyfer cyflyrau aelodau isaf, ysgwydd, gwddf a chefn, gan gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal absenoldeb.

## 1.3 Salwch Hirdymor

Ar gyfartaledd dros flwyddyn lawn 2024/25, mae absenoldebau hirdymor yn 4.23% o'r amser a gollwyd.
Salwch hirdymor oedd 4.07% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn chwarter 3, o'i gymharu â 3.60% yn chwarter dau a 3.99% yn chwarter 1.




Cynyddodd diwrnodau absenoldeb hirdymor ar gyfer staff amser llawn o 679 diwrnod yn chwarter 2 i 1,015 diwrnod yn chwarter 3, gyda hyd cyfartalog yn codi o 39.9 i 50.8 diwrnod.
Roedd staff ar alwad yn cyfrif am 55% o absenoldeb hirdymor, ychydig i fyny o chwarter 2. Er bod achosion a chyfanswm y diwrnodau a gollwyd wedi cynyddu i 2,020 diwrnod, gostyngodd hyd absenoldeb cyfartalog ychydig o 53.1 i 51.7 diwrnod.




Gostyngodd achosion absenoldeb tymor hir a diwrnodau a gollwyd ar gyfer staff Rheoli a Chorfforaethol yn chwarter 3 o'i gymharu â chwarter 2. Roedd rolau corfforaethol yn cyfrif am 13.9% o achosion absenoldeb hirdymor, i lawr o 23.3%. Er bod nifer yr achosion a'r dyddiau a gollwyd wedi gostwng, cynyddodd hyd cyfartalog absenoldeb ychydig, o 61 i 63 diwrnod.

### Y 3 Phrif Reswm am Absenoldeb Salwch Hirdymor (yn ôl yr achosion)

| | **Rheswm am Absenoldeb** | **Achosion** | **% Amser a Gollwyd** |
|---|---|---|---|
| 1 | Iechyd Meddwl - Straen | 8 | 13.6% |
| 2 | Cyhyrysgerbydol - coes (clun/pen-glin/ffêr/troed ac ati) | 8 | 12.3% |
| 3 | Methu Archwiliad Meddygol/Prawf Ffitrwydd | 7 | 9.13% |

*Mae '% Amser a gollwyd' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion*

Arhosodd tri phrif achos absenoldeb salwch hirdymor yn ddigyfnewid yn chwarter 3. Gostyngodd absenoldeb am resymau'n ymwneud ag iechyd meddwl, gan gynnwys straen, gorbryder, iselder a chyflyrau cysylltiedig, i 13.6% o'r amser a gollwyd, o 15.6% yn chwarter 2. Gostyngodd hyd cyfartalog yr absenoldebau'n sylweddol hefyd,  o 64.2 i 50.6 diwrnod.

Mae cymorth iechyd meddwl a lles ychwanegol yn parhau i gael ei gyflwyno, ochr yn ochr â'r gwasanaethau iechyd galwedigaethol, cymorth gweithwyr a ffisiotherapi oedd eisoes ar gael. Mae hyfforddiant yn cynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, hyfforddiant gwyliwr, ymwybyddiaeth o hunanladdiad a sesiynau dadfriffio yn dilyn digwyddiadau critigol.

Cyflyrau cyhyrysgerbydol y goes (clun/pen-glin/troed ac ati) oedd yr ail achos uchaf am absenoldebau hirdymor, gydag wyth achos yn cyfrif am 447 diwrnod gwaith wedi'u colli. Mae'r absenoldebau hyn yn aml yn ymwneud â llawdriniaeth neu adferiad, sy'n gofyn am ffitrwydd llawn cyn dychwelyd i'r gwaith. Mae dyletswyddau wedi'u haddasu a dychwelyd fesul cam graddol yn parhau i gefnogi dychwelyd i'r gwaith yn gynt ac yn fwy diogel.

# Ein Hegwyddor Atal


## 2 Pob Digwyddiad


**Pob Digwyddiad** – Aethpwyd i **5,218** o ddigwyddiadau yn ystod chwarteri 1 - 3 y flwyddyn ariannol, sydd yn gynnydd o 7.5% Mae hyn hefyd 10.4% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 4,728.

**Tanau – 1,686**, cynnydd o 34.6% ar gyfer chwarteri 1 i 3 o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, a 19.6% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,410. Mae hyn oherwydd cynnydd nodedig yn ystod chwarteri 1 a 2, fodd bynnag, mae chwarter 3 wedi dangos gostyngiad sylweddol.

**Galwadau Diangen** - **2,500**, gostyngiad o 0.9%, ond 9.5% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 2,283.

**Galwadau Gwasanaeth Arbennig** - **1,032**, gostyngiad o 4.3%, a 0.3% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,035.








## 3 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

Aethpwyd i **246** o danau damweiniol mewn cartrefi, cynnydd o 6.5%, o 231.

Er bod hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, mae'n bwysig nodi bod hyn yn dal i fod 2.4% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 252, ac mae hefyd yn sylweddol is na nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi a fynychwyd yn ystod y blynyddoedd ariannol cyn 2024/25.






Amser ymateb cyfartalog y Gwasanaeth i Danau Damweiniol Mewn Cartrefi yn ystod y chwarter (ac eithrio Galwadau Tân Hwyr) oedd 12 munud. Mae hyn yn seiliedig ar yr amser rhwng yr alwad a'r amser y cyrhaeddodd y peiriant tân cyntaf.

| County ▲ | ADFs | YoY | Avg Response Time |
|---|---|---|---|
| Anglesey | 28 | ↑ 1 | 00:17 |
| Conwy | 45 | ↑ 5 | 00:11 |
| Denbighshire | 41 | ↑ 3 | 00:12 |
| Flintshire | 48 | ↓ -5 | 00:11 |
| Gwynedd | 31 | ↓ -16 | 00:15 |
| Wrexham | 48 | ↑ 6 | 00:11 |
| **Total** | **241** | **-6** | **00:12** |

## 4 Prif Achosion Tanau Damweiniol Mewn Cartrefi


Roedd sawl prif achos dros danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ariannol. Y mwyaf cyffredin oedd 'Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)', a oedd yn dangos cynnydd o 79.1%, i fyny o 43 i 77 yn ystod y cyfnod adrodd, Ch1 - 3.

Roedd y prif achosion eraill lle gwelwyd cynnydd yn ystod Ch1-3 2025/26 yn cynnwys:

- ‘Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan’, gyda chynnydd o 11.5%, i fyny o 26 yn Ch1 i 3 2024/25 i **29**.
- 'Trin yn ddiofal – oherwydd gwaredu diofal' , gyda chynnydd o 50%, o 12 yn Ch1 - 3 2024/25 i **18**
- 'Gorboethi, achos anhysbys' , gyda chynnydd o 150%, o chwech yn Ch1 - 3 2024/25 i **15.**


Er gwaethaf hyn, gwelwyd gostyngiad mewn ambell brif achos yn ystod y chwarter hwn. Mae’r rhain yn cynnwys:


- 'Coginio – arall' gyda gostyngiad o 10%, o 40 yn Ch1 - 3 2024/25 i **36**
- 'Defnydd esgeulus o offer neu beiriant,' gyda gostyngiad o 19%, o 21 yn Ch1 - 3 2024/25 i **17.**



Wrth gymharu prif achosion tanau damweiniol mewn cartrefi yn Ch3 2025/26, â'r rhai yn y chwarter blaenorol, **eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)** oedd y prif achos mwyaf cyffredin o hyd, yn gyfrifol am**35** o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod Ch3, gan gynyddu o 21 yn Ch2 2025/26.

**Coginio –** roedd **coginio arall yn** parhau i fod yr ail achos mwyaf cyffredin, sy'n gyfrifol am 15 o danau damweiniol mewn anheddau yn ystod Ch3, gan gynyddu o 12 a gofnodwyd yn ystod Ch2 2025/26.



**Camau gweithredu hyd yma:**

Mae'r Tîm Atal a'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd wedi bod yn rhagweithiol wrth ddelio â phrif achosion tanau damweiniol mewn cartrefi. Mae sawl neges yn y cyfryngau cymdeithasol, e.e. Mae Tân yn Lladd a'r fideos ynghylch peryglon gadael bwyd yn coginio heb gadw llygad arno wedi'u rhannu ar draws pob platfform.

Mae Tîm Atal GTAGC wedi annog gofalwyr aml--asiantaeth a gweithwyr cymorth ar draws y rhanbarth i gofrestru i gael cyngor a llenyddiaeth atal wedi'i dargedu yn syth i'w cyfeiriadau e-bost trwy 'Gov Delivery'. Mae hyn wedi galluogi'r Tîm Atal i rannu gwybodaeth bwysig am ddiogelwch yn y gegin/coginio ac i rannu ein gwybodaeth atgyfeirio er mwyn creu atgyfeiriadau ar gyfer yr unigolion sydd â'r risg uchaf

Mae criwiau tân yn parhau i ddefnyddio data Caerwysg wrth gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, a hynny er mwyn targedu'r rhai dros 65 oed sy'n fwy tebygol o gael tân yn y gegin.

**Camau Gweithredu Pellach:**

Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn – bu'r tîm atal, asiantaethau partner ac amrywiol staff cymorth o bob rhan o'r Gwasanaeth yn cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, gan dargedu'r rhai mwyaf agored i niwed a thynnu sylw at bwysigrwydd peidio â gadael bwyd yn coginio heb ei oruchwylio a chadw eitemau llosgadwy i ffwrdd o ffynonellau gwres a chyfarpar coginio.

Ar hyn o bryd mae'r Tîm Atal yn gweithio ar ymgyrch diogelwch yn y gegin wythnos o hyd i ddechrau ar 24 Tachwedd. Mae cynnwys digidol newydd yn cael ei greu, ynghyd â fideos newydd a negeseuon pwysig gan ddefnyddio'r criw tân ym Mae Colwyn.


Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Atal yn treialu cynnyrch diogelwch popty arloesol o'r enw 'Pippa'. Mae'r teclyn datgelu bach hwn, sy'n cael ei osod uwchben y popty, yn defnyddio AI i synhwyro'r arwyddion cynnar o wres a thân, gan rybuddio'r preswylydd o gynnydd sydyn mewn tymheredd. Hefyd, gall y teclyn rybuddio aelod o'r teulu neu ofalwr trwy ap ffôn symudol.

Mae cynlluniau ar y gweill i roi lifrai diogelwch cegin ym mhob locer offer tân yn Llandudno. Bydd hyn yn cael ei lansio gydag asiantaethau partner yn y flwyddyn newydd yn ogystal â datganiad llawn i'r wasg.

## 5 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol Mewn Cartrefi


Dioddefodd 72 o bobl anafiadau mewn **47** TDMC yn ystod y cyfnod adrodd Ch1 – Ch3 2025/26. Yn anffodus, cofnodwyd **un** farwolaeth o ganlyniad i dân damweiniol mewn cartref yn ystod chwarter 2

Mae nifer y bobl a anafwyd o ganlyniad i TDMC ers dechrau 2024/25 wedi dangos cynnydd o 105.7%, o'i gymharu â Ch1 - Ch3 2024/25, mae nifer y TDMC lle cofnodwyd anaf hefyd wedi cynyddu 62.1%.




Wrth adolygu nifer yr anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi a gofnodwyd yn ystod Ch3 2025/26, cofnodwyd bod cyfanswm o **41** o bobl wedi cael eu hanafu, sy'n gynnydd o'r chwarter blaenorol (Ch2) pan gofnodwyd 15.

Mae'n bwysig nodi er bod hyn yn gynnydd sylweddol, bod nifer fawr o'r rhai a gofnodwyd fel bod wedi dioddefodd anaf wedi eu cofnodi oherwydd y cynhaliwyd gwiriad rhagofalus (18 o bobl), gyda 6 angen cymorth cyntaf ac 17 wedi'u cofnodi fel bod ag anafiadau bach. Ni chofnodwyd unrhyw anafiadau difrifol na marwolaethau yn ystod Ch3.





## 6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi


**Synwyryddion:** roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **215** (87.4%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol.

Roedd larymau'n weithredol ac wedi rhoi rhybudd mewn **145** o'r cartrefi (58.9%) lle digwyddodd tanau damweiniol.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **32** (13%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol.

O'r 246 o danau damweiniol mewn cartrefi a fynychwyd, roedd **215** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a **31** heb eu cyfyngu.


Incidents Attended
140
120
100
80
60
40
20
0
30
6
34
2
127
12
134
11
22
3
30
4
27
4
18
14
2024/25
2025/26
Fitted - Didnt operate
Fitted - Operated and raised th...
Fitted - Operated but did not r...
Not fitted
Alarm Activation
Confined
Not Confined


Accidental Dwelling Fires confined to room of origin, by smoke alarm activation
Casualties
70
60
50
40
30
20
10
0
9
0
8
2
17
0
44
1
37
3
53
7
5
3
10
0
14
1
8
4
8
8
2
2
Q1
Q2
Q3
Alarms Fitted - Didn't operate
Alarms Fitted - Operated and raised the alarm
Alarms Fitted - Operated but did not raise the alarm
Alarms Not fitted
Alarm activation | 2025/26 Quarter
Confined
Not Confined

**Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed o ran tanau yn eu cartrefi:**

Yn nhri tri chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 25/26, rydym wedi cwblhau 14,925 gwiriad Diogel ac Iach ac yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o gynnal 17,500 erbyn diwedd Ch4. Fodd bynnag, dim ond 3,837 o'r holl wiriadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn oedd yn rhai risg uchel. Mae hyn yn cyfateb i 25.7%. Mae camau ar waith i fynd i'r afael â hyn, gyda chriwiau wedi cael cais i flaenoriaethu atgyfeiriadau risg uchel yn Ch4.

Trwy gydol chwarter 3, gofynnwyd i staff gorsafoedd Amser Cyflawn a Chriwio Dydd ymgymryd â gweithgarwch atal gan ddefnyddio data Exeter (data a rennir gan y GIG) i dargedu aelwydydd lle mae trigolion 65+ yn byw. Rhoddwyd gwybodaeth ddaearyddol i'r criwiau yn dangos y mannau lle'r oedd yn hysbys bod pobl 65+, 75+ ac 80+ yn byw Mae hyn yn galluogi criwiau i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach yng nghartrefi pobl sydd yn y grwpiau oedran a allent fod mewn mwy o berygl o ddioddef tân.

Cafodd Archwiliadau Diogel ac Iach eu tynnu oddi ar y rhestr aros atgyfeiriadau Cwblhawyd yr holl atgyfeiriadau ar y rhestr aros yn Ch3 gan y Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref (risg uchel/canolig) a Gweithwyr y System Dyletswydd Amser Cyflawn (risg isel).

Mae'r weithdrefn hon wedi'i hadolygu a bydd yn newid yn Ch4, gyda chriwiau'n defnyddio'r rhestr aros atgyfeiriadau yn y lle cyntaf ac yn defnyddio data Caerwysg fel y drefn ddiofyn/wrth gefn, oherwydd y nifer cynyddol o atgyfeiriadau rhestr aros - y mae rhai ohonynt yn hwyr erbyn hyn. Bydd y criwiau'n canolbwyntio ar yr unigolion risg uchaf yn y gymuned yn hytrach na chanolbwyntio ar Archwiliadau Diogel ac Iach risg isel.

Nodwyd y dylai'r ffocws flaenoriaethu ansawdd dros niferoedd

Mae gweithgareddau sy'n targedu mannau problemus yn dal i gael eu cynnal ar ôl digwyddiadau, sydd yn arwain at wahanol lefelau o ymateb ar ôl digwyddiad.

Mae'r Tîm Atal yn parhau i gynnal cyfarfodydd bob tair wythnos ac yn monitro a yw'r Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u cynnal ac a oes angen rhagor o ymgysylltu ac ymyrraeth bellach.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn parhau i weithio gyda'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr ar draws yr holl gyfryngau.

**Ymgysylltu Addysgol – Ch3:**

**Ffenics**

| | |
|---|---|
| Cyrsiau a gyflwynwyd | = 6 |
| Cyfranogwyr | = 55 |
| Nifer a gwblhaodd y cwrs | = 67% |
| Gwella Ymddygiad | = 66% |
| Adborth cadarnhaol (gan asiantaethau cyfeirio) | = 100% |
| Cymhwyster Agored llawn wedi'i ennill | = 62% |

**Gwobr Ymddiriedolaeth y Brenin**

Mae holl bolisïau a gweithdrefnau Gwobr Ymddiriedolaeth y Brenin bellach yn eu lle. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno i Ymddiriedolaeth y Brenin er mwyn i GTAGC ddod yn ganolfan achrededig.
Mae Tîm Atal GTAGC yn adolygu gweithgareddau yn erbyn y meini prawf a bennwyd a'r oriau cyswllt er mwyn cyflawni'r Wobr, gyda Ffenics yn darparu cwrs wythnos. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws Cymru i alluogi Ffenics i gyflwyno Fframwaith Ymyriadau Cynnar Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.

**Ymweliadau Addysgol ag Ysgolion yn Ch3**


| | |
|---|---|
| Ysgolion yr Ymwelwyd â Nhw | = 17 |
| Disgyblion | = 1,035 |
| | |
| Criw Craidd | = 1 |
| Disgyblion | = 10 |
| | |
| Cynulliad Tanau Bwriadol | = 2 |
| Disgyblion | = 110 |


Rhaid nodi y bu’r Tîm Addysg yn gweithredu ar lefel staffio o 50% oherwydd absenoldeb mamolaeth, fodd bynnag, mae’r aelod o'r tîm wedi dychwelyd ers mis Rhagfyr 2025.

## 7 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

Aethpwyd i gyfanswm o **1,032** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys Gwrthdrawiadau ar y Ffordd), sydd 4.3% yn is na'r 1,078 a fynychwyd yn 2024/25

Er bod nifer y digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd' wedi gostwng 11.2%, gyda **793** o ddigwyddiadau wedi'u mynychu, bu cynnydd o 29.2% mewn presenoldeb mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd, gyda **239** o ddigwyddiadau wedi'u mynychu o gymharu â 185.



Roedd y categorïau pennaf o Alwadau Gwasanaeth Arbennig yn y cyfnod Ch1 - 3 2025/26 (ac eithrio Gwrthdrawiadau Traffig):

- **396** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – cynnydd o 0.5% o'r 394 a gofnodwyd yn ystod Ch1-3 2024/25
- **69** digwyddiad 'Achub/rhyddhau personau arall' – gostyngiad o 10.4% o'r 77 a gofnodwyd yn ystod Ch1 - 3 2024/2025.
- **73** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo i fynd i mewn/ allan' – cynnydd o 30.4% o'r 56 a gofnodwyd yn ystod Ch1- 3 2024/2025.
- **58** o ddigwyddiadau 'Rhyddhau o Lifft', sef yr un nifer a'r hyn a gofnodwyd yn ystod Ch1-3 2024/25.

Dyma rai o'r prif gategorïau o Alwadau Gwasanaeth Arbennig (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) a gofnodwyd yn ystod Ch3 2025/26

- **153** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – cynnydd o'r 127 a gofnodwyd yn Ch2 .
- **16** o ddigwyddiadau 'Llifogydd' – cynnydd o'r 8 a gofnodwyd yn ystod Ch2.
- **26** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo i fynd i mewn/allan' – gostyngiad o'r o 29 a gofnodwyd yn ystod Ch2.
- **20** o ddigwyddiadau 'Rhyddhau o Lifft' – gostyngiad o'r o 22 a gofnodwyd yn Ch2.

**Camau gweithredu hyd yn hyn:**

**Diogelwch ar y Ffordd**

**Stori Olivia**

Cyflwynwyd stori Olivia i dros 1000 o fyfyrwyr coleg yn ystod Wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd. Roedd hyn yn cynnwys safleoedd Grŵp Llandrillo Menai i gyd ac un Safle Coleg Cambria.

Ffilmiodd staff GTAGC a HGC fideo byr mewn cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai a ryddhawyd yn y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y fideo'n esbonio'r hyn y mae GTAGC a HGC yn anelu at ei gyflawni trwy gyflwyno Stori Olivia ac yn dangos myfyrwyr yn rhannu eu meddyliau a'u teimladau'r ar ôl clywed y stori.

**Tîm Ymgyrch Atal**

Mae tîm Ymgyrch Atal wedi bod allan ar strydoedd Gogledd Cymru yn gweithio gyda HGC i addysgu gyrwyr ar y 5 Angheuol. Yn Ch3, rhoddwyd 793 o gyflwyniadau ar ochr y ffordd gyda 33 o yrwyr yn derbyn dirwyon gyrru. Fel rhan o hyn hefyd gwnaeth aelodau'r tîm ddefnydd o'u hyfforddiant Seddi Car Plant a arweiniodd at 1 erlyniad am y defnydd anghywir o sedd car plentyn.

Aeth tîm Ymgyrch Atal Ysgol Llanfawr, Caergybi i hyrwyddo Diogelwch ar y Ffyrdd. Fe wnaethant gynnal cystadleuaeth lle gofynnwyd i'r plant dynnu llun yn dangos beth oedd Diogelwch ar y Ffyrdd yn ei olygu iddyn nhw gyda Thalebau Rhodd Amazon am y llun gorau Ymgysylltwyd â 200 o fyfyrwyr

Gwaith parhaus i wneud trefniadau i gyflwyno stori Olivia ar gyfer y flwyddyn newydd. Erbyn diwedd mis Ionawr, disgwylir y bydd holl safle Coleg Cabria - Ffordd y Bers wedi derbyn y mewnbwn ac mae gwaith pellach gyda Grŵp Llandrillo Menai yn mynd rhagddo.

Nodir nad oedd Swyddog Heddlu gyda'r tîm bob dydd, a dim ond pan fydd Swyddog Heddlu ar gael y mae eu gwaith ar ochr y ffordd wedi bod yn bosibl.

**BikerDown**

Mynychodd WM Lee Parsons a WM Paul Ellams Sioe Beiciau Modur MCL yn Birmingham i hyrwyddo Bikerdown a Beicio Diogel. Arweiniodd y presenoldeb hwn at 300 o gofrestriadau ar gyfer Bikerdown a Beicio Diogel. Cynhaliwyd un sesiwn Bikerdown yn Ch3 gyda 17 rhyngweithiad myfyriwr

**Gwaith diogelwch ar y ffyrdd parhaus arall GTAGC**

• Gweithio ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru ar lansio Ymgyrch Apex. Y marciau ffyrdd PRIME newydd ar ddwy ffordd yng Ngogledd Cymru sy'n dangos i feicwyr modur sut orau i fynd rownd corneli a thrwy hynny eu cadw'n ddiogel.
• Datblygu adnoddau ar gyfer ymgysylltu â gyrwyr hŷn. I'w rhannu mewn Archwiliadau Diogel ac Iach

**Gweithgaredd Diogelwch Dŵr Ch3**

Cyfarfod cydweithredu â Phentre Peryglon Cyfarfod a gynhaliwyd gyda Cat o Bentre Peryglon yn Uned 8B Conwy i arddangos ein ffliw diogelwch dŵr, sut mae'n gweithio a sut y gallem ei osod yn ein arddangosfa dŵr mewndirol. Trafodwyd hefyd ehangu'r arddangosfa dŵr mewndirol yn Pentre Peryglon i gynnwys ffilmiau fideo. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn Ch4 i wella'r arddangosfa dŵr mewndirol yn Dangerpoint. Mae cyllid eisoes wedi'i neilltuo i brynu'r offer.

Ymgyrch Diogelwch Dŵr y Nadolig. Cyfarfod Cymru gyfan i drafod ymdriniaeth Cymru gyfan. Daethpwyd i gytundeb i rannu adnoddau ar gyfer neges safonol. De Cymru i rannu eu hased gyda ni fel y gall Cyfathrebu Corfforaethol ei frandio gyda logo GTAGC.

Cyfarfod Achub Mynydd. Croesawyd sawl tîm achub mynydd yng Ngorsaf Dân Bangor. Cyfarfodydd rhagarweiniol oedd y rhain lle daeth yr holl dimau Achub Mynydd lleol at ei gilydd i gael trafodaeth agored am sut rydym yn delio â digwyddiadau dŵr gweithredol a sut y gallwn helpu ein gilydd.

Yn dilyn trafodaeth PowerPoint, cawsom senario 'dangos a dweud' lle dangosodd pawb yr offer maen nhw'n ei gario ar eu cerbydau achub. Roedd hyn er mwyn sefydlu gwell dealltwriaeth, gwell rheolaeth a gwella cydweithio mewn digwyddiadau gweithredol.

**Cynllun Peilot Diogelwch Nofio**

Bydd staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan hanfodol o gyflwyniad Cynllun Peilot Menter Diogelwch Dŵr newydd wedi'i anelu at blant 9–11 oed. Ein gweledigaeth yw cynnal sesiynau diddorol mewn canolfannau hamdden, gan gyfuno dysgu ystafell ddosbarth â gweithgareddau ymarferol yn y pwll. Ar ôl cael eu hyfforddi, bydd ein staff yn cael eu gwahodd i gyflwyno'r pecyn addysgol tair awr hwn mewn gwahanol leoliadau ledled yr ardal wasanaeth. Bydd hyfforddiant llawn a chefnogaeth barhaus yn cael eu darparu i'n staff gan hyfforddwyr Nofio Cymru i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn barod i gyflwyno'r rhaglen.


## 8 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cynhaliwyd cyfanswm o **14,935** o Archwiliadau Diogel ac Iach yn Ch1-3 2025/26, o'r rheiny:


- Roedd **3,839** (25.7%) yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, gyda **2,120** (55.2%) o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd wedi dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **2,962** (19.8%) yn archwiliadau blaenoriaeth Ganolig, gyda **291** (9.8%) o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **8,134** (54.5%) yn archwiliadau blaenoriaeth Isel, gyda **322** (4%) o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd yn dod gan asiantaeth bartner.

Cafodd cyfanswm o **2,733** o Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth – mae hyn yn 18.3% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd.

Er y bu cynnydd o **0.8%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, bu gostyngiad o **2.6%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd.





Yn ystod Ch3 2025/26, cwblhawyd cyfanswm o **5,111** gwiriad Diogel ac Iach, sy'n debyg i'r 5,106 a gwblhawyd yn ystod y chwarter blaenorol (Ch2 2025/26), fodd bynnag, cofnodwyd **27.2%** (1,389 allan o 5,111) o'r rhain fel gwiriadau blaenoriaeth uchel, sy'n gynnydd o 23.2% (1,184 allan o 5,106) o wiriadau blaenoriaeth uchel wedi'u cwblhau yn Ch2 2025/26.




Cynhaliwyd cyfanswm o 1,192 (8.0%) o Wiriadau Diogel ac Iach yn Gymraeg yn ystod chwarteri 1 – 3.


Yn ystod chwarter un, cwblhawyd **89%** o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach o fewn eu dyddiad cwblhau targed.





23

Yn ystod chwarter 3, ar draws holl flaenoriaethau gwiriadau Diogel ac Iach a gwblhawyd, cwblhawyd 86% o fewn y dyddiad cwblhau targed.
Cafodd 61% o'r gwiriadau Diogel ac Iach Blaenoriaeth Uchel a gynhaliwyd yn chwarter 3 eu cwblhau o fewn yr amser targed.



**Camau gweithredu hyd yma:**

Mae Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref (GCDC) yn anelu at gwblhau 6,000 o Wiriadau Diogel ac Iach y flwyddyn. Bydd pob GCDC yn anelu at gynnal 545 o Wiriadau Diogel ac Iach y flwyddyn, sef dros 136 y chwarter.

Criwiau i gwblhau chwe Archwiliad Diogel ac Iach y dydd, sef 24 ym mhob cyfnod dyletswydd pedwar diwrnod. Dylid nodi y bydd y targed hwn yn newid yn Ch4 i dri y dydd a dau y nos, gan gynnwys y ddwy orsaf Cnewyllyn sydd newydd eu creu.

Gellir cyrraedd y targed hwn o fewn y ddwy awr a neilltuwyd ar gyfer gweithgareddau atal, fel y manylir yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad Gorsaf.

**Rhestrau aros Ch2**

| Blaenoriaeth | O fewn y Targed | Tu allan i'r Targed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Uchel | 260 | 654 | **914** |
| Canolig | 120 | 104 | **224** |
| Isel | 257 | 80 | **337** |
| Cyfanswm | **637** | **838** | **1475** |

Mae'r rhestr aros yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r sefydliad. Fodd bynnag, mae camau bellach ar waith i fynd i'r afael â hyn, gyda'r rhestr eisoes yn lleihau o Ch2.

Ar ddiwedd Ch3 mae 1,479 o atgyfeiriadau ar y rhestr aros sy'n ostyngiad o 141 o'i gymharu â Ch2 (1620). Mae'r rhestr aros yn cael ei rheoli gan Weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref, Gweithwyr y System Dyletswydd Amser Cyflawn a staff ar ddyletswyddau wedi'u haddasu.

Dylid nodi bod un GCDC wedi bod yn llwyddiannus mewn cael dyrchafiad dros dro i rôl arall; cyflogwyd GCDC newydd ym mis Awst ac yn dilyn hyfforddiant a chyfnod o gysgodi GDDC eraill fe wnaethant ddechrau ar eu hymweliadau ym mis Medi. Mae'r tîm, fodd bynnag, yn dal i weithio gyda llai o adnoddau oherwydd absenoldeb salwch hirdymor. Yn Ch3, cynigiwyd taliad ychwanegol i staff Atal i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach Lles er mwyn lleihau'r rhestr aros.

Anogwyd Staff y System Dyletswydd Amser Cyflawn i gynyddu nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach y maen nhw'n eu cynnal dros y ffôn, a gofynnwyd i rai gwylfeydd Criw Dydd / Amser Cyflawn gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach risg canolig ac uchel o'r rhestr aros. Bydd hyn yn cynyddu yn ystod Ch4.


Bydd strategaeth atal newydd i'w chynnal o orsafoedd ar waith erbyn diwedd Ionawr 2026.


# Ein Hegwyddor Diogelu

## 9 Galwadau Diangen


Mynychwyd cyfanswm o **2,500** o alwadau diangen, sy'n ostyngiad o 0.9%. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys galwadau diangen a fynychwyd ar draws pob math o eiddo.


Mae cynnydd wedi'i gofnodi yn nifer y Galwadau Diangen Diffuant a fynychwyd, gyda chynnydd o 12.9% wedi'i gofnodi, i fyny o 913 i **1,031**. Mae gostyngiad i'w weld mewn Galwadau Diangen Maleisus, a ostyngodd 23.5% o 51 i **39**, a hefyd mewn larymau tân oherwydd digwyddiadau gydag offer, a ostyngodd 8.2% o 1,558 i **1,430**.





26



2025/26 Q3 | False Alarms
2%
38%
60%
Due to apparatus
Good Intent
Malicious Intent


False Alarms by Quarter
Incidents Attended
1,000
900
800
700
600
500
400
300
200
100
0
20
264
513
15
292
522
16
357
523
13
363
367
11
357
424
15
350
492
13
324
514
2024/25 Q1
2024/25 Q2
2024/25 Q3
2024/25 Q4
2025/26 Q1
2025/26 Q2
2025/26 Q3
Financial year & quarter
Due to apparatus
Good Intent
Malicious Intent

## 10 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol


Cafwyd **1,228** o alwadau System Larwm Awtomatig Masnachol yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd pob un ond pedwar yn ddigwyddiadau nad aethpwyd iddynt. Mae hyn wedi aros ar lefel gyson trwy gydol chwarteri 1-3.




## 11 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai

Derbyniwyd **342** o alwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai, sy'n gynnydd o 24.4% o 275. O'r galwadau System Larwm Awtomatig a dderbyniwyd yn nhri chwarter cyntaf 2025/26, ni fynychwyd 227 (66.4%). Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y galwadau, mae'r gyfran na fynychwyd wedi aros yn debyg i'r 64% yn y flwyddyn flaenorol.





29


**Camau a gymerwyd hyd yma – Ysbytai:**


Mae nifer y digwyddiadau a fynychwyd yn parhau'n isel, a hynny oherwydd cydweithrediad parhaus rhwng GTAGC a BIPBC, gyda GTAGC bellach wedi dechrau cyfundrefn archwilio gylchol ar draws yr ystâd er mwyn cadarnhau trefniadau gweithio ac i sicrhau mai'r amgylcheddau sydd â'r risg mwyaf sy'n cael eu harchwilio. Mae Amddiffyn wedi dechrau fframwaith archwilio cynhwysfawr, wedi'i strwythuro'n broffesiynol sy'n rhoi sylw i ddogfennaeth yn ymwneud â phrofi, driliau a gweithgareddau cynnal a chadw. Mae'r fframwaith yn cwmpasu cydymffurfiaeth reoleiddiol, sicrwydd gweithredol, ac adrodd seiliedig ar dystiolaeth.

## 12 CEF Berwyn

Cafodd 55 o danau sylfaenol eu cynnau'n fwriadol yn CEF Berwyn yn ystod y cyfnod adrodd, ac o'r rhain mynychwyd **36** - mae hyn 77.4% yn fwy na'r llynedd, fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau yn ystod Ch3.








**Camau a gymerwyd hyd yma – CEF Berwyn**

Mae digwyddiadau'n parhau i godi a gostwng, gyda phobl yn dod o hyd i ffyrdd newydd o ymyrryd â dyfeisiau electronig er mwyn eu defnyddio i gynnau tanau. Ar ôl y gostyngiad cyflym mewn digwyddiadau pan gyflwynwyd y cynnyrch fepio newydd, newidiodd y mathau o ffynonellau cychwyn tanau. Mae pobl yn parhau i ddefnyddio cyfarpar fepio hŷn ac i ddatgymalu gwaelodion tegelli, ac erbyn hyn hefyd yn darganfod sut i ddatgymalu'r teclynnau fepio newydd sydd i fod yn rhai nad ddylai fod modd ymyrryd â nhw. Rydym wedi codi hyn gyda'r gwneuthurwr, sydd bellach yn gweithio'n gyflym i ddatrys y broblem a chryfhau nodweddion diogelwch y cynnyrch.

Rydym hefyd wedi adolygu'r digwyddiadau hyn i weld a ydynt yn ymwneud â diwrnodau penodol o'r wythnos. Maent yn aml yn digwydd ar y diwrnodau y mae carcharorion yn cael eu talu a phan mae'n rhaid iddynt setlo dyledion ar unwaith—fel arfer dydd Iau a dydd Gwener. Mae carcharorion weithiau'n cynnau tanau er mwyn osgoi talu'r dyledion hyn neu i orfodi symud i floc arall. Oherwydd hyn, byddant yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gynnau tanau wrth i ddulliau hŷn o wneud hynny gael eu dileu.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i ddynodi dulliau tanio newydd, gan fod y digwyddiadau hyn yn debygol o barhau i godi a gostwng dros amser.




32

# Ein Hegwyddor Ymateb

**13 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad**

Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System Dyletswydd Ar Alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos (Llun-Gwener) ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd amser cyflawn neu griw dydd.

| **Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd ar Alwad ar Gyfartaledd 06:00-18:00** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diwrnod/Mis | Ebrill | Mai | Meh | **Ch1** | Gorff | Awst | Medi | **Ch2** | Hyd | Tach | Rhag | **Ch3** |
| Llun-Gwener | 6 | 6 | 5 | **6** | 6 | 4 | 6 | **5** | 6 | 7 | 7 | **6** |
| Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc) | 14 | 14 | 12 | **13** | 11 | 12 | 12 | **12** | 12 | 11 | 9 | **11** |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | **9** | **9** | **7** | **8** | **7** | **7** | **7** | **7** | **7** | **8** | **8** | **8** |
| **2024/25** | **7** | **7** | **6** | **7** | **6** | **7** | **6** | **6** | | | | |

Sylwch fod niferoedd sydd ar gael wedi'i dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu nifer dechreuwyr ac ymadawyr y System Dyletswydd Ar Alwad yn ystod chwarter dau, o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd. Mae llawer o'r rhai a adawodd y System Dyletswydd ar Alwad y chwarter hwn wedi mudo i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn.

| Chwarter | Dechreuwyr | Ymadawyr | Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter | Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| **Gorff 2024 – Medi 2024** | 30 | 7 | 487 | 436 |
| **Gorff 2025 – Medi 2025** | 12 | 29 | 485 | 418 |
| **+/-** | **-18** | **+22** | **-2** | **-18** |


**Dechreuwyr** – nifer dechreuwyr y System Dyletswydd ar Alwad o bob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd.

**Ymadawyr -** nifer ymadawyr y System Dyletswydd ar Alwad o bob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd, na'r rhai sy'n symud i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn.

**Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter** – nifer y swyddi System Dyletswydd Ar Alwad sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys y rhai sydd â mwy nag un rôl.

**Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig)** – nifer yr unigolion sydd ar y System Dyletswydd Ar Alwad yn unig h.y., y rhai nad oes ganddynt ddwy rôl yn y Gwasanaeth.

## 14 Argaeledd 18 Pwmp a Gynlluniwyd




| Nifer y Dyddiau Pan Gyflawnwyd yr Argaeledd oedd wedi'i Gynllunio | |
|---|---|
| **100% o Bympiau Ar Gael - Wedi'i Fodloni** | |
| **Llun-Gwener** | 64 |
| **Penwythnos/Gŵyl y Banc** | 27 |
| **100% o'r Pympiau Ar Gael - Nis Bodlonwyd** | |
| **Llun-Gwener** | 1 |

**D.S.** Er na lwyddwyd i gael argaeledd 18 pwmp ar un diwrnod o'r wythnos ym mis Awst, roedd digon ar gyfer pob grŵp o fewn y Cynllun Grŵp 16 ar y diwrnod hwnnw.


## 16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Wrth i dechnoleg ddatblygu ac i'n dibyniaeth ni fel cymdeithas arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod risgiau newydd a chymhleth yn wynebu ein Gwasanaeth Tân. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fod ar amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys pethau megis:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïon Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Yn dilyn trosglwyddiad o fewn y llywodraeth, lle symudodd y cyfrifoldeb am Dân o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan MHCLG a Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn â'r system cofnodi digwyddiadau newydd a elwir yn FaRDaP (Llwyfan Data Tân ac Achub). Bydd angen parhau i ddefnyddio chwiliadau geiriau allweddol i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn i'r llwyfan newydd gael ei gyflwyno.

Mae'r tabl isod yn crynhoi digwyddiadau yr aethpwyd iddynt a oedd yn ymwneud â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r data hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Hydref 2025 a Rhagfyr 2025 ac mae'n cynnwys





pob categori o ddigwyddiad.

D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i dybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

# Ein Hegwyddor Amgylchedd


## 15 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau

Cofnodwyd **464** o danau glaswelltir, coetir a chnydau, cynnydd o 186.4% o 162. Mae hyn 73.1% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 268.




## 16 Tanau gwyllt

Mynychwyd **35** o danau gwyllt. Mae hyn yn gynnydd o 600% o 5 yn ystod y flwyddyn flaenorol, a 94.4% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 18 O ganlyniad, cynyddodd yr amser a dreuliwyd yn monitro tanau gwyllt i dros 880 awr, o'i gymharu â dros 232 awr yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol .



## 17 Llifogydd

Mynychwyd **28** o lifogydd, gostyngiad o 56.3% o 64, a 61.1 digwyddiad yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 72.



## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd a thanau simdde. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfeilion), cerbydau, carafannau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau a pheirianwaith, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill, megis pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i ymdrin â nhw. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i ymdrin â nhw.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn tu allan, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simdde | Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simdde ei hun.<br><br>Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi ymdrin â nhw. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub pobl, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn credu bod digwyddiad ac yn mynd i leoliad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, nac wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'r alwad yn cael ei hystyried fel un y mae'r gwasanaeth wedi mynd iddi ac nid oes angen rhoi gwybod amdani. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol a'r rhai yr amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig go iawn. |
| Galwadau Diangen – Systemau Larwm Awtomatig | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u hysgogi gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larymau sydd wedi'u seinio'n ddamweiniol neu pan fo larwm yn seinio ac unigolyn yn galw'r GTA yn ôl yr arfer fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan galwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Anheddau | Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. cartref lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Dibreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy i'r digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant - Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026-2027 a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig, a cheisio cymeradwyaeth i'r fersiwn derfynol o'r dogfennau uchod.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 O dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016, un o'r amcanion allweddol ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

3 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.

4 Mae'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant blynyddol ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.

5 Mae Cylchlythyr Tân ac Achub Llywodraeth Cymru W-FRSC(2024)06 yn cadarnhau y gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gyhoeddi un adroddiad.

6 Dyma'r trydydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP), a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yr Awdurdod 2024-2029. Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod yn rheoli'r risgiau hynny ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill. Ysgrifennwyd yr amcanion i ystyried gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd atynt uchod.

7 Dangosodd y lefelau ymateb 42% o gynnydd (397 eleni o 279) o ymgynghoriad cyhoeddus 2025-26, er bod yr ymatebion y crybwyllwyd eu bod gan aelodau staff yn isel o hyd.

8 Roedd y gefnogaeth ar gyfer yr amcanion gwella a llesiant arfaethedig yn gyson uchel ar draws pob un o'r pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel, gan amrywio rhwng 93% a 97%.

9 Rhannwyd sylwadau gair am air gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad gyda'r Penaethiaid Adran perthnasol, neu'r arbenigwr pwnc, i'w hadolygu ac i ystyried pa effaith, os o gwbl, a gaiff yr adborth ar eu hamcanion arfaethedig ar gyfer 2026-27.

10 Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i unrhyw un o'r amcanion o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

11 Mae undebau llafur wedi bod yn ymwneud â datblygu'r amcanion llesiant fel rhan o'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ac yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi ym mis Chwefror 2025 cytunodd cynrychiolwyr yr Undebau Llafur a oedd yn bresennol fod consensws wedi'i gyrraedd ar yr amcanion.

## ARGYMHELLIAD

12 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

- **i) Nodi cynnwys yr adroddiad adborth; a**
- **ii) Chymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025–26 sydd wedi'i atodi a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig i'w cyhoeddi.**

## CEFNDIR

13 Bydd yr Awdurdod yn sôn am ei gynnydd yn erbyn amcanion Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2026-27 yn ei Asesiad Perfformiad Blynyddol yn Hydref 2026.

## GWYBODAETH

14 Agorwyd yr ymgynghoriad ar gyfer ymatebion rhwng 23 Hydref ac 16 Rhagfyr 2025. Cynhaliodd y Gwasanaeth ymarferiad sicrhau ansawdd data ar y data Cynhwysiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd ar gael i sicrhau bod y ffigurau a ddyfynnwyd yn gywir. Fe wnaeth hyn ohirio rhyddhau'r ymgynghoriad o ddau ddiwrnod.

15 Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft 2026-27, a fersiwn Hawdd ei Darllen, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Cyhoeddwyd hefyd Asesiad o Effaith y Cynllun ar Gydraddoldeb.

16 Cafodd ymatebwyr wahoddiad i lenwi holiadur yn nodi a oeddent yn cytuno y byddai'r amcanion arfaethedig yn cyflawni yn erbyn 'Ein Pum Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' ai peidio. Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ychwanegu sylwadau i gefnogi eu barn.

17 Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar-lein, yn fewnol ar Hwb Tân, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy hysbysebion y talwyd amdanynt yn y wasg ysgrifenedig.

18 Argraffwyd taflenni dwyieithog gyda Chod QR arnynt, gan hwyluso mynediad uniongyrchol a hawdd i holiadur yr arolwg ar-lein, ac fe'u dosbarthwyd yn ystod ymweliadau Archwiliad Diogel ac Iach a digwyddiadau ymgysylltu.

19 Crëwyd cyfeiriad e-bost dwyieithog pwrpasol i hwyluso ceisiadau am wybodaeth ychwanegol neu holiaduron papur. Crëwyd rhif ffôn symudol pwrpasol i ymateb i unrhyw ymholiadau na ellid eu cyflwyno drwy e-bost.

20 Anfonwyd llythyrau, yn enw'r Cadeirydd, at bawb ar y Gofrestr Rhanddeiliaid yn eu gwahodd i gymryd rhan.

21 Trefnodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb penodol gyda gwahanol grwpiau buddiant ym maes cydraddoldeb.

22 Gellir gweld y sylwadau gair am air yn atodiadau Adroddiad yr Ymgynghoriad.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27 yn cynnwys datganiad Llesiant fel<br>sy’n ofynnol gan y Ddeddf |
| Cyllideb | Amherthnasol |
| Cyfreithiol | Paratowyd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27<br><br>yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i baratoi<br>a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. |
| Risgiau | Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cefnogi<br>trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |




Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol

## Amcanion Llesiant a Gwella

## 2026 - 2027

**Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel – dweud eich dweud**

| POBL | ATAL | DIOGELU | YMATEB | AMGYLCHEDD |
|---|---|---|---|---|

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Ein Gwasanaeth 3

Ein Staff 4

Ardal Ein Gwasanaeth 4

Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth 5

Ein Risgiau a'r Galw 7

Ein Hegwyddorion 7

Ein Hegwyddor Pobl 8

Ein Hegwyddor Atal 9


Ein Hegwyddor Diogelu 10

Ein Hegwyddor Ymateb 11

Ein Hegwyddor Amgylcheddol 12

Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu 13

Sut i Roi Adborth 16









# Cyflwyniad

Un o'r prif amcanion ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg ac i wella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned, ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r cynlluniau gweithredu blynyddol canlynol bellach wedi'u cyhoeddi, sy'n cynnwys amcanion gwella a lles i'n galluogi i gyflawni yn erbyn ein hamcanion hirdymor. Mae'r ddau gynllun i'w cael yma.

- 2024-25 - wedi'i gyhoeddi Gorffennaf 2024
- 2025-26 - wedi'i gyhoeddi Ebrill 2025

Y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol hwn, ar gyfer 2026-27, yw'r trydydd cynllun blynyddol sy'n cynnwys amcanion a fydd yn parhau i gyflawni yn erbyn amcanion Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29.

# Ein Gwasanaeth

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael eu pennu gan boblogaeth yr ardal. Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Gallwch ddarllen mwy am ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys rôl yr Awdurdod Tân ac Achub, yma.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r tîm hwn yn cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.

# Ein Staff

Mae ein diffoddwyr tân yn ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill o 44 o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru. Mae gennym 53 injan dân. Mae gan rai o'n gorsafoedd tân ddwy injan dân. Mae gan orsafoedd eraill gerbydau arbenigol fel peiriannau ag ysgol ac esgynlawr, cerbydau cefnogi digwyddiadau neu gychod, yn dibynnu ar y risg yn eu hardal.




Gallwch ddarllen mwy am waith y rhai sy'n ymateb i argyfyngau a'r bobl sy'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhedeg yn dda, boed nhw'n ddiffoddwyr tân neu'n arbenigwyr busnes, yma.

# Ardal Ein Gwasanaeth

Mae Gogledd Cymru yn ardal o 6,172 cilomedr sgwâr sydd â phoblogaeth o 687,000, ac sydd â chryn amrywiaeth yn ei thirwedd, gan gynnwys mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol mawr.

Mae gogledd Cymru'n cynnwys chwe sir: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r A55 yn rhedeg trwy bump o'r chwe sir, ac mae'n ffordd sy'n rhan o un o'r llwybrau hiraf yn Ewrop, gan ymestyn o Gaergybi i Ddwyrain Ewrop. Gallwch ddarllen mwy am ein daearyddiaeth a'n demograffeg yma.



# Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth


Fel pob corff arall yn y sector cyhoeddus, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth. Gallwch ddarllen mwy am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein Gwasanaeth yma.

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, a hynny trwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth.

Ar ben hynny, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymgynghori â'r cyhoedd ar ei amcanion gwella arfaethedig. Ceir manylion am sut y gallwch roi adborth ar ein hamcanion arfaethedig yma.

Mae asesiad o'n perfformiad yn erbyn ein hamcanion llesiant a gwella blaenorol i'w gael yn ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol 2024-25, yma.

Mae ein hamcanion ar gyfer 2026-27 hefyd wedi'u datblygu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.




## Datganiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydym wedi ymroi i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan groesawu'r dyletswyddau a'r gwaith a ddaw o fod yn bartner statudol ar draws tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydyn ni'n deall diben a nod y Ddeddf, ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar gymunedau ardal y Gwasanaeth.

O ganlyniad, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, byddwn yn ystyried effeithiau posibl y penderfyniadau hyn ar y bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, yn awr ac yn y dyfodol. Hefyd, byddwn yn cofio bod angen ystyried amrywiaeth cyfoethog y bobl sy'n byw, sy'n gweithio, ac sy'n ymweld â Gogledd Cymru, a byddwn yn parhau i gydweithio ag eraill er mwyn helpu'r Awdurdod i wireddu ei Amcanion a, pan fo'n berthnasol, i helpu eraill i wireddu eu hamcanion hwy.

## Cymru Lewyrchus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn gwneud gwaith arloesol i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi a'u busnesau. Trwy leihau'r costau sy'n gysylltiedig â marwolaethau, difrod, anafiadau a tharfu yn sgil tân, byddwn yn gwella ein cefnogaeth i economïau lleol Gogledd Cymru.

## Cymru Gydnerth

Mae ein **Hegwyddor Amgylcheddol** a'n hamcanion sylfaenol yn cyfrannu tuag at greu Cymru Gydnerth trwy fabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon. Trwy ein **Hegwyddor Amddiffyn** byddwn yn ymdrechu i leihau'r nifer o danau gwyllt, a thrwy hynny wella ansawdd aer a gwarchod cynefinoedd naturiol ac ecosystemau.

## Cymru Sy'n Fwy Cyfartal

Gyda'n **Hegwyddor Pobl**, byddwn yn recriwtio, yn datblygu ac yn cadw gweithlu medrus, dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn hefyd yn nodi potensial staff ac yn gwneud y mwyaf ohono drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd, a thrwy hynny gyfrannu at Gymru sy'n fwy Cyfartal. Byddwn yn parhau i ymgynghori â staff, undebau llafur a'r cyhoedd ar faterion a chynigion statudol a allai gael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd.

## Cymru Iachach

Byddwn yn cyfrannu at greu Cymru Iachach gyda'n **Hegwyddor Atal**, trwy ddarparu archwiliadau diogel ac iach i'r dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed, a thrwy wneud i bob cyswllt gyfrif trwy rannu unrhyw bryderon iechyd a llesiant a nodir gyda phartneriaid perthnasol.

Trwy gynnal ymgyrchoedd aml-asiantaethol, ar sail gwybodaeth, sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd neu ddigwyddiadau boddi mewndirol, byddwn yn lleihau'r risg o farwolaeth ac anafiadau difrifol.

Trwy ein **Hegwyddor Pobl** byddwn yn cefnogi ein gweithlu i fod yn ffit yn gorfforol ac yn wydn yn feddyliol, a thrwy ein **Hegwyddor Ymateb** byddwn yn gwella darpariaeth frys yn ein hardaloedd mwy gwledig a llai poblog.

## Gymru o Gymunedau Cydlynus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal, Diogelu, Ymateb ac Amgylcheddol** byddwn yn cyfrannu at greu Cymru o Gymunedau Cydlynus, gan sicrhau bod tanau mewn cartrefi, busnesau neu ar dir agored naill ai'n cael eu hatal, neu trwy leihau eu heffaith cymaint ag sy'n bosibl.

### Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd ein **Hegwyddor Pobl** yn cyfrannu at greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a hynny trwy gynnig mynediad at ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg a thrwy ganiatáu i bobl gyfathrebu â ni yn y Gymraeg, gan gefnogi ein staff i siarad eu hiaith ddewisol yn y gweithle a chynnig cyfleoedd i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

### Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Trwy ein **Hegwyddor Amgylchedd**, byddwn yn chwarae ein rhan mewn Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon ein hunain trwy newid ein fflyd o Injanau Tân diesel fel eu bod yn rhedeg ar Olew Llysiau wedi'i Drin â Hydrogen, trwy brynu ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn yn unig, a thrwy gael gwared ar wres nwy a Nwy Petroliwm Hylif o'n hystad yn raddol.

Gyda'n **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn sicrhau bod Gogledd Cymru yn ddiogel drwy gynnal gweithgareddau ataliol, a hynny gan flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau a thrwy fod yn barod i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Cymunedol.

Trwy ein gwaith **Diogelu**, byddwn yn ceisio osgoi neu gyfyngu ar allyriadau o nwyon niweidiol i'r atmosffer o ganlyniad i danau gwastraff diwydiannol neu amgylcheddol.

Trwy ein **Hegwyddor Diogelu**, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gadw safleoedd ac adeiladau treftadaeth yn ddiogel rhag tân.

# Ein Risgiau a'r Galw

Mae'r gwaith o gyflawni ein hamcanion blwyddyn wedi'i gynllunio i liniaru rhai o'r risgiau a nodwyd fel rhan o ddatblygiad ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Gallwch ddarllen am sut rydym yn asesu risg a galw yma.

# Ein Hegwyddorion

Mae ein Gwerthoedd Craidd wedi ein tywys tuag at fabwysiadu pum Egwyddor. Trwy'r egwyddorion hyn, byddwn yn darparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel i'n cymunedau ac i'r bobl sy'n ymweld â Gogledd Cymru ac yn gweithio yma. Datblygwyd ein Hegwyddorion yn dilyn ymgynghoriad mewnol a byddant yn ein cynorthwyo i liniaru'r risgiau i'n cymunedau ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar wella o fewn ein Gwasanaeth dros y pum mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen mwy am ein Hegwyddorion yma.



# Ein Hegwyddor Pobl

***Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.***

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a hyrwyddo gweithgareddau, yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.
- Cefnogi'r ddarpariaeth o gynllun gweithredu gwella mewnol yn Dilyn yr arolwg staff Teulu Tân 2025
- Ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll i staff yr adran Gyllid er mwyn lleihau'r potensial o golled ariannol.
- Gwerthuso'r gweithredu argymhellion o'r adolygiad o ddiwylliant gan Crest, a pharhau i gyflawni yn eu herbyn.
- Archwilio ffyrdd o gefnogi a gwella Iechyd a Lles gweithwyr wrth i'w hamgylchiadau bywyd newid.
- Gwella a symleiddio'r prosesau Adnoddau Dynol.
- Cynnal gwelliannau i'r Seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwneud gwelliannau Seiberddiogelwch yn unol â'r Cynllun Gweithredu Ymateb Seiber.
- Adolygu trefniadau Diogelu Data a Llywodraethu, creu cofrestr asedau newydd ac ymgymryd ag adolygiad o'r polisi cadw data.
- Gweithredu Strategaeth Pobl a Sefydliad 2025-30.
- Gweithredu Strategaeth Hyfforddiant a chynllun darparu Hyfforddiant Gweithrediadau a Rheoli.
- Ymgorffori Deddf Llesiant Dyfodol Cenedlaethau (Cymru) 2015 ledled y Gwasanaeth.
- Parhau i adeiladu ar ein llwyddiant cychwynnol ac ymgorffori ein hymrwymiad i weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol ar draws pob maes o'r Gwasanaeth.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd

# Ein Hegwyddor Atal

***Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.***

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Darparu data o ansawdd i gefnogi'r adran Diogelwch Tân Cymunedol yn y dull newydd sy'n seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach lefel uchel a nodwyd.
- Cyflwyno ymyriadau diogelwch cartref dan arweiniad cudd-wybodaeth sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl preswylwyr yn ein cymunedau. Byddwn yn cyflwyno pedair ymgyrch aml-asiantaeth wedi'u targedu ledled Gogledd Cymru.
- Cydlynu grŵp prosiect i ymchwilio i system newydd i ddisodli System Rheoli Cofnodion Farynor.
- Lleihau marwolaethau a digwyddiadau difrifol sy'n gysylltiedig â dŵr trwy addysg ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Gogledd Cymru drwy ymyriadau wedi'u targedu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Gweithredu Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol gynhwysfawr, i leihau cynnau tanau'n fwriadol a diogelu cymunedau.
- Ymgorffori diogelu fel elfen graidd o arfer bob dydd, trwy sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant rheolaidd a phriodol ar gyfer eu swyddi.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

# Ein Hegwyddor Diogelu

***Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.***


Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Defnyddio dull sy'n cael ei arwain gan wybodaeth o ran ein Rhaglen Arolygu ar sail Risg, er mwyn lleihau anafiadau a marwolaethau oherwydd tân mewn cartrefi ac eiddo nad ydynt yn gartrefi.
- Datblygu pob swyddog goruchwylio a phob swyddog system ddyletswydd hyblyg i Lefel 2 Diogelwch Tân ac Arolygwyr i fframwaith cymhwysedd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Cynnal ymgyrchoedd sicrwydd diogelwch tân busnes misol i hyrwyddo diogelwch tân mewn adeiladau masnachol.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.



# Ein Hegwyddor Ymateb

***Darparu ymateb brys effeithiol.***

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Parhau i ymateb i risgiau tân newydd a risgiau tân cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, a mynd i gyfarfodydd y gweithgor aml-asiantaeth Ïon Lithiwm.
- Cynnydd gyda'r prosiect arfaethedig ar gyfer Canolfan Hyfforddi a Datblygu newydd yn Llanelwy, a fydd yn diwallu anghenion hyfforddi a datblygu'r diffoddwr tân modern.
- Mabwysiadu argymhellion adroddiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru ar sut mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn 'Ymateb i Danau mewn Anheddau Domestig'.
- Cyflawni cam nesaf y rhaglen amnewid Tyrau Hyfforddiant.
- Adolygu ein harferion gwaith o ran diffoddwyr tân ar alwad.
- Cyflwyno Grŵp Rheoli Parhad Busnes, i adolygu'r prosesau Parhad Busnes presennol ar gyfer y Gwasanaeth.
- Cyflwyno rhaglen o newid i sicrhau bod argaeledd criwiau ymateb ar draws ein cymunedau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.
- Parhau â'n cynllunio a'n paratoadau ar gyfer y newid i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys dan arweiniad Llywodraeth y DU.
- Parhau i fonitro ac adolygu'r cynlluniau peilot gorsafoedd Niwclews a system shifft Gwydnwch parhaus yn rheolaidd i wella'r ddarpariaeth frys yn ein hardaloedd gwledig a chynyddu gwytnwch y ddarpariaeth ledled y gwasanaeth.
- Edrychwch i ddisodli Ysgol Llwyfan Uchel gydag ysgol drofwrdd fodern.
- Parhau i brynu injannau tân gyda'r egwyddor 'cab glân' mewn golwg er mwyn lleihau amlygiad o halogion tân i ddiffoddwyr tân.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Argaeledd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

# Ein Hegwyddor Amgylcheddol

***Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.***

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Parhau i ehangu'r rhwydwaith Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) presennol ar draws y Gwasanaeth, a throsglwyddo i gerbydau trydan.
- Parhau i fwrw ymlaen â'n trawsnewidiad o gerbydau diesel presennol i gerbydau sy'n defnyddio Olew Llysiau wedi'i Hydrodrin (HVO).
- Diweddaru'r System feddalwedd Rheoli Adeiladau.
- Gweithredu'r strategaeth cynnal a chadw ataliol 'Mecanyddol a Thrydanol' newydd arfaethedig.
- Cynnal astudiaeth dichonolrwydd fanwl o'n hadeiladau i gryfhau gwaith monitro data amgylcheddol.
- Ehangu cylch gwaith y cynghorwyr pwnc i ymgorffori newid hinsawdd a datblygiadau technolegol wrth gasglu a rhannu gwybodaeth sy'n benodol i safleoedd.
- Ceisio gwella ein hadroddiadau cylch bywyd caffael a'n hymgysylltu â chyflenwyr.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Cynaliadwyedd, Effeithlonrwydd ac Arloesedd

# Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu

Dyma rai enghreifftiau o sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol:

## Cymru Lewyrchus

- Y nod wrth weithredu'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yw gwella'r ddarpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig, gan greu cyfleoedd cyflogaeth newydd.
- Cynyddu'r sefydliad o ddiffoddwyr tân ar alwad ledled Gogledd Cymru, gan gynnig llwybrau at gyflogaeth lawn-amser
- Hyfforddi pob aelod o staff i ddefnyddio Microsoft 365 ac i fod yn seiber-ymwybodol.

## Cymru Gydnerth

- Rydym eisoes yn sicrhau nad ydym yn torri gwair rhwng Mai a Medi bob blwyddyn ar ein hystad.
- Byddwn yn dal ati i addysgu tirfeddianwyr am sut i ddefnyddio tir yn gyfrifol, gan gynnwys gadael i anifeiliaid bori a mesurau eraill sy'n atal tanau gwyllt.
- Rydym yn gosod blychau nythu ar gyfer gwenoliaid duon mewn lleoliadau priodol o amgylch ein hystad.
- Ein nod yw trosi ein Fflyd o Gerbydau Trwm i ddefnyddio Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) yn hytrach na Diesel.
- Byddwn yn ceisio trosi ein hystad fel nad oes yna systemau gwresogi sy'n defnyddio hydrocarbonau.
- Ein nod yw gosod paneli solar ffotofoltäig yn y mwyafrif o'n safleoedd erbyn 2030.

## Cymru sy'n Fwy Cyfartal

- Byddwn yn datblygu strategaeth hyfforddiant a datblygu 2026-2029 yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi, gan alluogi ein staff i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnyn nhw eu hangen.
- Byddwn yn defnyddio ein hymgyngoriadau â'r cyhoedd, y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a'r arolygon Teulu Tân a gynhelir bob dwy flynedd er mwyn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Cydraddoldeb Canlyniadau Iechyd – diogelwch tân a diogelwch ar y ffyrdd - ACE ac ymyriadau ieuenctid

## Cymru Iachach

- Byddwn yn parhau â'r gwaith o sefydlu prosesau cadarnhaol a chefnogol i wella presenoldeb, a hynny trwy ddarparu cymorth iechyd a lles galwedigaethol rhagorol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi mannau gwyrdd cymunedol drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel rhai casglu sbwriel, mewn partneriaeth â chymdeithasau tai a chynghorau lleol.
- Byddwn yn cynnal dadansoddiadau o ansawdd uchel er mwyn cefnogi'r defnydd o ddulliau gwell o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach rhagweithiol, yn seiliedig ar risg.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn dod i ddeall esblygiad y bygythiad gan Systemau Storio Ynni Batri, a byddwn yn cynnal ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth er mwyn hysbysu'r cyhoedd.
- Rydym yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith, ynghyd ag ymgyrchoedd eraill sy'n annog ffyrdd iach ac egnïol o fyw. Rydym yn annog ein staff i fyw mewn ffordd iach ac egnïol, a hynny trwy hyrwyddo cynlluniau maetheg a thrwy bennu amseroedd i ddefnyddio ein hystafelloedd ffitrwydd.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Mae rhwydweithiau staff mewnol a grwpiau adnoddau yn creu llwyfannau diogel a chynhwysol lle gall pobl gael gafael ar gyngor, codi pryderon, rhannu syniadau a darparu adborth.
- Trwy ddefnyddio dylunio cynhwysol, mae ein pobl yn lleihau eu hôl troed amgylcheddol trwy weithio'n ystwyth, yn hyblyg, ac o bell. Mae ein mentrau rhannu ceir yn effeithiol ac yn helpu ein pobl i leihau costau tanwydd ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Mae natur y gwaith a wnawn i atal tanau yn golygu bod ein gwasanaeth yn ychwanegu llawer o werth i gymuned Gogledd Cymru, gan gynnig cyngor diogel ac iach sy'n cynnwys diogelwch, iechyd a llesiant. Hefyd, trwy wneud gwaith ymgysylltu gweithredol yn y gymuned yn ystod 2026/27, bydd ein gwasanaeth yn cyflawni rhaglenni, prosiectau ac ymgyrchoedd sy'n meithrin cymunedau sy'n iachach ac yn fwy diogel. Mae cyngor a gwybodaeth yn cael eu cyfleu gan ddefnyddio ystod o wahanol fethodolegau cyfathrebu, gan wella mynediad i wahanol fudd-ddeiliaid, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.
- Rydym yn ychwanegu gwerth sylweddol i gymuned Gogledd Cymru drwy gynnal archwiliadau diogel ac iach, gan gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch personol, ar iechyd ac ar les.
- Rydym yn aelodau gweithgar o amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau sydd wedi'u sefydlu gan sefydliadau pwysig yn y gymuned. Er enghraifft, mae Tîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd Cymru wedi sefydlu Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru.

## Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

- Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac yn hyrwyddo gweithgareddau yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog, gan gynnig cyrsiau Cymraeg yn y gweithle i staff ar lefelau 2 a 3.
- Rydym yn sicrhau bod staff rheng flaen sy'n delio'n uniongyrchol â phobl agored i niwed, fel gweithwyr yr Ystafell Reoli a Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref, oll yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig dewis iaith rhagweithiol yn unol â'r gwerthoedd a geir yn fframwaith 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru
- Drwy hyrwyddo ein gwasanaethau dwyieithog, rydym yn caniatáu i holl drigolion Gogledd Cymru ac ymwelwyr â'r ardal eu defnyddio yn eu hiaith ddewisol.
- Byddwn yn parhau i gydweithio â Mentrau Iaith ledled Gogledd Cymru i sicrhau ein bod yn amlwg mewn dathliadau neu ddigwyddiadau diwylliannol lle gall y Gwasanaeth wneud gwaith ymgysylltu

## Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

- Byddwn yn adolygu eitemau stoc yn ein Storfeydd ac yn datblygu arferion gweithio sy'n lleihau gwastraff.
- Byddwn yn parhau i newid ein fflyd o gerbydau ysgafn er mwyn defnyddio cerbydau hybrid a thrydan.
- Byddwn yn parhau i ddadansoddi cyflenwyr ar sail sgôr datblygu Cynaliadwyedd a datblygu dwysedd Carbon.
- Rydym yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy parhaus ar gyflenwyr, gan gynnwys: cydymffurfiaeth â threth ac â'r gyfraith, caethwasiaeth fodern, a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cyflog Byw Cenedlaethol neu Isafswm Cyflog Byw, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn gweithredu mewn modd moesegol.
- Defnyddio cyflenwyr o fewn fframweithiau sydd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol moesegol a chynaliadwy sydd wedi'u pennu ymlaen llaw.
- Rydym wedi cyhoeddi datganiad Caethwasiaeth Fodern.
- Rydym yn cynnal gwiriadau DBS ar bob aelod o staff fel rhan o'n mesurau diogelwch, gan sicrhau ein bod yn cynnal amgylchedd diogel i'n gweithwyr ac i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

# Sut i Roi Adborth

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus y fersiwn ddrafft o'r ddogfen hwn o 23ain i Hydref tan 14eg o Rhagfyr 2025.

Er bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben rydym yn parhau i edrych am ffyrdd i wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn helpu ni i wneud hyn rydym eisiau sicrhau bod eich barn yn cael ystyriaeth wrth i ni ddarparu ein gweithgareddau a'ch hysbysu chi.

Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynllun hwn, neu sut y gallwn wella ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, rydym eisiau clywed gennych chi.

### Ysgrifennwch atom:

Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) Pencadlys
Ffordd Salesbury
Pare Busness Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL 17 0JJ

### Ffoniwch ni:

07920 084 603

### Anfonwch e-bost atom ni ar:

EinPumEgwyddor@tangogleddcymru.llyw.cymru

### Gwneud Cais Am Archwiliad Diogelwch Tân Yn Y Cartref

Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, perthynas dibynnol neu gymydog, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar **0800 169 1234**.

## Ein dilyn ni

**@northwalesfire**

**@northwalesfireservice**

**@northwalesfire**

**@nwalesfireservice**

MEWN·CYFYNGDER Y·GELWAIST

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mark Morgan, Rheolwr Cyflogau** |
| Pwnc | **Datganiad Polisi Tâl 2026/27** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Hysbysu Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'u cyfrifoldebau o ran Deddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf).

2 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol i'w gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol dan sylw.

3 Mae'r papur hwn yn nodi'r Datganiad Polisi Tâl arfaethedig ar gyfer 2026/27 sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

4 Rhaid i'r Awdurdod baratoi a chymeradwyo Datganiad Polisi Tâl blynyddol yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Rhaid i'r datganiad hefyd gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2017, "*Atebolrwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru*".

## ARGYMHELLIAD

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
**ii) Chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27**

## CEFNDIR

6 Rhaid paratoi Datganiad Polisi Tâl yn unol â Rhan 1; Pennod 8 (Adrannau 38 – 43) Deddf Lleoliaeth 2011. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig crynodeb o elfennau allweddol y Datganiad Polisi Tâl, gan gynnwys:

- (a) Gwybodaeth ynghylch cydnabyddiaeth ariannol ei brif swyddogion;
- (b) cydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr ar y cyflogau isaf; ac
- (c) y berthynas rhwng:
  - (i) cydnabyddiaeth ariannol ei brif swyddogion, a
  - (ii) chydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.

7 Rhaid i'r datganiad nodi:

- (a) y diffiniad o "weithwyr ar y cyflogau isaf" a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod at ddibenion y datganiad; a
- (b) rhesymau'r Awdurdod dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw.

8 Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys polisïau'r Awdurdod sy'n ymwneud â:

- (i) lefel y gydnabyddiaeth ariannol a'i helfennau ar gyfer pob prif swyddog;
- (ii) cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion pan gânt eu recriwtio;
- (iii) cynyddiadau ac ychwanegiadau at gydnabyddiaeth ariannol pob prif swyddog;
- (iv) y defnydd o daliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer prif swyddogion;
- (v) y defnydd o daliadau bonws ar gyfer prif swyddogion;
- (vi) sut y telir prif swyddogion pan ddeuant at ddiwedd eu cyfnod mewn swydd neu gyflogaeth â'r awdurdod; a
- (vii) chyhoeddi a chaniatáu mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion.

9 Rhaid i'r Datganiad Polisi Tâl gael cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod llawn bob blwyddyn a rhaid ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Gall y datganiad gael ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn os ceir cymeradwyaeth briodol.

## GWYBODAETH

10 Diben y Datganiad Polisi Tâl hwn yw sicrhau bod yr Awdurdod yn dryloyw o ran dangos sut y mae'n pennu cyflogau ei weithwyr, yn enwedig cyflogau prif swyddogion a gweithwyr ar y raddfa gyflog isaf, a hynny trwy nodi pa ddulliau a ddefnyddir i benderfynu ar gyflogau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau, a phenderfyniadau ar gyflogau uwch yn benodol, gan gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod ac at allu dangos bod cyflogau'n cael eu dyrannu yn deg. |
| Cyllideb | Mae dyfarniadau cyflog cytunedig a chyhoeddedig y Cyd-gynghorau Cenedlaethol (NJC) yn cael eu hystyried wrth bennu cyllideb flynyddol yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | O dan adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd gyfreithiol i lunio Datganiad Polisi Tâl blynyddol. |
| Staffio | Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn cefnogi egwyddorion tryloywder, cyflog cyfartal a chefnogi staff. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae triniaeth gyfartal o ran cyflog yn rhan bwysig o amcanion Cydraddoldeb yr ATA. |
| Risgiau | Mae diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth yn arwain at risg gyfreithiol a risg i enw da. |

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Datganiad Polisi Tâl 2026/27**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Prif rôl Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yw:

- cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig *Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004*, a *Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005* (a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006), a *Chynllun Cyfuno 1995*;
- cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol; a
- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau atodol.

1.2 Er mwyn cyflawni ei rôl, mae'r Awdurdod yn penodi staff i gyflawni dyletswyddau ar ei ran, ac wrth wneud hynny rhaid iddo ddilyn yr holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol. Mae'r Awdurdod hefyd yn dilyn nifer o egwyddorion allweddol sy'n sicrhau fforddiadwyedd, cyflogau cyfartal, tryloywder a chefnogaeth i'r rhai ar gyflogau isel.

1.3 Diben y ddogfen hon yw bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn ogystal â darparu gwybodaeth am y ffordd y mae'r Awdurdod yn pennu cyflogau ei weithwyr. Mae'n darparu gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion a'r gweithwyr sydd ar y raddfa gyflog isaf. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i benderfynu ar gyflogau'r holl staff.

1.4 Mae'r ddogfen yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027 ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau ac, yn benodol, ar sut i wneud penderfyniadau am gyflogau uwch.

1.5 Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ddogfen flynyddol a baratoir ac a gymeradwyir gan yr Awdurdod cyn dechrau'r flwyddyn ariannol sydd dan sylw ynddo.

## 2.0 Fframwaith deddfwriaethol

2.1 Mae Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr lunio Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2012/13 a phob blwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw dyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r canllawiau ym mis Tachwedd 2021, "Atebolrwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru".

2.2 Mae'r Ddeddf yn cynnig diffiniad eang o gydnabyddiaeth ariannol ac mae'n cynnwys cyflogau, lwfansau, buddion mewn nwyddau, cynnydd/gwelliannau mewn hawliau pensiwn a thaliadau terfynu swydd.

2.3 Pan fydd yn penderfynu ar gyflog a chydnabyddiaeth ariannol ei holl weithwyr, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a, lle bo'n berthnasol, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.

2.4 Mae'r Awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu ar sail cyflog yn digwydd o fewn ei strwythurau cyflog, a hynny er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan ofynion cyflog cyfartal Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae prosesau gwerthuso swyddi wedi'u hymgorffori ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod cyfiawnhad gwrthrychol dros wahaniaethau cyflog rhwng gweithwyr ac i sicrhau bod cyflogau'n adlewyrchiad uniongyrchol o ofynion a chyfrifoldebau'r rôl.

## 3.0 Gwneud penderfyniadau gan gynnwys ystyried gwerth am arian

3.1 Mae’r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr yr Awdurdod.

3.2 Mae'r Awdurdod yn cefnogi trefniadau cydfargeinio ac yn cefnogi’r darpariaethau presennol ar lefel genedlaethol sy'n llywodraethu cyflogau ac amodau gwasanaeth ar gyfer y grwpiau gweithwyr canlynol:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd y Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyfansoddiad a Chynllun Amodau Gwasanaeth (Llyfr Aur)
- Y Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol; Cyfansoddiad, Amodau Gwasanaeth, Cyflogau (Llyfr Glas)
- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, Cynllun Amodau Gwasanaeth (Llyfr Llwyd)
- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd).

3.3 Caiff lefelau cyflog eu hadolygu'n flynyddol trwy ddefnyddio’r trefniadau cydfargeinio hyn a bydd unrhyw daliadau "costau byw" sy'n gysylltiedig ag amodau cytundebol yn cael eu gweithredu ar ôl derbyn hysbysiad gan y corff trafod perthnasol.

3.4 Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw daliadau 'costau byw' cytundebol i'w brif swyddogion yng nghyd-destun penderfyniadau tebyg ynghylch gweithwyr ar gyflogau is, ac yn unol â chanlyniad y cydfargeinio a amlinellir uchod.

3.5 Mae'r holl swyddi sydd dan amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol hefyd yn amodol ar gynllun gwerthuso swyddi'r Awdurdod, sy'n asesu pob rôl yn wrthrychol pan fo swydd newydd yn cael ei chreu, pan fo swydd sydd eisoes yn bodoli yn cael ei newid, neu'n ysbeidiol er mwyn pennu gradd gyflog deg sy'n gyson ar draws y grŵp hwn o staff. Pan fyddant yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau o'u gwirfodd, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol.

3.6 Yn unol â'r cyfansoddiad, yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r gyllideb ariannol flynyddol gan gynnwys fforddiadwyedd costau gweithwyr.

## 4.0 Rôl y Prif Swyddog Tân

4.1 Y Prif Swyddog Tân yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a hwy sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth. Dyma swydd lawn-amser a benodir ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio meini prawf gwrthrychol a chan ddilyn proses gystadleuol agored. Mae'r broses ddethol yn cael ei goruchwylio gan Banel Penodi sy'n cynnwys aelodau'r Awdurdod.

4.2 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gweithio'n agos gydag aelodau etholedig i gyflawni nodau strategol yr Awdurdod. Mae gan y sefydliad gyllideb refeniw flynyddol o tua £54.375 miliwn a chyllideb gyfalaf o £6.661 miliwn ac mae'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, gan gyflogi tua 900 aelod o staff.

## 5.0 Cyflogau'r Prif Swyddogion

5.1 Mae polisi cyflog yr Awdurdod ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion, gan gynnwys y Prif Swyddog Tân, yn cyd-fynd â threfniadau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol. O dan y trefniadau hyn, mae cyflogau Rheolwyr Brigâd yn cael eu hadolygu'n flynyddol ar lefel genedlaethol er mwyn darparu'r isafswm cyflog ar gyfer prif swyddogion tân.

5.2 Pan gânt eu penodi, bydd cydnabyddiaeth ariannol y prif swyddogion yn cael ei gosod ar y cyflog sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r farchnad ac yn cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Hefyd, bydd car yn cael ei ddarparu er mwyn iddynt gyflawni'r swydd.

5.3 Mae cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion hefyd yn destun adolygiad cyflog o dro i dro. Mae'r broses hon yn meincnodi lefelau cyflog y prif swyddog yn erbyn cymaryddion perthnasol mewn awdurdodau tân ac achub eraill. Cafodd y broses adolygu cyflogau ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ystod 2021 a chytunwyd ar yr egwyddorion canlynol:

i. bydd graddfeydd cyflog yn cael eu cysylltu â'r cyfraddau cyflog sylfaenol cyfartalog sy'n cael eu cydgasglu a'u cyhoeddi gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol, a hynny er mwyn cynnig cymariaethau priodol sy'n benodol i'r sector;

ii. bydd pob swydd lefel uwch yn cael ei chyflogi ar raddfa tri phwynt, a bydd rhaid i gyflogeion gael arfarniad blynyddol boddhaol cyn y cânt godi i'r pwynt nesaf. Bydd pob cynyddran ar y raddfa yn seiliedig ar ffigwr o £1,500 ar gyfer y Prif Swyddog Tân; a chyfran gymharol ar gyfer y swyddi eraill;

iii. bydd yr Awdurdod yn talu, ar waelod y raddfa driphwynt, y cyflog sylfaenol cyfartalog ar gyfer awdurdod ym Mand Poblogaeth 2, a fydd yn cynnwys yr holl ddyletswyddau;

iv. bydd y dyfarniadau cyflog blynyddol sy'n cael eu trafod a'u cytuno'n genedlaethol yn cael eu cymhwyso'n awtomatig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos gweithwyr y "llyfr llwyd" a'r "llyfr gwyrdd" (oni fydd gweithiwr yn dewis hepgor unrhyw ran ohono);

v. bydd y perthnasedd cyflog rhwng swyddi PST, DBST, PSTC a PSC yn cael eu hadfer. Cyfrifir cyflog pob swydd lefel uwch fel cyfran o gyflog y Prif Swyddog Tân fel a ganlyn:

| | Cyflog mewn perthynas â'r PST |
|---|---|
| Prif Swyddog Tân | |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | 80% |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 75% |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | 60% |

vi. Bydd maint priodol yn cael ei bennu ar gyfer pob swydd, yn unol â'u lefel, a bydd eu maint yn gyson ar draws y lefel er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cael yr un cyflog cyfartal am waith o'r un gwerth; a

vii. bydd cyflogau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â gofynion y dull 'dau drac' o bennu lefelau tâl ar gyfer Rheolwyr Brigâd fel y rhagnodir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Tair blynedd yw'r cyfnod derbyniol.

5.4 Ystyriwyd meincnodi tair blynedd ar gyflog y Prif Swyddog Tân gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2024. Canfu hyn fod yr egwyddorion a nodir uchod yn parhau i fod yn ddilys a chadarnhawyd bod tâl y Prif Swyddog Tân yn briodol.

5.5 Nid yw'r Awdurdod yn talu unrhyw fonysau na gwelliannau ychwanegol megis tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Pan fydd prif swyddogion yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau o'u gwirfodd, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol.

5.6 Ar ôl ymddiswyddo neu ymddeol o'u dyletswyddau, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r hyn sy'n ddyledus at ddibenion cyflog neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol wrth ymddeol. Gall taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir yn lle rhybudd, hawliau buddion pensiwn a thâl gwyliau.

5.7 Pan fo pecyn diswyddo'n cael ei ystyried ar ôl i brif swyddog gytuno i roi'r gorau i'w ddyletswyddau, ac eithrio am y rhesymau a amlinellir uchod, bydd yr Awdurdod llawn yn cael cynnig i bleidleisio cyn y gellir cymeradwyo unrhyw becyn diswyddo.

5.8 Cyhoeddir gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon blynyddol yr Awdurdod. Cyhoeddir y rhain ar wefan yr Awdurdod.

5.9 Mae costau busnes megis tocynnau trên, milltiroedd ceir, llety dros nos a pharcio yn cael eu hawlio'n ôl yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth y sefydliad, sy'n berthnasol i bob gweithiwr.

5.10 Mae prif swyddogion yn aelodau o'r cynllun pensiwn perthnasol. Nid yw'r Awdurdod yn caniatáu cynyddiadau neu welliannau i'r pensiwn y tu hwnt i'r trefniadau safonol.

5.11 Y cyfnod rhybudd ar gyfer swyddi prif swyddog yw 3 mis.

## 6.0 Staff ar Lefel Uwch

6.1 At ddibenion y Datganiad Polisi Tâl hwn, nid yw'r term "prif swyddog" wedi'i gyfyngu i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ac mae'n cynnwys y rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Tân. Mae hyn yn cynnwys y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a Phrif Swyddogion Cynorthwyol.

6.2 Mae'r swyddi hyn yn ddarostyngedig i ystod o delerau ac amodau:

| **Grŵp Gweithwyr** | **Telerau ac Amodau** | **Buddion eraill** | **Trefniadau pensiwn** |
|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Swyddog Monitro | Darperir gan swyddog a enwir o Gyngor Sir y Fflint o dan drefniant contract | | |
| Trysorydd (swyddog adran 151) | Contract rhan-amser a drafodwyd y tu allan i'r telerau ac amodau cenedlaethol. | | |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol **neu** Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol **neu** Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | Llyfr Glas | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |

## 7.0 Rheoli talent

7.1 Mae ffocws strategol yr Awdurdod ar gefnogi a datblygu ansawdd arweinyddiaeth y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cynyddu capasiti'r timau rheoli presennol, cynllunio datblygiad arweinwyr y dyfodol, hyrwyddo gwerthoedd arweinyddiaeth ledled y sefydliad a denu arweinwyr effeithiol o sectorau eraill, pan fo hynny'n briodol.

## 8.0 Tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad

8.1 Ar hyn o bryd, nid oes cynllun tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar waith ar gyfer unrhyw swydd ar draws y Gwasanaeth.

## 9.0 Cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer staff heblaw am brif swyddogion

9.1 Mae polisi cyflog yr Awdurdod ar gyfer talu gweithwyr nad ydynt yn brif swyddogion yn cyd-fynd â'r cyfraddau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac a negodwyd drwy'r Cyd-gyngor Cenedlaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr cenedlaethol cyflogwyr a gweithwyr.

| Grŵp Gweithwyr | Telerau ac Amodau | Buddion eraill | Trefniadau Pensiwn |
|---|---|---|---|
| Swyddogion (Rheolwyr Gorsaf, Rheolwyr Grŵp a Rheolwyr Ardal) | Llyfr Llwyd | Darperir car ar brydles ar gyfer staff ar y rota dyletswydd hyblyg | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Pennaeth Adrannau Corfforaethol | Llyfr Glas | Dim | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diffoddwyr Tân | Llyfr Llwyd | Dim | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prentisiaid Diffoddwyr Tân | Llyfr Llwyd | Dim | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Staff yr Ystafell Reoli | Llyfr Llwyd | Dim | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diogelwch Tân ac Atal Tanau | Llyfr Gwyrdd | Dim | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Llyfr Gwyrdd | Dim* | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Prentisiaid | Llyfr Gwyrdd | Dim | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| * Gyda nifer fach o swyddi lle bydd angen teithio'n bell neu deithio'n aml, bydd dewis i gael car ar brydles | | | |

9.2 Mae'r gweithiwr ar y cyflog isaf wedi'i gyflogi ar bwynt 6 colofn gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd), sy'n cyfateb i £25,989 y flwyddyn o 1 Ebrill 2025. O bryd i'w gilydd, bydd yr Awdurdod yn cyflogi prentisiaid nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad o 'weithwyr ar y cyflogau isaf' gan nad ydynt yn cael eu cyflogi o dan gontractau cyflogaeth.

9.3 Mae'r canllawiau statudol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn argymell defnyddio lluosrifau cyflog er mwyn mesur y berthynas rhwng cyfraddau cyflog ar draws y gweithlu a chyfraddau cyflog uwch-reolwyr, fel yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn 'Review of Fair Pay in the Public Sector' Hutton (2010).

9.4 Yn ôl y lefelau cyflog o fewn yr Awdurdod yn 2025/26, y lluosrif rhwng y gweithiwr ar y cyflog isaf (cyflog sylfaenol cyfwerth ag amser llawn) a'r Prif Swyddog Tân yw 1:6.27.

9.5 Pan gynhaliwyd adroddiad Hutton ar gyflog teg yn y sector cyhoeddus, gofynnwyd iddynt ymchwilio i'r achos dros gyflwyno cyfyngiad sefydlog ar wasgariad cyflogau o fewn y sector cyhoeddus, a hynny trwy gyflwyno cyfyngiad a fyddai'n atal unrhyw reolwr sector cyhoeddus rhag ennill mwy nag 20 gwaith yr hyn y mae'r person ar y cyflog isaf yn y sefydliad yn ei ennill. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y berthynas ag enillion canolrifol yn fesur mwy perthnasol, ac mae Cod y Llywodraeth ar gyfer yr Arferion a Argymhellir ar Dryloywder Data yn argymell cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a chyflog canolrifol holl weithlu'r Awdurdod. Y lluosrif rhwng yr enillion cyfwerth ag amser llawn sylfaenol canolrifol ac enillion y Prif Swyddog Tân yw 1:4.19 (ac eithrio'r system dyletswydd ar alwad). Sylwch mai dim ond cyflogau amser llawn sydd wedi'u cynnwys yn y ffigwr hwn a'i fod yn eithrio lwfansau.

9.6 Yn eu datganiad ariannol blynyddol, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion, am enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad, ac am y gymhareb rhwng y ddau ffigur hyn er mwyn dangos y berthynas rhwng y ddau.

## 10.0 Cefnogaeth i staff ar gyflogau is

10.1 Mae holl weithwyr y Gwasanaeth yn cael tâl sy'n uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol statudol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu cyflogau teg ac i gefnogi gweithwyr ar gyflogau is. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at gael achrediad Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol, yn unol â'r egwyddorion a hyrwyddir gan y Sefydliad Cyflog Byw.

10.2 Mae ystod o fesurau cymorth ychwanegol ar gael i weithwyr, gan gynnwys y Cerdyn Disgownt Golau Glas, sy'n cynnig gostyngiadau gan ystod eang o fanwerthwyr a gwasanaethau. Mae cymorth pellach yn cynnwys cynllun Beicio i'r Gwaith, Rhaglen Cymorth i Weithwyr, gwasanaethau cwnsela, darpariaeth Iechyd Galwedigaethol a thalebau gofal plant.

10.3 Mae cynllun ffisiotherapi hefyd ar gael i bob gweithiwr. Mae gweithwyr yn cael cymorth ariannol er mwyn gallu atgyfeirio eu hunain ar gyfer therapi am anaf cyhyrysgerbydol neu anhwylderau eraill.

## 11.0 Ychwanegiadau at Gyflogau Gweithwyr Eraill

11.1 Lle bo'n briodol, ac yn unol ag amodau gwasanaeth cenedlaethol neu gytundebau lleol, gall unigolion gael lwfans ar ben eu cyflog. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys, ymhlith eraill:

- darpariaeth ar alwad neu y tu allan i oriau
- argaeledd parhaus
- cyfrifoldeb ychwanegol
- lwfans rhent, tanwydd a golau
- lwfans ffôn
- cyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr
- lwfansau milltiroedd

## 12.0 Honoraria

12.1 Gall aelod o staff sy'n cyflawni dyletswyddau y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir yn y swydd, a hynny dros gyfnod estynedig, gael taliad untro ychwanegol, gyda'r swm yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos dan sylw. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- pan fo gweithiwr yn gwneud gwaith ychwanegol sylweddol dros dro, y tu hwnt i'w cyfrifoldebau arferol; neu
- pan fo gweithiwr yn gwneud cryn dipyn o waith dros eu horiau contract arferol, ond nad ydynt yn gymwys i gael taliadau goramser oherwydd eu safle ar y raddfa gyflog.

12.2 Byddai unrhyw benderfyniad ynghylch honoraria arfaethedig i brif swyddogion angen cymeradwyaeth yr Awdurdod.

12.3 Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r holl staff eraill yn cael eu hystyried gan y Pennaeth Adran priodol mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

## 13.0 Polisi ymadael

13.1 Pan fydd unigolyn yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau o'u gwirfodd, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r hyn sy'n ddyledus at ddibenion cyflog neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol wrth ymddeol. Gall taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir yn lle rhybudd, hawliau buddion pensiwn, tâl gwyliau ac unrhyw ffioedd neu lwfansau a delir.

13.2 Gall gweithwyr sydd wedi'u cyflogi dan amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod, hawlio taliad pensiwn ychwanegol a/neu daliad dileu swydd os bydd yr awdurdod yn dewis terfynu eu cyflogaeth yn gynnar, o dan ddisgresiwn yr Awdurdod mewn perthynas â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd) – sy'n aml yn cael eu galw'n Rheoliadau Iawndal ar sail Disgresiwn.

13.3 Mae gan y Gwasanaeth bolisi ar gyfer trefniadau diswyddo neu ymadael.

13.4 Ar brydiau, bydd cyn-weithwyr yn cael eu hailgyflogi gan y Gwasanaeth. Pan fo cyfanswm eu henillion a'u pensiwn yn uwch na'u cyflog ar ddiwedd eu cyflogaeth wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, gall y pensiwn gael ei leihau yn unol â rheoliadau'r cynllun.

## 14.0 Trefniadau oddi ar y gyflogres

14.1 Anaml y bydd yr Awdurdod yn talu am wasanaeth unigolion gan ddefnyddio trefniadau oddi ar y gyflogres. Dim ond ar sail eithriadol y byddant yn cael eu hystyried, a hynny ar gyfer darnau arbenigol o waith na cheir capasiti neu arbenigedd mewnol ar eu cyfer. Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i sicrhau bod dangosydd statws cyflogaeth CThEF yn cael ei gwblhau ar gyfer pob cyflenwr cyn y gwneir unrhyw daliadau.

## 15.0 Atodiadau

Atodiad 1 — Matrics cyflogau Prif Swyddogion

Atodiad 2 — Cyfraddau cyflog y Cyd-Gyngor Cenedlaethol
- 2.1 Rolau Diffoddwyr Tân
- 2.2 Y System Dyletswydd Ar Alwad
- 2.3 Rolau'r Ystafell Reoli

Atodiad 3 — Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, matrics cyflogau

**Atodiad 1**

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Cyfraddau Cyflog Prif Swyddogion (fel yr oeddent ym mis Gorffennaf 2025)**

| **Swydd** | Cyflog | Cyflog | Cyflog | % o PST** |
|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | |
| PST* | £159,512 | £161,228 | £162,945 | |
| DBST* | £127,919 | £129,292 | £130,666 | 80% |
| PSTC* | £120,022 | £121,309 | £122,595 | 75% |
| PSC | £96,327 | £97,356 | £98,386 | 60% |

* yn cynnwys cydnabyddiaeth ariannol am drefniadau dyletswydd parhaus

** Mae dyfarniad cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol a gafodd ei gytuno'n genedlaethol ac a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2025, gan gymhwyso codiad cyfradd unffurf o £1,500, wedi arwain at amrywiad bychan mewn cymariaethau cyflog, a hynny o oddeutu 0.002% ar gyfer y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, a 0.003% ar gyfer y Prif Swyddog Cynorthwyol. Nid yw'r amrywiadau hyn yn newid egwyddorion cyflog cytunedig yr Awdurdod na pherthnasau cyflog arfaethedig, a byddant yn cael eu haddasu i gydymffurfio â'r canrannau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r adolygiad cyflog prif swyddog nesaf, a drefnwyd ar gyfer 2027.

| **Gwasanaeth a ddarperir yn allanol** | **Gwerth (y flwyddyn)** |
|---|---|
| Swyddog Monitro | £ 20,073 (heb gynnwys TAW)* |
| Swyddog Adran 151 | £8,510 |

*yn seiliedig ar gost y llynedd

**ATODIAD 2.1**

**ROLAU DIFFODD TÂN - CYFRADDAU CYFLOG O 1 GORFFENNAF 2025 (mae'r dyfarniad cyflog o 1 Gorffennaf 2026 ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)**

| | Blynyddol sylfaenol £ | Cyfradd sylfaenol yr awr £ | Cyfradd goramser £ |
|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân** | | | |
| Datblygu | 30,384 | 13.87 | 20.81 |
| Cymwys | 38,881 | 17.75 | 26.63 |
| | | | |
| **Rheolwr Criw** | | | |
| Datblygu | 41,322 | 18.87 | 28.31 |
| Cymwys | 43,104 | 19.68 | 29.52 |
| | | | |
| **Rheolwr Gwylfa** | | | |
| Datblygu | 44,038 | 20.11 | 30.17 |
| Cymwys A | 45,260 | 20.67 | 31.01 |
| Cymwys B | 48,202 | 22.01 | 33.02 |
| | | | |
| **Rheolwr Gorsaf** | | | |
| Datblygu | 50,135 | 22.89 | 34.34 |
| Cymwys A | 51,642 | 23.58 | 35.37 |
| Cymwys B | 55,301 | 25.25 | 37.88 |
| | | | |
| **Rheolwr Grŵp** | | | |
| Datblygu | 57,743 | 26.37 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 59,476 | 27.16 | Amherthnasol |
| Cymwys B | 64,013 | 29.23 | Amherthnasol |
| | | | |
| **Rheolwr Ardal** | | | |
| Datblygu | 67,792 | 30.96 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 69,823 | 31.88 | Amherthnasol |
| Cymwys B | 74,360 | 33.95 | Amherthnasol |
| | | | |

**ATODIAD 2.2**

**ROLAU DIFFODD TÂN – CYFRADDAU CYFLOG O 1 Gorffennaf 2025 (SYSTEM DYLETSWYDD AR ALWAD)**
**(mae'r dyfarniad cyflog o 1 Gorffennaf 2026 ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)**

| | (1) £ y flwyddyn | (2) £ y flwyddyn | (3) £ yr Awr | (4) £ yr achlysur |
|---|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân** | | | | |
| Datblygu | 4,558 | 2,279 | 13.87 | 5.12 |
| Cymwys | 5,832 | 2,916 | 17.75 | 5.12 |
| | | | | |
| **Rheolwr Criw** | | | | |
| Datblygu | 6,198 | 3,099 | 18.87 | 5.12 |
| Cymwys | 6,466 | 3,233 | 19.68 | 5.12 |
| | | | | |
| **Rheolwr Gwylfa** | | | | |
| Datblygu | 6,606 | 3,303 | 20.11 | 5.12 |
| Cymwys A | 6,789 | 3,395 | 20.67 | 5.12 |
| Cymwys B | 7,230 | 3,615 | 22.01 | 5.12 |
| | | | | |
| **Rheolwr Gorsaf** | | | | |
| Datblygu | 7,520 | 3,760 | 22.89 | 5.12 |
| Cymwys A | 7,746 | 3,873 | 23.58 | 5.12 |
| Cymwys B | 9,602 | 4,801 | 29.23 | 5.12 |
| | | | | |
| **Rheolwr Grŵp** | | | | |
| Datblygu | 8,662 | 4,331 | 26.37 | 5.12 |
| Cymwys A | 8,921 | 4,461 | 27.16 | 5.12 |
| Cymwys B | 9,602 | 4,801 | 29.23 | 5.12 |
| | | | | |
| **Rheolwr Ardal** | | | | |
| Datblygu | 10,169 | 5,085 | 30.96 | 5.12 |
| Cymwys A | 10,473 | 5,237 | 31.88 | 5.12 |
| Cymwys B | 11,154 | 5,577 | 33.95 | 5.12 |

Mae Colofn 1 yn dangos y tâl cadw blynyddol llawn (15% o'r cyflog blynyddol sylfaenol amser llawn, fel y nodir yn Atodiad A)

Mae Colofn 2 yn dangos y tâl cadw ar gyfer gweithwyr ar y system ddyletswydd criwio dydd (7.5% o'r cyflog blynyddol sylfaenol amser llawn, fel y nodir yn Atodiad A)

Mae Colofn 3 yn dangos y gyfradd fesul awr ar gyfer gwaith a wnaed

**ATODIAD 2.3**

**ROLAU PENODOL YR YSTAFELL REOLI – CYFRADDAU CYFLOG O 1 GORFFENNAF 2025**

**(mae'r dyfarniad cyflog o 1 Gorffennaf 2026 ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)**

| | **Blynyddol sylfaenol* £** | **Cyfradd sylfaenol yr awr £** | **Cyfradd goramser £** |
|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 28,865 | 13.18 | 19.77 |
| Cymwys | 36,937 | 16.87 | 25.31 |
| | | | |
| **Rheolwr Criw (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 39,256 | 17.93 | 26.9 |
| Cymwys | 40,949 | 18.70 | 28.05 |
| | | | |
| **Rheolwr Gwylfa (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 41,836 | 19.10 | 28.65 |
| Cymwys A | 42,997 | 19.63 | 29.45 |
| Cymwys B | 45,792 | 20.91 | 31.37 |
| | | | |
| **Rheolwr Gorsaf (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 47,628 | 21.75 | 32.63 |
| Cymwys A | 49,060 | 22.40 | 33.60 |
| Cymwys B | 52,536 | 23.99 | 35.99 |
| | | | |
| **Rheolwr Grŵp (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 54,856 | 25.05 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 56,502 | 25.80 | Amherthnasol |
| Cymwys B | 60,812 | 27.77 | Amherthnasol |

* (95% o'r cyflog blynyddol sylfaenol ar gyfer swyddi diffodd tân perthnasol, fel y nodir yn Atodiad A)

## CYFRADDAU TÂL O 1 EBRILL 2025 AR GYFER STAFF A GYFLOGIR AR DELERAU AC AMODAU'R LLYFR GWYRDD (mae'r trafodaethau cyflog ar gyfer 26/27 yn parhau)

| Pwynt ar y Golofn Gyflog | 01-Ebr-25 | |
|---|---|---|
| | y flwyddyn | yr awr* |
| 2 | £24,413 | £12.65 |
| 3 | £24,796 | £12.85 |
| 4 | £25,185 | £13.05 |
| 5 | £25,583 | £13.26 |
| 6 | £25,989 | £13.47 |
| 7 | £26,403 | £13.69 |
| 8 | £26,824 | £13.90 |
| 9 | £27,254 | £14.13 |
| 10 | £27,694 | £14.35 |
| 11 | £28,142 | £14.59 |
| 12 | £28,598 | £14.82 |
| 13 | £29,064 | £15.06 |
| 14 | £29,540 | £15.31 |
| 15 | £30,024 | £15.56 |
| 16 | £30,518 | £15.82 |
| 17 | £31,022 | £16.08 |
| 18 | £31,537 | £16.35 |
| 19 | £32,061 | £16.62 |
| 20 | £32,597 | £16.90 |
| 21 | £33,143 | £17.18 |
| 22 | £33,699 | £17.47 |
| 23 | £34,434 | £17.85 |
| 24 | £35,412 | £18.35 |
| 25 | £36,363 | £18.85 |
| 26 | £37,280 | £19.32 |
| 27 | £38,220 | £19.81 |
| 28 | £39,152 | £20.29 |
| 29 | £39,862 | £20.66 |
| 30 | £40,777 | £21.14 |
| 31 | £41,771 | £21.65 |
| 32 | £42,839 | £22.20 |
| 33 | £44,075 | £22.85 |
| 34 | £45,091 | £23.37 |
| 35 | £46,142 | £23.92 |
| 36 | £47,181 | £24.46 |
| 37 | £48,226 | £25.00 |
| 38 | £49,282 | £25.54 |
| 39 | £50,269 | £26.06 |
| 40 | £51,356 | £26.62 |
| 41 | £52,413 | £27.17 |
| 42 | £53,460 | £27.71 |
| 43 | £54,495 | £28.25 |

*cyfradd fesul awr wedi'i chyfrifo trwy rannu'r cyflog blynyddol â 52.143 wythnos (sef 365 diwrnod wedi'i rannu â 7) ac yna ei rannu â 37 awr (sef yr wythnos waith safonol yn ôl Cytundeb Cenedlaethol y 'Llyfr Gwyrdd')

**CYFRADDAU TÂL O 1 EBRILL 2025 AR GYFER STAFF A GYFLOGIR AR DELERAU AC AMODAU'R LLYFR GLAS**

**(mae'r trafodaethau cyflog ar gyfer 26/27 yn parhau)**

| Pwynt ar y Golofn Gyflog | 01-Ebr-25 | |
|---|---|---|
| | y flwyddyn | yr awr |
| 48 | £59,538 | £30.86 |
| 49 | £61,699 | £31.98 |
| 50 | £62,778 | £32.54 |
| 51 | £63,857 | £33.10 |